***DIWYLLIANT CYTÛN***

**CYNNWYS**

Rhagair y Cadeirydd……………………………………………………………**3**

GWELEDIGAETH AR GYFER 2010…………………………………………...**4**

PENNOD 1

**CYFLWYNIAD I'R ADOLYGIAD……………………………………………..6**

Bwrw iddi
Cyd-destun
Ymgynghori

PENNOD 2

**DIWYLLIANT A'R CELFYDDYDAU YNG NGHYMRU…………………………9**

Gwahaniaethu rhwng Diwylliant a'r Celfyddydau
Celfyddyd a Menter Ddiwylliannol
Continwwm y Celfyddydau - a Sbectrwm y Celfyddydau
Yr Artist
Yr Isadeiledd

PENNOD 3

**POLISÏAU A BLAENORIAETHAU AR GYFER Y CELFYDDYDAU A DIWYLLIANT YNG NGHYMRU………………………………………………14**

Yr egwyddorion wrth wraidd y polisi yng Nghymru
Y Cyd-destun
Diwylliant Cyfoethog - Cymunedau Cryf
Amrywiaeth Hyderus - Arbenigrwydd Cadarnhaol
Gwlad sy'n Dysgu – Diwylliant Cyfoethocach
Diwydiant Blaengar - Diwylliant Creadigol
Uchelgais Genedlaethol – Dylanwad Rhyngwladol

PENNOD 4

**SWYDDOGAETHAU A GWEITHREDU……………………………………..40**

Rhagarweiniad
Rôl y Cynulliad Cenedlaethol
Y Cynulliad a Newid Sefydliadol
Cyngor Celfyddydau Cymru
Y Consortiwm Diwylliannol - Cymru'n Creu
Sicrhau Rhagoriaeth
Ariannu
Targedau, Monitro a Gwerthuso

PYRAMID CENEDLAETHOL Y CELFYDDYDAU…………………………**51**

CRYNODEB O'R ARGYMHELLION............................................53

ATODIADAU...................................................................63

A  Cylch Gorchwyl yr Adolygiad
B  Golwg Gyffredinol ar yr Ymgynghori
C  Papurau trafod gan Dr Dafydd Glyn Jones a'r Athro Dai Smith (gyda chyflwyniad gan Ceri Sherlock)
D  Diwylliant a'r Celfyddydau yng Nghymru - sylwadau Ceri Sherlock (**ar gael yn electronig yn unig**)

**RHAGAIR Y CADEIRYDD**

Ddeunaw mis wedi sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, dyma gyhoeddi adroddiad sy'n cyflwyno polisi uchelgeisiol ar gyfer y Celfyddydau.

Wrth gymryd rhan mewn ymchwiliad trwyadl dros gyfnod o chwe mis, tyfodd argyhoeddiad ymysg aelodau'r pwyllgor bod i'r Celfyddydau le canolog yn y broses o ddadeni cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd y mae'r Cynulliad am ei hyrwyddo.  Mae Diwylliant (a rhan yn unig o ddiwylliant yw'r Celfyddydau) yn greiddiol i'n hanturiaeth genedlaethol.

Ymdrech yw'r adroddiad swmpus hwn i ddisgrifio ymhlygiadau'r argyhoeddiad hwn ar gyfer y Gymru sydd ohoni ym myd heriol a chyfnewidiol dechrau'r unfed ganrif ar hugain.

Mae'r pwyllgor o'r farn bod meithrin creadigedd ar lawr gwlad ein cenedl yn rhagamod y math o flodeuo diwylliannol y dymunwn ei weld a bod pob cyfiawnhad dros fuddsoddi adnoddau sylweddol i'r dasg honno.

Wrth ddatblygu’n gweledigaeth a'n hargymhellion cafodd y Pwyllgor fantais aruthrol o dynnu ar gyngor ein hymgynghorydd arbenigol, Ceri Sherlock.  Mae ein dyled iddo'n anfesuradwy.  Y sylwadau a baratowyd ganddo i'r Pwyllgor yw Atodiad D (ar gael yn electronig yn unig) ein hadroddiad ni.  Er nad yw'r Pwyllgor wedi cymeradwyo cynnwys yr Atodiad hwnnw, rydym wedi tynnu'n helaeth arno.  Bydd pobl sydd â diddordeb arbennig yn y maes yn elwa'n fawr o'i ddarllen.

Hoffwn ddiolch i gymuned y celfyddydau am eu cyfraniad aruthrol i'n gwaith ac am eu brwdfrydedd a'u hewyllys da yn ystod y broses adolygu.  Yn olaf, hoffwn fynegi fy ngwerthfawrogiad o waith Clerc y Pwyllgor a'r Dirprwy Glerc, Julia Annand a Steve Thomas.  Y nhw sydd wedi gorfod ymdopi â'r dasg o grynhoi'r holl ddeunydd a gyflwynwyd gerbron y Pwyllgor a pharatoi'r adroddiad.

Yr wyf yn cymeradwyo'r adroddiad i Ysgrifennydd y Cynulliad, a'r Cynulliad yn gyffredinol.

**CYNOG DAFIS**
**Cadeirydd, Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant ar ôl 16 Oed**

## GWELEDIGAETH AR GYFER 2010

O roi argymhellion yr adroddiad hwn ar waith - o safbwynt polisïau cyffredinol a chyfarwyddyd manwl - credwn y gellir creu 'Diwylliant Cytûn' i Gymru.

Erbyn 2010, ac yn gynt o lawer os bydd modd, rydym am i weddill y byd weld Cymru fel gwlad:

- a chanddi ddiwylliant cytûn, cyfoethog, hyderus, neilltuol a chreadigol;
- lle ceir byd celfyddydol sy'n cydnabod gwerth ystod gynyddol o ffurfiau celfyddyd ac y gall mwy a mwy o bobl gymryd rhan ynddo a mynd ati i greu celfyddyd ynddo;
- lle mae cryn nifer o bobl yn cymryd rhan ar lawr gwlad;
- sy'n gallu cynnwys pawb yn ei mentrau diwylliannol cyffredinol;
- lle mae dwyieithrwydd yn realiti neilltuol sy'n tyfu, lle dathlir y Gymraeg fel iaith unigryw, gyfoethog a deinamig a lle rhoddir gwerth a pharch i dafodieithoedd, acenion a mynegiant artistig Cymru fel rhan o'n hetifeddiaeth ieithyddol;
- lle mae aml-ddiwylliant yn rhan annatod o'n hamrywiaeth gyfoethog a'n diwylliant cytûn;
- lle rhoddir yr un parch i'r hyn sy'n newydd ag i'r traddodiadol;
- lle mae cysylltiadau cryf yn cael eu meithrin rhwng gweithgareddau celf gymunedol/gweithgareddau ar lawr gwlad a'n sefydliadau diwylliannol cenedlaethol;
- lle ceir cyfundrefnau o'r radd flaenaf i wella safonau o hyd - a lle rhoddir pwys ar ansawdd a gwerth a lle cânt eu monitro;
- lle mae datblygu diwylliannol yn rhan annatod o waith y Cynulliad i fynd i'r afael â dieithrio cymdeithasol, gwella dysgu, hybu'r economi a gwella ansawdd bywyd;
- lle ceir strategaeth ddiwylliannol gydlynol a ddarperir drwy gyrff a noddir ag arian cyhoeddus mewn ffordd atebol ac effeithlon dros bobl Cymru;
- lle ceir awdurdodau lleol sy'n cydnabod manteision pwysig gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol i'w cymunedau a'u heconomïau lleol;
- lle ceir busnesau sy'n cefnogi diwylliant a'r celfyddydau'n gryfach nag erioed o'r blaen;
- lle mae'r diwydiannau creadigol yn cyfrannu'n gryf ac yn gynaliadwy at ffyniant economaidd;
- lle cydnabyddir bod twristiaeth ddiwylliannol yn rhan bwysig o'r economi Gymreig ac yn gwbl hanfodol i dwristiaeth;
- lle defnyddir technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn effeithiol i ddenu mwy o bobl i fwynhau a chymryd rhan yn niwylliant Cymru, rhoi gwybod iddynt am y diwylliant hwnnw, a sicrhau ei fod ar gael yn rhwyddach;
- y bydd nifer y bobl sy'n cymryd rhan yn ei byd celfyddydol, a natur ddemocrataidd y byd hwnnw'n gwneud argraff ar ymwelwyr â hi.

**Rydym am i Gymru fod:**

- **yn lle y mae ein pobl ifanc eisiau byw a gweithio ynddo a lle mae creadigrwydd yn gyffredin**
- **yn wlad sy'n gyffrous, ac yn llawn egni diwylliannol a thalent artistig**
- **yn wlad lle rhoddir gwerth ar ddiwylliant a'r celfyddydau.**

Credwn bod yr Adroddiad hwn yn paratoi'r ffordd ar gyfer gwireddu'r uchelgais honno a chyflawni prif amcanion Gwell Cymru.  Mae'n werth creu **Diwylliant Cytûn**, ac mae'n werth ymdrechu i'w feithrin.  Cymeradwywn ein gweledigaeth i'r Cynulliad Cenedlaethol cyfan ac i bobl Cymru.

## PENNOD 1

## CYFLWYNIAD I'R ADOLYGIAD

### Bwrw iddi

1.1 Penderfynodd Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant ar ôl 16 oed y Cynulliad Cenedlaethol yn ei gyfarfod cyntaf un y byddai'n canolbwyntio ar gynnal adolygiadau pwysig o bolisïau. Daeth yr adolygiad hwn o'r celfyddydau a diwylliant yng Nghymru yn fuan wedi adolygiad y Pwyllgor o argymhellion y Grwp Gweithredu Addysg a Hyfforddiant (ETAG). Ar ôl cwblhau'r adolygiad hwn, bwriedir cynnal adolygiad eang o Addysg Uwch.

1.2 Teimlai'r Pwyllgor fod diwylliant yn hanfodol bwysig i fywyd Cymru a'i bod yn hen bryd cynnal asesiad trylwyr ohono. Sefydlodd y Pwyllgor weithgor o Aelodau (Elin Jones, Plaid Cymru, Ceredigion; Christine Chapman, y Blaid Lafur, Cwm Cynon a Jonathan Morgan, y Blaid Geidwadol, Canol De Cymru) a swyddogion i lunio cylch gorchwyl a chyfres o gwestiynau i'w holi i gymuned y celfyddydau. Penderfynodd y grwp hefyd bod angen cyngor arbenigwr yn y maes ar y Pwyllgor. Penodwyd y cyfarwyddwr a'r academydd nodedig, Ceri Sherlock, a gychwynnodd ar y gwaith ddiwedd Ionawr.

1.3 Nodir y cylch gorchwyl a bennwyd yn Atodiad A. Ceir golwg gyffredinol ar y gwaith ymgynghori yn Atodiad B.

**Cyd-destun yr adolygiad**

1.4 Yn sgil sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol rhoddwyd hwb i atebolrwydd a democratiaeth wleidyddol yng Nghymru, a hwb hefyd i hunan-barch a hyder y genedl. Nodir gweledigaeth y Cynulliad ar gyfer y dyfodol yn y ddogfen www.gwellcymru.com . Bydd cymuned y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol yn rhan bwysig o'r gwaith o wireddu'r weledigaeth honno. Tair prif thema "Gwell Cymru" - datblygu cynaliadwy, mynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol a chyfle cyfartal - sydd wrth wraidd gweledigaeth y Pwyllgor hwn ar gyfer y celfyddydau a diwylliant yng Nghymru. Cânt eu hystyried wrth lunio'r holl argymhellion. Mae llawer o'r argymhellion hefyd yn ganolog i amcanion Gwell Cymru, ac yn arbennig felly:

- **Hyrwyddo dinasyddiaeth weithredol, creadigrwydd a mentergarwch**
- **Hybu proffil a dylanwad rhyngwladol Cymru a sicrhau ei fod yn lle rhagorol i fyw, astudio, cynnal busnes ac ymweld ag ef**
- **Hybu ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg, ein diwylliant a'n treftadaeth a chyfleoedd chwaraeon, a sicrhau eu bod ar gael yn rhwyddach.**

1.5 Ni fu adeg fwy priodol erioed i adolygu'r celfyddydau a diwylliant yng Nghymru. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod fwyfwy rôl allweddol y celfyddydau a diwylliant mewn prosiectau adfywio cymdeithasol, a chyfraniad arwyddocaol y diwydiannau creadigol i'r economi. Mae Llywodraeth Ewrop hefyd wedi nodi bod Diwylliant yn faes lle ceir twf economaidd ac mae'n gweld cysylltiad agos rhwng diwylliant a hunaniaeth ranbarthol. Yng nghyd-destun Ewrop, mae sawl her a chyfle i Gymru. Bydd Cronfeydd Strwythurol Ewrop yn rhoi hwb sylweddol i ddiwydiannau creadigol Cymru. Mae'n rhaid i ni wneud yn siwr bod y sector hwn mewn lle da i fanteisio ar bob cyfle.

1.6 Dyma oes a chanddi gyfoeth o dalent diwylliannol. Mae yng Nghymru actorion, cerddorion, llenorion, cyfansoddwyr, cantorion, cyfarwyddwyr a

chynllunwyr sy'n cael cryn lwyddiant ar y llwyfan rhyngwladol. Maent yn llysgenhadon dros y genedl a dylid eu gwerthfawrogi o'r herwydd. Ein gwaith ni bellach yw meithrin cenedlaethau'r dyfodol a sicrhau ein bod yn creu amgylchedd priodol ar gyfer hynny.

1.7 Mae'r adroddiad hwn yn gosod y sylfeini. Diffinnir ynddo bolisi diwylliannol ar gyfer y genhedlaeth nesaf yng Nghymru, ac mae'n nodi nifer o egwyddorion ac argymhellion a fydd yn sail i'r polisi hwnnw.
**Argymhellir y rhain i Ysgrifennydd y Cynulliad ac i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'w hystyried mewn dadl yn y Cyfarfod Llawn.**

**Ymgynghori**

1.8 Cynhaliwyd cyfnod ymgynghori'r adolygiad o fis Ionawr hyd fis Mehefin 2000. Yn ystod y cyfnod hwnnw, ymddangosodd 57 o fudiadau ac unigolion gerbron y Pwyllgor a chyflwynwyd tystiolaeth ysgrifenedig ganddynt, cyflwynodd 86 dystiolaeth ysgrifenedig yn unig a chyfarfu 7 arall â'r Cadeirydd a'r ymgynghorydd arbenigol (ceir manylion llawn yr ymgynghori yn atodiad B). Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y bu rhai bylchau yn yr adolygiad, ond mae wedi ysgogi trafod agored a chyhoeddus mewn maes sydd o gryn ddiddordeb cenedlaethol. Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb a aeth i'r drafferth i ymateb ac a fynegodd eu barn, boed hynny drostynt eu hunain fel dinasyddion gweithredol sydd â diddordeb yn y maes neu fel cynrychiolwyr mudiadau'r celfyddydau a grwpiau lobïo. Roedd safon yr ymatebion ysgrifenedig yn gyson uchel; ac roedd gofal, meddwl gofalus ac angerdd yn nodweddu'r trafod. Bu'r cyfraniadau ysgrifenedig yn fuddiol iawn o ran llywio syniadau'r Pwyllgor, ynghyd â'r ffordd yr aeth y Pwyllgor ati i drafod meysydd penodol sy'n peri pryder a diddordeb.

1.9 Roedd yn arbennig o dda gan y Pwyllgor bod yr adolygiad wedi cael derbyniad mor wresog a'i fod wedi ennyn cymaint o ewyllys da. Yng Nghymru, bu teimlad ymhlith cymuned y celfyddydau bod eu gwaith yn isel ymysg blaenoriaethau'r Llywodraeth. Drwy gynnal yr adolygiad, roedd y Pwyllgor yn awyddus i roi arwydd clir bod y celfyddydau a diwylliant yng Nghymru'n rhan arwyddocaol a phwysig o 'Brosiect Cymru' a'i bod yn hen bryd ystyried y maes yn drylwyr. Nododd sawl un o'r mudiadau bod y broses adolygu ei hun wedi ceisio gosod safon arfer da drwy fod mor agored a thryloyw. Soniwyd am y ffaith bod y papurau a'r ymatebion ar gael yn electronig drwy'r Rhyngrwyd ac am y pedwar cyfarfod cyhoeddus rhanbarthol lle cafodd cymuned y celfyddydau a'r cyhoedd gyfle i ddweud eu dweud. Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylid trafod ac ymgynghori ym maes y celfyddydau'n gyson ac yn rheolaidd. **Y gobaith yw y bydd y cyrff cyhoeddus a noddir ganddo'n parhau â'r cyd-drafod a ysgogwyd yn sgil yr adolygiad, fel rhan o broses barhaus o drafod diwylliannol byw ac angenrheidiol.**

1.10 Roedd yr adolygiad hwn yn amserol am sawl rheswm, ond yn anffodus fe'i cynhaliwyd mewn cyfnod anodd iawn i'r celfyddydau yng Nghymru. Soniodd sawl mudiad am y pwysau ariannol cyson arnynt a'r diffyg buddsoddi gwirioneddol yn y celfyddydau yng Nghymru dros sawl blwyddyn. Cyfeiriwyd at effaith ddifrifol hyn ar les, meddylfryd a chynhyrchiant llawer o'n hartistiaid,

ein sefydliadau a'n cynulleidfaoedd. Roedd Cyngor Celfyddydau Cymru - prif gorff ariannu'r celfyddydau proffesiynol a darpariaeth artistig yng Nghymru - yn wynebu pwysau hefyd; yn sgil y dadleuon ynghylch canlyniadau'r ymgynghori ar y Strategaeth Ddrama cyhoeddodd y Cyngor ei fod yn atal elfen Theatr i Bobl Ifanc y Strategaeth honno. Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cynulliad wedi hynny y byddai prosesau a strwythurau rheoli Cyngor Celfyddydau Cymru'n cael eu hadolygu.

1.11 Roedd llawer o gleientiaid Cyngor y Celfyddydau fel petaent wedi colli ffydd ynddo fel corff sy'n lledaenu polisïau'r llywodraeth ym maes y Celfyddydau; teimlent bod y Cyngor wedi colli golwg ar arferion ac anghenion y celfyddydau. Roeddent yn teimlo hefyd ei fod wedi colli ei awdurdod fel corff sy'n siarad dros y celfyddydau yng Nghymru, a bod ei rôl ddeublyg fel Dosbarthwr Loteri'r Celfyddydau wedi drysu ei genhadaeth ac wedi rhoi gormod o bwysau arno. Yr hyn oedd yn peri'r pryder mwyaf oedd bod amheuaeth ynghylch pa mor agored ac atebol yw'r Cyngor, a bu llawer o drafod ar hyn yn y Pwyllgor. Serch hynny, er bod strwythurau a phrosesau Cyngor Celfyddydau Cymru'n rhan amlwg o drafodaethau'r Pwyllgor, roedd yr adolygiad yn ehangach o lawer na hynny. Roedd y Pwyllgor yn ymwybodol bob amser o'i gylch gorchwyl ehangach mewn perthynas â darpariaeth y celfyddydau a diwylliant yng Nghymru. Aeth y Pwyllgor felly ati o'r cychwyn cyntaf i geisio diffinio'r celfyddydau a diwylliant yng Nghymru, y rôl y dylai cymorthdaliadau cyhoeddus ei chwarae mewn perthynas â'r sector hwn a rôl a chyfrifoldebau posibl y Cynulliad yn y dyfodol. Mae'r Pwyllgor felly wedi diffinio egwyddorion, dyheadau polisi ac argymhellion clir.

1.12 Dysgodd y Pwyllgor wersi pwysig yn ystod y broses ymgynghori. Ymhlith yr amlycaf o'r rhain roedd:

- **Bod mwy i'r celfyddydau yng Nghymru na dim ond Cyngor Celfyddydau Cymru.**
- **Bod partneriaeth yn holl bwysig er mwyn cyflawni amcanion y Pwyllgor.**
- **Nad yw'r celfyddydau a diwylliant yn gyfystyr, ond y defnyddir y naill yn aml i olygu'r llall, gan wneud drwg i'r ddau.**
- **Bod yn rhaid i'r celfyddydau fod yn rhan annatod o batrwm ansawdd bywyd ein cymunedau.**

## PENNOD 2

## DIWYLLIANT A’R CELFYDDYDAU YNG NGHYMRU

### Gwahaniaethu rhwng Diwylliant a’r Celfyddydau

2.1 Dechreuwn gyda diffiniadau a rhai sylwadau ar gwmpas gweithgarwch celfyddydol a diwylliannol. Daeth y Pwyllgor i’r casgliad mai diffiniad cyfannol o ddiwylliant yw’r unig un sy’n ddichonadwy. **Mae diwylliant ‘yn cynnwys yr holl nodweddion ysbrydol a materol, deallusol ac emosiynol penodol sydd yn nodweddu cymdeithas neu grwp.’**

2.2 Mae a wnelo diwylliant â hunaniaeth, hanes, amrywiaeth, addysg, traddodiadau, symbolau, iaith, arloesi a rhannu profiadau. Caiff ei lunio gan ein hanes cymdeithasol-economaidd, ein hamgylchedd naturiol a'n hamgylchedd adeiledig, ein credoau, gwerthoedd, estheteg ac ieithoedd. Mae'n ymwneud â gwyddoniaeth a thechnoleg – dyfeisgarwch a chreadigrwydd. Mae'n ymwneud â chyfathrebu – cyhoeddi, darlledu a chyfnewid gwybodaeth. Mae'n ymwneud â'n treftadaeth a'r hyn rydym yn dymuno ei gadw. Mae hefyd yn ymwneud â'r modd yr ydym yn creu gorwelion newydd a gweledigaeth newydd ar gyfer y dyfodol. Dyma'r broses sy'n caniatáu i ni gaffael a rhannu ein gwerthoedd mewn cymdeithas a dyma sut rydym yn eu rhannu ag eraill ac yn eu datgelu iddynt.

2.3 Rydym yn warchodwyr, yn greaduriaid ac yn greawdwyr ein diwylliant. Mae a wnelo diwylliant lawn cymaint â'r hyn allwn fod â'r hyn ydym ni. Felly, mae'n cynnwys amrediad eang o weithgareddau megis chwaraeon, treftadaeth, chwarae, hamdden, twristiaeth, iaith, bydoedd ein dychymyg, y diwydiannau creadigol a'r celfyddydau. Nid yw'n ddigon dweud bod diwylliant yn gyfystyr â'r celfyddydau; gall hyn arwain at ddehongliad cul o ddiwylliant a chreu rhwystrau i lunio cymdeithas greadigol ar gyfer y mwyafrif yn hytrach na'r lleiafrif.

**Celfyddyd a Menter Ddiwylliannol**

2.4 Fodd bynnag, mae'r celfyddydau'n rhan o hanfod diwylliant. Maent yn dathlu ac yn herio. Gallant fod yn gyfrwng hunan fynegiant, yn ffordd o adlewyrchu a mynegi delwedd, yn hardd ynddynt eu hunain – yn ysbrydoliaeth ac yn addysg. Weithau, byddant yn adlewyrchu safbwynt cryf – barn y breintiedig neu'r detholedig efallai. Yna, mae corff o waith artistig a deallusol – ynghyd â'r sefydliadau sy'n ei gynhyrchu, ei ddosbarthu a'i reoleiddio – yn gosod rhwystrau na all neb ond yr hyddysg, y diwylliedig, yr élite eu goresgyn*.* Pan fydd y rhwystrau yn rhai negyddol, ac yn golygu mai dim ond lleiafrif sy'n gallu rhagori, maent yn agored i'w herio. Dylai celfyddydau o werth gwirioneddol fod ar gael ac yn agored i bawb. Fodd bynnag, gall fod ystyr gadarnhaol a phendant i syniadau ynghylch diwylliant a'r celfyddydau –y dylent ymwneud â'r gorau y gall cymdeithas ei gynnig, beth bynnag fo'r gelfyddyd neu'r dull. Nid oes raid i ragoriaeth artistig a diwylliannol – cyflawni'r ansawdd a'r safonau uchaf – gau drysau.

2.5 Yn aml, mae hanes cymdeithasol-economaidd, rhyw, hil, hunaniaeth a braint yn peri'r math o greadigrwydd y derbynnir ei fod yn gelfyddyd. Ond ar adegau arwyddocaol – fel arfer y rhai hynny lle ceir newid technolegol, gwleidyddol neu economaidd – gall canfyddiadau newid gryn dipyn. Mae newidiadau o'r fath ar waith yng Nghymru. Mae'n rhaid i ni ymateb i her y 21ain Ganrif mewn modd dychmygus, arloesol a chynhwysol. Mae'n rhaid cydnabod arwyddocâd diwylliant a'r celfyddydau fel grym pwerus wrth fynd ati i adfywio ein cymunedau; adfer ymdeimlad o hunaniaeth; cynnal addewid y cenedlaethau sydd i ddod; a hybu datblygiad cymdeithasol ac economaidd Cymru gyfan.

2.6 Mae hefyd yn amlwg bod pob newid technolegol, yn hanesyddol, yn ysgogi ffurfiau artistig newydd, mwy amrywiol a gwahanol yn ogystal â dulliau ehangach o gyfathrebu.  Erbyn hyn, ategir ffurfiau diffiniol diwedd yr 19eg Ganrif – y nofel naturiolaidd, realaeth, cynrychiolaeth ffotograffaidd, mynegiadaeth a'r symffoni lorweddol raddol – gan or-destun, yr e-lyfr, ffilmiau, rhith-realaeth, gemau fideo, cerddoriaeth systemau, a gosodwaith celf a roc, er enghraifft.  Mae diwylliannau o'r tu allan i Ewrop wedi dechrau treiddio i draddodiad y Gorllewin yn fwy nag erioed o'r blaen.  Aethpwyd ati i sicrhau bod y lleisiau llai amlwg neu'r diwylliannau lleiafrifol yn agored i bawb, a dechreuwyd mynd i'r afael â'r anghydbwysedd rhwng dynion a menywod a'r gynrychiolaeth ethnig anghytbwys - er mwyn iddynt fod yn rhan o'r diffiniad o ddiwylliant cytûn, ac o fynegiant artistig y diwylliant hwnnw.  Wedi dweud hynny, mae angen gwneud llawer mwy i sicrhau bod llwyfannau mynegiant creadigol ar gael yn rhwyddach i'r sawl sydd o dan anfantais economaidd; pobl anabl; lleisiau ac ieithoedd lleiafrifol; ac er budd cydbwysedd rhwng dynion a menywod ac amrywiaeth ethnig.

**Continwwm y Celfyddydau - a Sbectrwm y Celfyddydau**

2.7 Mae'r celfyddydau yn ffurfio continwwm o fynegiant ac arferion cymdeithasol.  Mae hyn yn cynnwys yr ifanc a'r hen ; y proffesiynol a'r amatur; y cyfranogol a'r cyflwyniadol; y cadwraethol a'r arloesol; y myfyrgar a'r eang ei orwelion; y cynhenid a'r allanol; y traddodiadol a'r cyfoes; y pur a'r hybrid; y crefftwr a'r artist; celfyddyd 'aruchel' a'r celfyddydau poblogaidd; a'r corfforol a'r rhithiol.  Yn wir, nid yw'r termau hyn yn wrthgyferbyniol nac yn annibynnol ar ei gilydd.  Mae'r celfyddydau'n digwydd mewn continwwm deinamig, nid un llonydd.  Maent yn rhan annatod o gyfathrach gymdeithasol.

2.8 Mae sbectrwm rhychwant ac amrediad y celfyddydau'n un eang.  Er enghraifft mae'n cynnwys:

- **Y Celfyddydau Gweledol** – celfyddyd gyhoeddus; pensaernïaeth; ffotograffiaeth; delweddau symudol; ffilm; paentio; cerfluniaeth; arlunio; animeiddio; fideo; cynllunio rhyngweithiol; gosodwaith celf; i-gynllunio.

- **Y Celfyddydau Llenyddol** – barddoniaeth; nofelau; ffuglen plant; e-lyfrau; gwaith ffeithiol; ffuglen; cofiannau; ffuglen wyddonol; traethodau.

- **Cerddoriaeth** – roc; rap; jyngl; tecno; jazz; clasurol cyfoes; bydol; gwerin; traddodiadol; bandiau pres; cynnar; poblogaidd; gwlad; clasurol; electronaidd; ar-lein; ac wedi'i samplo.

- **Perfformio** – theatr gorfforol; theatr destunnol; darllen barddoniaeth; theatr boulevard; theatr gymunedol; canu cymunedol; theatr mewn addysg; pregethu; adrodd; dawns (traddodiadol; cyfoes; jazz; disgo; dawnsio neuadd; a dawnsio llinell); sioeau cerdd; theatr gerddorol; opera; areithiau gwleidyddol.

- **Crefftau** – crochenwaith; serameg; llieiniau; crefft llaw; dodrefn; paentio artisan; ffotograffiaeth; gemwaith; gwaith metel; argraffu.

- **Cynllunio** – tecstiliau; hysbysebu; couture; cynllunio ffasiwn; creu ffabrig; hysbysebu; celfyddyd y corff; graffeg.

- **Y Celfyddydau Digidol** – delweddau 3D; creu meddalwedd; gemau; graffeg cyfrifiadurol; celfyddyd y we; celfyddyd ar-lein; rhyngweithiol.

2.9 Nid rhestr gyflawn (na hierarchaidd) mo hon. Mae'n sicr o dyfu a newid mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu newidiadau mewn diddordebau a gwerthfawrogiad a fydd ynddynt eu hunain yn adlewyrchu datblygiad yng nghymhlethdod ein cymdeithas a'r ymatebion artsitig cysylltiedig. Serch hynny, mae'r celfyddydau yng Nghymru'n egnïol lluosog ar ddechrau'r 21ain Ganrif. Mae hyn yn deyrnged i fywyd artistig a diwylliannol iach y wlad, ac i ymdrechion amrediad eang o bobl a sefydliadau sy'n ei gynnal. Mae'r ffaith fod gan Gymru – gwlad weddol fach – artistiaid arwyddocaol, talentog a chydnabyddedig yn y rhan fwyaf o'r meysydd hyn yn gaffaeliad hynod o fawr – ac yn un y dylid ei warchod.

**Yr Artist**

2.10 Weithiau caiff artistiaid eu gwerthfawrogi am eu bod yn adlewyrchu cymdeithas - gan roi cyfle iddi edrych arni hi ei hun – a chaniatáu iddi ei hadnabod ei hun a derbyn y ffordd y mae eraill yn ei gweld. Weithiau bydd yr artist yn dathlu diwylliant mewn modd gweledol, llafar, corfforol neu fel arall. Weithiau mae'r artist yn beirniadu – yn wrthbwynt i gonsensws hunanfodlon. Weithiau mae'r artist yn ymhelaethu ac yn datgelu'r hyn sy'n rhyfeddol, yn gudd neu'n cael ei anwybyddu. Mae'r artist yn ymwneud â'r symbolaidd a'r real – a hynny yn aml ar yr un pryd. Mae'r artist yn cynnal deialog gyda'r gymdeithas y mae ef neu hi'n byw ynddi. Mae angen artistiaid ar ein cymdeithas er lles ei hiechyd, ei haddysg, ei lles a'i chyfoeth.

2.11 Mae gennym artistiaid proffesiynol, artistiaid sy'n ymarfer eu crefft, yn ogystal â phobl sy'n cymryd rhan mewn celfyddyd ac yn ei chreu heb dderbyn tâl am hynny. Gall pob un ohonynt wneud cyfraniadau gwerthfawr o fewn continwwm y celfyddydau. Mae'n wir y gall fod yn fwyfwy anodd i'r artist aros mewn gwaith o hyd mewn byd lle mae gwerthoedd artistig yn newid. Cyhyd ag y bo modd felly, mae'n bwysig meithrin yr artist unigol er mwyn ysgogi gweithgareddau newydd arloesol sy'n torri tir newydd ledled y sbectrwm. Mae gan Gymru draddodiad cryf o gefnogi artistiaid unigol, trwy fuddsoddi mewn gwaith sy'n adlewyrchu gwreiddioldeb ac amrywiaeth bywyd diwylliannol Cymru. Mae ei thirwedd gyfoethog ac artistig yn brawf o'r buddsoddiad hwnnw. Ein hartistiaid yw'n llysgenhadon diwylliannol mwyaf amlwg ar adegau.

**Yr Isadeiledd**

2.12 Mae'r lleoedd a'r gwagleoedd sy'n sicrhau bod y celfyddydau ar gael yn rhwydd yn bwysig iawn ynddynt eu hunain.  Mae'r lleoliadau hyn yn creu cysylltiad rhwng yr ymarferwyr a'u cynulleidfaoedd.  Maent yn fan cyfarfod i'r proffesiynol, yr amatur a'r gwirfoddol.  Maent yn darparu gwybodaeth, symbyliad ac adloniant.  Gallant gynnig gwaith sy'n adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau y maent yn bodoli ynddynt.  Gallant ddarparu lleoliadau ar gyfer hybu dealltwriaeth y cyhoedd o ffurfiau celfyddyd a meithrin ffurfiau newydd ar gydweithio.  Maent yn hanfodol hefyd o ran cyflwyno gwaith cyffrous o weddill Prydain a thramor.

2.13 Mae lle y mae'r artist yn creu'n dylanwadu ar waith yr artist, a cheir cysylltiad felly â thirweddau diwylliannol ehangach fyth.  Mae hynny'n ymestyn i gyd-berthynas rhwng busnes a masnach – gan gynnwys arloesi mewn cynllunio, marchnata a phecynnu.  Mae'n cyffwrdd â bywyd y meddwl mewn addysg uwch ac addysg bellach, a dysgu.  Mae'n ymwneud â'r amgylchedd naturiol ac adeiledig.  Mae amryw byd o adeiladau eithriadol, safleoedd treftadaeth, a thirluniau godidog sy'n rhan hanfodol o'n profiad diwylliannol yng Nghymru.

2.14 Mae'r rhain hefyd yn gaffaeliad arythrol.  Maent yn cynnwys gerddi prydferth iawn, tai gwledig, a lleoedd o arwyddocâd cenedlaethol a rhyngwladol sy'n gysylltiedig â'n gorffennol diwydiannol.  Dylid eu hystyried ochr yn ochr â'n canolfannau botaneg, gwyddonol, technolegol a chelfyddydol.  Mae amgueddfeydd, orielau a llyfrgelloedd yn rhan annatod o'n hunaniaeth ddiwylliannol.  Dylid ystyried addoldai, festrïoedd capeli, neuaddau trefi a phentrefi, ysgolion, canolfannau chwaraeon, tafarnau a chlybiau fel lleoliadau ar gyfer gwaith artistig hefyd.  Yn aml gallant fod yn ddefnyddiol o ran cyrraedd y sawl na fyddai fel arall yn croesi trothwy canolfannau celfyddydol ffurfiol penodedig – pobl na fyddai efallai yn ystyried eu bod yn rhan o weithgareddau artistig neu ddiwylliannol.  O'u defnyddio fel hyn, dylid cydnabod bod y lleoedd hyn yn rhan o'r dirwedd ddiwylliannol gyfoethog honno.  Dylai canolfannau celfyddydol ffurfiol eu hystyried eu hunain yn rhan o'r rhwydwaith anffurfiol hwnnw – a'u hystyried eu hunain fel adnodd ar ei gyfer. Mae angen ffurfio cysylltiadau gwell rhwng lleoliadau ffurfiol ac anffurfiol er mwyn cryfhau'r iasdeiledd hwn.

## PENNOD 3

## POLISÏAU A BLAENORIAETHAU AR GYFER Y CELFYDDYDAU A DIWYLLIANT YNG NGHYMRU

### 3.1 Yr Egwyddorion wrth wraidd y Polisi yng Nghymru

- Mae'r Pwyllgor yn cydnabod pwysigrwydd y celfyddydau a diwylliant a'u harwyddocâd i gymdeithas yng nghyd-destun dogfen weledigaeth y Cynulliad Cenedlaethol: Gwell Cymru.

- Mae'r celfyddydau a diwylliant yn gwella ansawdd bywyd unigolion a chymunedau; ac yn hyrwyddo cydlyniad cymdeithasol a dinasyddiaeth weithredol. Maent hefyd yn dod â manteision economaidd i Gymru ac yn elfen allweddol o gymdeithas sy'n dysgu. Maent yn cydnabod ac yn datblygu ymdeimlad o draddodiad a gwarchod y gorffennol ar gyfer y dyfodol; maent yn diffinio hunaniaeth ac yn ymfalchïo mewn Cymru gyfoes, amrywiol, dwyieithog ac aml-ddiwylliannol, ar y llwyfan cenedlaethol a'r rhyngwladol.

- Mae'r Pwyllgor yn cydnabod rôl bwysig y celfyddydau a diwylliant o ran hyrwyddo lles ac iechyd y corff a'r meddwl.

- Cred y Pwyllgor bod angen buddsoddi mwy yn y celfyddydau a diwylliant er mwyn cael y manteision a nodir uchod; ac y mae hefyd o'r farn y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol bennu'r agenda gyda pholisi clir ar gyfer y celfyddydau a diwylliant a'i gwneud yn ofynnol i'w asiantaethau a'i gyrff noddedig gyflawni eu hamcanion polisi. Dylid disgwyl i'r asiantaethau a'r cyrff noddedig hynny weithio mewn partneriaeth â'i gilydd, a chydag eraill, er budd gweithredol y naill a'r llall, a gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau, er mwyn gwireddu polisïau a blaenoriaethau'r Cynulliad.

- Rhaid i Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad sy'n gyfrifol am roi ei Bolisi ar gyfer y celfyddydau a diwylliant ar waith wneud eu gwaith yn agored, yn atebol ac yn glir. Dylai'r cyrff hyn ddefnyddio manteision y technolegau newydd i hysbysu'r cyhoedd o'u strategaethau, eu mentrau a'u penderfyniadau; cyfathrebu ac ymgynghori'n drwyadl ac yn adeiladol - a lle bo'n briodol, gwneud hynny drwy gyfrwng fforymau rhanbarthol; a bod yn atebol i archwiliadau blynyddol drwy gyfrwng y Pwyllgor priodol yn y Cynulliad Cenedlaethol.

- Dylai polisi'r celfyddydau a diwylliant fynd ati yn anad dim i godi safonau a disgwyliadau ar bob lefel; ymdrechu i sicrhau rhagoriaeth, ond gan gydnabod na ddylai rhagoriaeth fod yn gyfystyr ag elitiaeth.

- Dylid ategu polisi'r celfyddydau a diwylliant gydag ymrwymiad i ddatblygu dwyieithrwydd ledled y wlad.

- Dylid ei gwneud yn ofynnol i holl gyrff y celfyddydau a diwylliant a ariennir yn gyhoeddus ddangos sut y byddant yn cyfrannu at greu Cymru gryfach drwy hybu arbenigrwydd ac amrywiaeth - mewn gwaith, arferion a chyflwyniad.

**Y Cyd-destun**

3.2 Fel y dywedwyd eisoes, ymgynghorwyd yn eang ar yr adolygiad o'r celfyddydau a diwylliant yng Nghymru. Er gwaethaf ambell fwlch yn yr hyn a drafodwyd, yr oedd yn ddigon i'r Pwyllgor ddod i'r casgliad bod angen cyd-drefnu'r ffordd y caiff cyllid cyhoeddus ei ddarparu drwy bolisi cyffredinol. Yn y bôn, credwn y dylai blaenoriaethau polisi'r celfyddydau a diwylliant fod fel a ganlyn:

- **pobl ifanc**, a'r cyfleoedd a roddir iddynt drwy gyfrwng addysg a hyfforddiant
- **cymunedau**, a'r cyfleoedd a roddir iddynt, yn arbennig drwy gyfrwng adfywio cymdeithasol
- **amrywiaeth ddiwylliannol** a'r cyfleoedd ar gyfer ei meithrin a pheri iddi dyfu

- **diwydiannau creadigol** a'r cyfleoedd er mwyn iddynt allu tyfu
- **safonau** a'r cyfleoedd a roddir er mwyn cyrraedd y safonau uchaf ar bob lefel.

3.3 Yr ydym yn cydnabod mai dim ond ran o'r ffordd y gall derbyn gwerth a phwysigrwydd y celfyddydau a diwylliant a meddu ar ddealltwriaeth fras ohonynt fynd â ni.  O safbwynt cyllido cyrff yn gyhoeddus yn y sector diwylliannol a chelfyddydol, mae'n bwysig disgrifio cyfeiriad clir.  Felly un o ddibenion allweddol yr adolygiad hwn oedd rhoi cyngor i'r Cynulliad ynghylch y cyfeiriad hwnnw.  Yr oedd hefyd yn ymwneud â pha bolisïau y dylid eu datblygu, a pha flaenoriaethau y dylid eu pennu ar gyfer y ffordd ymlaen. Mae'r hyn a ganlyn yn disgrifio casgliadau'r Pwyllgor fel y gellir llywio ymdrechion yr holl brif gyfranwyr tuag at ddatblygu 'Diwylliant Cytûn'.

3.4 Credwn ei bod yn bwysig ymwrthod yn llwyr ag unrhyw syniad na ddylid gwahaniaethu rhwng y celfyddydau yng Nghymru a gwaith Cyngor y Celfyddydau ei hun ac y dylai'r Cynulliad gadw pellter wrth ymdrin â'r holl gyrff diwylliannol perthnasol a noddir.  Yr oedd llawer o'r ymatebion i'n hadolygiad yn datgan yn glir nad yw'r syniadau hyn yn ddichonol ar gyfer y dyfodol.  Yr oedd pobl am weld newidiadau sylfaenol i gydnabod:

- **y gallai'r Cynulliad fod yn gyfrifol am bennu polisïau a blaenoriaethau cyffredinol ar gyfer cyllido, neu y dylai fod yn gyfrifol am hynny**
- **mai swyddogaeth y Cynulliad yw arwain y ffordd o safbwynt codi proffil y celfyddydau a diwylliant yng Nghymru gartref a thramor**
- **bod angen cynnwys ystod eang o gyrff a noddir yn gyhoeddus yn y broses o ddarparu mewn modd agored a chlir.**

3.5 Cytunwn â hyn.  Rydym yn cytuno'n arbennig y dylid pennu gwahaniaeth clir rhwng rôl y Cynulliad Cenedlaethol a rôl y cyrff a noddir ac sy'n derbyn arian cyhoeddus ac na ddylid disgwyl i gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad fod yn gyfrifol am lenwi bwlch mewn polisi cyffredinol yn ogystal â barnu'r ddarpariaeth, a phennu materion cyllido gweithredol.  **Ni ddylai unrhyw gorff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad fod ag unrhyw amheuaeth ynghylch gofynion cyffredinol y Cynulliad ynghylch polisïau a blaenoriaethau ac ni ddylid gadael iddynt wynebu'r grwpiau lobïo sy'n cystadlu, heb bolisi cyffredinol i ganiatáu iddynt ymdrin â'r grwpiau hynny'n briodol ac yn effeithiol.**

3.6 Rydym hefyd yn argymell y dylid seilio prif bolisïau'r Cynulliad Cenedlaethol ar wireddu'r canlynol:

- **cyfoeth o ddiwylliant er mwyn cryfhau ein cymunedau;**
- **amrywiaeth hyderus - gan fanteisio ar ein hunaniaeth a'n harbenigrwydd cadarnhaol;**
- **gwlad sy'n dysgu ac a gefnogir gan weithgarwch celfyddydol a diwylliannol byw;**
- **diwydiant blaengar, a diwylliant creadigol;**
- **uchelgais genedlaethol, a dylanwad rhyngwladol**

## ***DIWYLLIANT CYFOETHOG - CYMUNEDAU CRYF***

3.7 Yn sgil yr ymgynghori amlygwyd rôl allweddol y celfyddydau a diwylliant o safbwynt dod â phobl ynghyd, hybu hunan-barch unigolion, ac ailfywiogi ac adfywio cymunedau.  Mae celfyddydau cymunedol a gwirfoddol yn hanfodol ar gyfer datblygu cymunedol.  Gallant roi i bobl sy'n cael eu heithrio a'u tanbrisio mewn cymdeithas sgiliau a hyder y mae eu hangen yn ddirfawr arnynt - a'r gallu i drosglwyddo'r hyn a ddysgir i'r gweithle, er enghraifft, drwy ddarganfod a defnyddio doniau i wneud pethau megis trefnu gig, helpu gyda goleuo, a thrwsio a gofalu am offerynnau.  Mae'r rhain oll yn cynnwys sgiliau trosglwyddadwy pwysig; a'r rheiny'n sgiliau y dylid eu gwerthfawrogi a'u datblygu.

3.8 Mae gan weithgareddau diwylliannol rym anhygoel i uno pobl o bob cenhedlaeth ac o bob rhan o gymdeithas. Gall cymryd rhan yn y celfyddydau arwain at gydweithio sy'n rhoi boddhad ar draws y cenedlaethau, mewn corau, dawnsio gwerin, bandiau pres, perfformiadau theatr a dosbarthiadau celf ac ati. Dyma sy'n nodweddu cymdeithas agored a goddefol. Gweithgarwch ar lawr gwlad yw man cychwyn diwylliant iach, sy'n meithrin doniau ac yn uno cymunedau.

3.9 Mae'r Pwyllgor wedi gweld o lygad y ffynnon swyddogaeth bwysig y celfyddydau mewn adfywio cymdeithasol. Gall y celfyddydau fod yn rhan hanfodol o raglenni adfywio; mae Menter *Valleys Kids* a'r gwaith a wneir yng Nghanolfan Rhys yn ddwy enghraifft dda o hyn. Clywodd y Pwyllgor hefyd sut y mae cymuned yn y Rhondda yn elwa ar fod yn lleoliad cynhyrchu rhaglen HTV "Nuts and Bolts".

3.10 Gwneir llawer o waith gofalus a rhagorol yn y celfyddydau ar sail gymunedol, gwirfoddol ac amatur. Yn wir, bu'r Pwyllgor yn ystyried yn ofalus y cynigion a geir yn adroddiad y Joseph Rowntree Foundation sef "Arts and Regeneration".

3.11 Daeth y Pwyllgor i'r **casgliad**:-

- Bod cryn botensial i gelfyddyd gymunedol o safbwynt adfywio

- Y dylid ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Celfyddydau Cymru a chyrff diwylliannol eraill a noddir gan y Cynulliad gysylltu eu cynlluniau strategol eu hunain â chefnogi cynlluniau adfywio cymunedol - ac y dylai **gweithgarwch diwylliannol fel yn elfen hanfodol o raglenni adfywio**, ac yn bartner naturiol i dai, iechyd, addysg a chyflogaeth.  I gefnogi'r fenter hon:-

    - Dylid annog rhaglenni **Rhoi Cymunedau'n Gyntaf** i gynnwys prosiectau celfyddydol a diwylliannol; dylid gofyn i gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad ym maes y celfyddydau a diwylliant lunio'u gweithgarwch datblygu cymunedol er mwyn cynorthwyo rhaglen

newydd 'Rhoi Cymunedau'n Gyntaf' yn uniongyrchol.

- Lle bo'n bosibl, dylai rhaglenni adfywio - boed y rheiny wedi'u hariannu drwy Amcan 1, Cronfeydd Strwythurol Ewrop, Awdurdod Datblygu Cymru neu drwy ddull arall - gynnwys **o leiaf un elfen ddiwylliannol** gan gyfeirio at ganlyniadau meintiol ac ansoddol, wedi'u diffinio ymlaen llaw.

- Dylai cyrff cyhoeddus perthnasol a noddir gan y Cynulliad ddatblygu **cynllun hyfforddi a datblygu pwrpasol** drwy ymgynghori â chyrff gwirfoddol a chymunedol ym myd y celfyddydau ledled Cymru i sicrhau gwelliant parhaus ym maes rheoli busnes, marchnata a defnyddio technoleg newydd - fel bod cyfathrebu electronig yn datblygu'n norm ar gyfer cyd-gysylltu rhwng prosiectau, gyda'r sawl sy'n eu hariannu, a chyda'r cymunedau ehangach.

- Dylid rhoi **blaenoriaeth** i ymyriadau sydd o safon uchel ac sy'n meithrin gallu mewn cymunedau lle ceir lefelau isel o weithgarwch yn y celfyddydau cymunedol o safbwynt cyllid a chymorth gan bob corff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad.

- Rhaid i Gyngor y Celfyddydau a phob corff cyhoeddus diwylliannol yng Nghymru a noddir gan y Cynulliad gydnabod rôl **awdurdodau lleol** fel partner wrth gynorthwyo celfyddyd gymunedol er budd yr economi leol ac mewn cynlluniau adfywio.

- Dylid annog **cyrff ambarél** sy'n cynorthwyo'r celfyddydau gwirfoddol a chymunedol i ddod o hyd i ddoniau newydd, a'u dwyn i sylw'r cyhoedd; dylai asiantaethau statudol roi mwy o gydnabyddiaeth i'r cyrff ambarél hyn.

- Dylid gwahodd Ysgrifennydd y Cynulliad i ymgynghori ag Addysg Uwch Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ynghylch sefydlu **Cadair Celfyddyd Gymunedol** mewn Sefydliad Addysg Uwch yng Nghymru.

- Mae nifer a chwmpas daearyddol mentrau celfyddyd gymunedol yng Nghymru dan nawdd Cyngor y Celfyddydau wedi gwella'n arwyddocaol ers bodolaeth y loteri. Er hynny, dylid gwneud pob ymdrech i helpu cyrff i wneud y gwaith papur perthnasol - nid yn unig ar gyfer y loteri, ond hefyd ar gyfer cyllid Ewropeaidd. **Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Cyngor y Celfyddydau gydweithio â chyrff cyhoeddus eraill a noddir gan y Cynulliad i edrych ar ffyrdd o roi mwy o gymorth a hyfforddiant i gelfyddyd gymunedol a grwpiau ambarél cysylltiol i ganiatáu iddynt ymdopi â'r broses o wneud cais a'r drefn gyllido. Mae'r Pwyllgor hefyd yn argymell y dylid adolygu'r systemau presennol er mwyn sicrhau eu bod yn fwy syml a chyson.**

- Gellid rhoi hwb i greadigrwydd artistig ar lawr gwlad drwy i awdurdodau lleol annog pobl yn y celfyddydau proffesiynol i fod yn hwyluswyr, neu'n **ysgogwyr**, o fewn y gymuned.

3.12 Nid yw bywyd celfyddydol a diwylliannol cymuned yn bodoli mewn gwagle, ac ni all wneud hynny. Fel y dywedwyd eisoes, mae lle y mae gweithgarwch celfyddydol yn digwydd, lle bo'r celfyddydau ar gael yn rhwydd, yn eithriadol o bwysig hefyd. Gallant wneud cyfraniad sylweddol i gydlyniad cymunedau lleol. Nid oes un patrwm ar gyfer y lleoedd hyn. Mae yna swyddogaeth ddifrifol i ganolfannau celfyddydol a chymunedol aml-bwrpas - ac mae nifer y rheiny yng Nghymru ar gynnydd. Mae rhai ohonynt wedi derbyn arian loteri Cyngor y Celfyddydau. Mae canolfannau newydd wedi'u hadeiladu yng Nghasnewydd, Caerdydd a Chaernarfon. Gwnaed gwaith adnewyddu diddorol yn Aberystwyth, ac mae lle i groesawu'r gwaith o wella canolfannau celfyddydol ledled y wlad.

3.13 Serch hynny, mae'r lleoliadau hyn yn wynebu sawl her hefyd. O'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn ystod ei adolygiad, yr oedd yn glir bod angen archwilio ymhellach gynhyrchiant a phatrwm y llwyfannau celfyddyd hyn yn y dyfodol. I ddechrau bu tuedd iddynt fod yn brin o adnoddau, gan ddibynnu ar ewyllys da cymunedau ac unigolion ymroddedig. Gwelodd y Pwyllgor o lygad y ffynnon fywiogrwydd y canolfannau hyn, a chafodd hyn argraff fawr iawn ar yr aelodau. **Ond cred ei bod yn bryd bellach asesu eu cwmpas artistig a'u sefydlogrwydd ariannol i sicrhau bod y cyllid sydd ar gael yn cael ei ddefnyddio'n dda, a bod partneriaethau strategol cryfach yn cael eu sefydlu i sicrhau bod y lleoliadau hyn yn parhau i ffynnu**. Bydd angen ystyried eu dosbarthiad daearyddol a'u dylanwad, yn arbennig ar gyfer ein cymunedau gwledig. Bydd hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau y gellir cynnig iddynt isadeiledd cadarn o ran adnoddau a sgiliau a'u bod yn rhoi gwasanaeth da i'w cymunedau.

**3.14 Mae’r Pwyllgor felly'n argymell**:-

- Y dylid gwahodd Ysgrifennydd y Cynulliad i'w gwneud yn ofynnol i Gyngor y Celfyddydau **adolygu patrwm y ddarpariaeth**, gan gynnwys y cwmpas daearyddol a'r dylanwad, a chydbwysedd buddsoddi priodol ar gyfer y canolfannau hyn hyd at 2005.

- Yn unol ag un o brif egwyddorion y Pwyllgor ar dudalen 14, argymhellwn yn gryf y dylid ystyried mynd ati i sicrhau bod pob canolfan gelfyddydol sy'n derbyn arian cyhoeddus yn ganolfan ddi-fwg. Gwahoddwn Ysgrifennydd y Cynulliad, ar y cyd â'r cyrff cyhoeddus perthnasol a noddir gan y Cynulliad, i edrych ar ba mor ymarferol fyddai hyn.

- Dylid gwahodd Ysgrifennydd y Cynulliad i beri i Gyngor Amgueddfeydd Cymru, Cyngor Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth Cymru, Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru, a Llyfrgell Genedlaethol Cymru gydweithio â rhwydwaith y canolfannau celfyddydol lleol ac awdurdodau lleol i **gyflwyno trysorau cenedlaethol a lleol yn fwy byw i gymunedau lleol**. Mae'n hanfodol bod canolfannau celfyddydau un-

pwrpas ffurfiol yn cael eu hintegreiddio i ystod ehangach o gyfleusterau lleol anffurfiol ac felly'n cael eu gweld fel adnoddau ar eu cyfer - yn yr un modd ag y gwelir cwmnïau, cyrff a sefydliadau cenedlaethol fel adnoddau ar gyfer y genedl gyfan.

## ***AMRYWIAETH HYDERUS - ARBENIGRWYDD CADARNHAOL***

3.15 Yn sgil sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol, mae Cymru'n mentro i gyfnod newydd yn ei hanes sy'n llawn her, a hynny nid yn unig o safbwynt y ffordd y caiff Cymru ei llywodraethu ond hefyd o safbwynt ymateb diwylliannol i hunaniaeth arbennig Cymru.

3.16 Beth felly yw'r elfennau sy'n arbennig yn niwylliant Cymru? Yn gyntaf, yr amrywiaeth helaeth sy'n tarddu o hanes cymdeithasol-economaidd, gwleidyddol a democrataidd cymhleth ein gwlad - hanes a waddolodd i ni gymysgedd ddiwylliannol nad yw'n bodoli yn unman arall. Yn ail, y ffenomenau diwylliannol sy'n benodol i Gymru, na all neb ond nyni eu cyfrannu i dreftadaeth teulu dyn, ac sydd yn rhinwedd eu hunigrywedd yn haeddu sylw arbennig.

3.17 Yn eu mysg, rhaid i'r iaith Gymraeg fod yn dra amlwg. Drwyddi hi, yr iaith o'r teulu Celtaidd y mae'r gobaith cryfaf am ei hadfywio, y mynegwyd grym mawr ein profiad diwylliannol tan i "shifft iaith" y ddwy ganrif ddiwethaf ein goddiweddyd. Parodd ffactorau gwleidyddol ac economaidd cymhleth a phwerus i ddiwylliant Cymraeg gael ei israddio, ei gyfyngu, ie ei bardduo a'i sentimentaleiddio. Ac eto dangosodd ddycnwch a bywiogrwydd hynod a chafwyd (i roi un enghraifft yn unig) dadeni llenyddol rhyfeddol yr ugeinfed ganrif.

3.18 Byddai tranc y Gymraeg yn golled anfesuradwy i gyfoeth diwylliannol a hunaniaeth ein cenedl. Byddai ei hadfywio yn cyfoethogi ein bywyd diwylliannol fel y mae adfywiad diwylliannol yn hanfodol er mwyn rhoi bywyd newydd yn yr iaith.

3.19 Fodd bynnag, rhaid cydnabod hefyd realiti grymus a chreadigol y Saesneg fel un o ddwy brif iaith Cymru. Yng nghrochan diwydiannaeth, mowldiwyd ffurfiau Cymraeg ar y Saesneg sy'n hynod o ran bywiogrwydd a chryfder. Fe'u ceir yn amlwg mewn llenyddiaeth Eingl-Gymreig. Ac eto fe'u canfuwyd hwythau fel pe'n israddol, yn briodol i'w gollwng wrth ddringo ysgol llwyddiant. Mae'n bryd i "Saesneg Cymru" gymryd ei le fel cod uchelfri, ac mae gan bolisi diwylliannol rôl allweddol wrth gyflawni hyn.

3.20 Nid un dafodiaith mo Saesneg Cymru debyg iawn. A beth bynnag siaredir Saesneg yn ei holl ffurfiau yng Nghymru, gan gynnwys er enghraifft Saesneg "safonol" neu gocni ymfudwyr i'n cefn gwlad, tafodiaith "down belows" Sir Benfro, amrywiadau lliwgar arfordir y Gogledd a seiniau mwynach gororau Powys a Lloegr. Maen nhw i gyd yn rhan o bair dadeni Cymru'r unfed ganrif ar hugain.

3.21 Ond nid dyna'r cyfan o bell ffordd. Nid peth newydd yw presenoldeb cymunedau o Affrica, y Caribî a gwledydd Asia yng Nghymru; mae'n bresenoldeb sydd ar gynnydd. Yr hyn sydd i'w groesawu'n gynnes iawn yw awydd y cymunedau hynny, yn enwedig yng nghyd-destun datganoli, i fod yn rhan fywiog o'n Cymru newydd, sy'n newid o hyd. Drwy hyn, daw gwead ein bywyd diwylliannol gymaint â hynny'n fwy amryliw a chyfoethog.

3.22 Mae yna gyfle cyffrous, drwy bolisi diwylliant, i ni roi sylwedd i'r syniad o weriniaeth Gymreig wedi ei seilio ar amrywiaeth. Dyma sut y gellir gwneud ymdeimlad cryf o hunaniaeth yn gydnaws â goddefgarwch, nage, gwerthfawrogiad o'r dieithr a'r gwahanol. A gallai Cymru felly ymgyrraedd at fod yn esiampl i genhedloedd a rhanbarthau eraill.

3.23 Er mwyn ysgogi a chadw'r elfen bwysig hon o amrywiaeth Cymru, **cred y Pwyllgor y gellid hyrwyddo dwyieithrwydd ymhellach fel a ganlyn:**

- dylai cyrff diwylliannol sy'n derbyn arian cyhoeddus **wneud datganiad**, fel rhan o'u cais am grant, **ynghylch y ffordd y maent yn bwriadu hyrwyddo'r iaith Gymraeg**.

- mae angen i'r cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad ac awdurdodau lleol gynnig **darpariaeth gelfyddydol gytbwys, yn lleol ac yn genedlaethol, drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg**; a gallent ddechrau drwy gynnal astudiaeth sylfaenol o'r ddarpariaeth bresennol.

- **datblygu partneriaethau rhwng cynlluniau iaith lleol megis mentrau iaith**, a chyrff eraill sy'n hyrwyddo'r celfyddydau yn genedlaethol ac yn lleol. Yn y lle cyntaf awgrymwn mai'r cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad ddylai wneud hyn gyda Phwyllgorau Rhanbarthol Cyngor y Celfyddydau'n cyd-drefnu datblygiad y partneriaethau hyn yn eu meysydd perthnasol.

**Cyfle Cyfartal**

3.24 Mae Deddf Llywodraeth Cymru'n ei gwneud yn ddyletswydd statudol ar y Cynulliad i ystyried egwyddor cyfle cyfartal wrth arfer ei swyddogaethau a chynnal ei fusnes. Nid ydym wedi ein hargyhoeddi fod y cyrff statudol ac anstatudol ym maes y celfyddydau a diwylliant sy’n cael eu cyllido ag arian cyhoeddus yn dangos digon o egni na dychymyg yn hyn o beth. Rydym yn disgwyl yn arbennig i Gyngor y Celfyddydau weithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru, Cyngor yr Amgueddfeydd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a'r Cyngor Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth i adolygu eu polisïau a'u cynlluniau presennol o blaid cyfle cyfartal, a hybu perfformiad y cyrff gwirfoddol a'r cyrff eraill a ariennir ganddynt.

3.25 **Yr ydym yn argymell:**

- **Y dylai Ysgrifennydd y Cynulliad wahodd y cyrff hyn i osod targedau cyrhaeddiad realistig, ond uwch; y dylent roi gwybod iddo amdanynt o fewn blwyddyn, ac y dylai fynnu cael adroddiad ar y canlyniadau erbyn diwedd 2002.**
- **Y dylid gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad ystyried ei gwneud yn ofynnol i Gyngor yr Amgueddfeydd; Cyngor y Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth; Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru gydweithio â Chyngor y Celfyddydau i gynllunio arddangosfeydd; digwyddiadau cymunedol; a darllediadau er mwyn codi ymwybyddiaeth yn lleol ac yn genedlaethol o'r agweddau neilltuol ar wahanol brofiadau diwylliannol y grwpiau lleiafrifoedd ethnig a'r ffordd y maent yn cyfoethogi bywyd diwyllianol Cymru yn gyffredinol.**

3.26 Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn awgrymu fod rhai grwpiau diwylliannol oddi fewn i gymunedau'r lleiafrifoedd ethnig yn teimlo bod angen eu canolfannau eu hunain arnynt er mwyn meithrin mathau penodol o gelfyddyd, ac y gellid gwneud mwy i sicrhau fod y rhai sy'n cymryd rhan yn gallu dod o hyd i waith a chynulleidfaoedd yng Nghymru. **Rydym yn argymell y dylid gofyn i Gyngor y Celfyddydau gyd-drefnu adroddiad i Ysgrifennydd y Cynulliad ar sut y gellid cyflawni'r amcanion hyn.**

3.27 **Rydym hefyd yn argymell yn gryf y dylai Cyngor y Celfyddydau barhau i gydweithio gydag ymarferwyr o gymunedau'r lleiafrifoedd ethnig, gan ddilyn yr egwyddorion sefydledig ar gydraddoldeb hiliol, a sicrhau bod yr adnoddau a'r cyfleoedd hyn ar gael mewn rhaglen 'gam wrth gam' ddichonadwy dros y 3-5 mlynedd nesaf.**

## ***GWLAD SY'N DYSGU – DIWYLLIANT CYFOETHOCACH***

3.28 Roedd mwyafrif y rhai a ymatebodd i'r adolygiad yn teimlo y dylai cefnogi addysg a hyrwyddo talent artistig fod yn rhan ganolog o unrhyw bolisi diwylliannol a mynegwyd barn gref y dylai diwylliant Cymru fod yn rhan annatod o'r system addysg. Yn ystod yr adolygiad, clywodd yr Aelodau dystiolaeth anecdotaidd a oedd yn awgrymu fod y celfyddydau yn llewyrchu ar lefel ysgolion cynradd, ond fod y gweithgareddau hyn yn cael eu gwthio i'r ymylon wrth i ddisgyblion symud i addysg uwchradd ac wrth i ofynion a phwysau'r cwricwlwm gynyddu. Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylem, wrth roi pobl ifanc yn gyntaf, sicrhau fod dylanwad y celfyddydau – a'r celfyddydau Cymreig yn arbennig – yn treiddio drwy'r cwricwlwm ac, yn wir, y tu hwnt i'r cwricwlwm ym **mhob** cam o'u datblygiad - ar y lefel gynradd, y lefel uwchradd a'r lefel drydyddol.

3.29 Mae'r Cynllun Gweithredu ar Addysg a Hyfforddiant i Gymru (ETAP), a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol, yn nodi'r prif anghenion a'r canlyniadau sy'n angenrheidiol er mwyn gwneud Cymru yn wlad sy'n dysgu yn yr 21ain ganrif. Wrth ystyried y dystiolaeth a roddwyd i'r adolygiad hwn,

sylwodd y Pwyllgor yn arbennig i ba raddau yr oedd y rhai a ymatebodd yn teimlo y dylai cefnogi addysg a hyrwyddo talent artistig gael eu trin fel rhannau cydberthynol o bolisi diwylliannol.  O'r herwydd, **mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid cymryd y camau canlynol er mwyn sicrhau fod mwy o'n pobl yn cael gwell cyfleoedd a sgiliau i gyfrannu at weithgareddau diwylliannol yng Nghymru, ac elwa arnynt**.

3.30 O ran **pobl ifanc**, rhoddwyd sylw i'r ddogfen sy'n dwyn yr enw 'Y Celfyddydau a Phobl Ifanc yng Nghymru'.  Fe'i comisiynwyd gan Gyngor y Celfyddydau ac fe'i lluniwyd gan dasglu'r celfyddydau a phobl ifanc.  Rydym yn cymeradwyo nifer o brif amcanion y cynllun gweithredu tair blynedd hwn. Yn ein barn ni, mae'n hanfodol:

- sicrhau fod pob ysgol yng Nghymru yn mabwysiadu **polisi** i hyrwyddo datblygu'r celfyddydau
- cryfhau **hyfforddiant mewn swydd** i athrawon y celfyddydau mewn ysgolion, a'r deunyddiau cefnogi dwyieithog sydd ar gael iddynt
- sefydlu **broceriaethau** lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i gefnogi'r gwaith o gyfoethogi'r cwricwlwm – er enghraifft, cryfhau'r cysylltiadau rhwng amgueddfeydd, llyfrgelloedd, canolfannau gwyddonol ac ysgolion, a galluogi mwy o artistiaid i weithio mewn ysgolion
- sicrhau fod pobl ifanc yn gallu cael gafael ar **wybodaeth** dda am y gweithgareddau celfyddydol sydd ar gael a'u bod yn cael mwy o gyfle i'w profi oddi allan i'r ysgol
- cynyddu nifer y cynyrchiadau, yr arddangosfeydd a'r **digwyddiadau** celfyddydol eraill sy'n cyd-fynd â diddordebau pobl ifanc yn benodol.

3.31 Yn fwy penodol, mae'r Pwyllgor wedi dod i'r casgliadau manwl hyn:

- Mae darparu ar gyfer y **blynyddoedd cynnar** yn hanfodol er mwyn gosod sylfaen ar gyfer ennill y wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen er mwyn cael y budd mwyaf posibl o weithgareddau celfyddydol yn ddiweddarach mewn bywyd.  Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylid gwahodd Ysgrifennydd y Cynulliad dros Addysg i ystyried y manteision  a fyddai'n deillio o sicrhau fod y rhai sy'n cael eu hyfforddi i ddarparu addysg a gofal plant yn derbyn hyfforddiant trwyadl mewn chwarae dan gyfarwyddyd a chwarae creadigol, ac yn y ffyrdd gorau o gyflwyno'r gwahanol agweddau ar gelfyddyd i'r plant ieuengaf, gan gynnwys defnyddio dysgu peripatetig yn llawer mwy helaeth; gallai hyn gael ei gryfhau drwy ddefnyddio doniau pobl sydd wedi ymddeol o'u proffesiynau.  **Rydym yn argymell y dylai'r Pwyllgor Addysg gadw hyn mewn cof wrth iddo fwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm ar gyfer plant 3-6 oed yn y tymor hwy.**

- Mae'r Pwyllgor o'r farn fod y berthynas **rhwng meithrin talent** pobl ifanc a gwaith celfyddydol ar lefelau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol yn un hanfodol bwysig.

- Ynglyn â gweithgareddau yn yr ysgolion, rydym o'r farn y dylid ymchwilio i'r pryderon a fynegwyd inni ynghylch y lleihad mewn gweithgareddau diwylliannol a chelfyddydol wrth i bobl ifanc symud drwy'r system addysg. **O'r herwydd, rydym yn argymell y dylai Estyn gynnal arolwg o lefel y ddarpariaeth a'r gweithgaredd yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3. Rydym hefyd yn argymell y dylai Estyn ystyried sut i gynghori ysgolion ynghylch y dulliau gorau o gynnig darpariaeth gelfyddydol drwy weithgareddau allgyrsiol drwy gydol cyfnod pobl ifanc yn yr ysgol.**

- Er mwyn sicrhau fod materion diwylliannol yn cael y sylw priodol, **rydym ym argymell y dylai ACCAC adolygu'r Cwricwlwm Cymreig er mwyn ystyried i ba raddau y dylid ei gryfhau â deunyddiau newydd sy'n berthnasol i'r celfyddydau a diwylliant yng Nghymru.** Yn y man, rydym o'r farn y dylai ACCAC gael ei wahodd i ystyried i ba raddau y gellid ehangu'r Cwricwlwm Cymreig i gynnwys deunyddiau ar y celfyddydau mewn o leiaf un diwylliant arall er mwyn hyrwyddo cymhariaeth a dealltwriaeth rhyng-ddiwylliannol.

- Ar gyfer gweithgareddau sy'n cael eu cynnal oddi allan i'r ysgol yn bennaf, dylai'r **prosbectws o weithgareddau** ar gyfer pob disgybl a argymhellir yn *gwellcymru.com* gynnwys dewis eang o gyfleoedd diwylliannol ac artistig o'r cychwyn cyntaf. Dylai'r gwasanaeth gyrfaoedd, partneriaethau busnes ac addysg, a'r rhai sy'n gweithredu ym maes y celfyddydau gydweithio er mwyn sicrhau mwy o gyfleoedd i gael profiad gwaith (a mwy o wybodaeth am yrfaoedd) yn niwydiannau creadigol Cymru.

- Yn ddibynnol ar yr adnoddau sydd ar gael, dylai'r cyrff diwylliannol a noddir gan y Cynulliad **sicrhau fod pob ysgol yng Nghymru yn cael y cyfle i elwa ar o leiaf un cyfle diwylliannol ac artistig mawr bob blwyddyn, un ai ar wahân neu fel rhan o gonsortiwm**, o 2002-2003 ymlaen. Yn y cyfamser, rydym o'r farn y dylai'r cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad wneud y gwaith paratoi helaeth sydd ei angen er mwyn sicrhau y bydd y digwyddiadau hyn yn rhai gwirioneddol werthfawr. **Ar yr un pryd, rydym yn argymell y dylid gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Addysg Cyn-16 oed a Phlant ystyried addasu'r rhaglen Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant (GEST), fel y gellir cynnig hyfforddiant mewn swydd a chefnogaeth addas i athrawon ar sail gyflenwol.**

- Dylai'r **polisi ieuenctid** a gyflwynwyd yn ddiweddar ar gyfer Cymru, sydd wedi ei seilio ar ofynion penodol y Ddeddf Dysgu a Sgiliau, gynnig cyfleoedd newydd i ddatblygu sgiliau yn y gwahanol fathau o gelfyddyd – gan ddefnyddio cyllid o'r Gronfa Cyfleoedd Newydd os yn bosibl. **Rydym yn argymell y dylai Asiantaeth Ieuenctid Cymru gael y dasg benodol o gyhoeddi canllawiau newydd, a chynnig hyfforddiant pwrpasol, yn y maes hwn.**

- Dylai pob sefydliad sy'n derbyn arian cyhoeddus ac sy'n ymwneud â'r celfyddydau a diwylliant – gan gynnwys holl Sefydliadau Addysg Uwch a

Sefydliadau Addysg Bellach Cymru, ymgymryd â'r gwaith o ddatblygu polisïau newydd i **hyrwyddo talentau brodorol**, gan gynnwys drwy gysylltiadau uniongyrchol gydag ysgolion, sefydliadau ieuenctid a grwpiau cymunedol. Dylai'r cylch gwaith gynnwys darparu'r sgiliau, yr hyfforddiant a'r cyfleoedd addysgol sy'n angenrheidiol er mwyn adeiladu sylfaen broffesiynol gref yng Nghymru. Dylai hefyd roi ystyriaeth i'r angen i gynnig darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

- Mae cyrff **cenedlaethol ym maes celfyddyd i bobl ifanc** yn chwarae rhan bwysig mewn hyrwyddo datblygiad personol a sgiliau a fydd yn ddefnyddiol iddynt ar ôl iddynt ddod yn oedolion. Mae'r Pwyllgor yn cymeradwyo hyn ac mae'n dymuno gweld gwell cysylltedd – gan gynnwys mwy o gyfleoedd i dderbyn profiad gwaith - rhwng y mudiadau ieuenctid, Coleg Cerdd a Drama Cymru, a chwmnïau sydd â chylch gwaith cenedlaethol. **Rydym yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cynulliad gomisiynu Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cyd-bwyllgor Addysg Cymru, Coleg Cerdd a Drama Cymru, y cyrff a chanddynt gylch gwaith cenedlaethol, ac Amgueddfa Genedlaethol Cymru i lunio adroddiad ar sut y gellid ymdrin â mudiadau ieuenctid cenedlaethol yn well yn y dyfodol, a chynnig gwell cefnogaeth iddynt.**

- **Rhaid i gyrff ac ymarferwyr sy'n ymwneud â'r celfyddydau ar hyn o bryd ailasesu eu polisïau datblygu a recriwtio** er mwyn eu galluogi i ddod i gysylltiad llawn â marchnad lafur gyffredinol Cymru; manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i ffurfio partneriaethau a ddaw yn sgil Amcan 1; ac er mwyn gwella eu cynlluniau busnes, eu rheolaeth ariannol, a'u gallu i farchnata. Dylid hyrwyddo yn gryf hyfforddi a datblygu ar y cyd gyda sectorau eraill – fel twristiaeth a datblygu cymunedol – ac rydym yn gwahodd Ysgrifennydd y Cynulliad i ystyried y ffordd orau o wneud hyn.

- Mae'r Pwyllgor yn ategu argymhelliad a wnaed yn ei adroddiad "Bwrw Ymlaen â'r Argymhellion yn y Cynllun Gweithredu Addysg a Hyfforddiant" y dylai Ysgrifennydd y Cynulliad gomisiynu Cyngor Addysg a Hyfforddiant Cymru i gynnal **astudiaeth ar fformiwla cyllido teg ar gyfer addysg a hyfforddiant ar ôl 16 oed** ac y dylai astudiaeth o'r fath gynnwys gweithgareddau allgyrsiol (gan gynnwys chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol).

## Cronfa Celfyddyd i Bobl Ifanc

3.32 Gallai sefydlu cronfa bartneriaeth rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat fod yn un ffordd o sicrhau ffynhonnell o gyllid i'r celfyddydau ar gyfer ein pobl ifanc. Byddai'n cynnig ffynhonnell arall o gyllid ar gyfer gweithgareddau yn yr holl faes celfyddydol; o weithgareddau amatur a gwirfoddol i waith proffesiynol a rhyngwladol. Gallai fod yn ffynhonnell o gyllid ychwanegol ac atodol ar gyfer gweithgareddau cymunedol a gwirfoddol neu weithgareddau proffesiynol megis mynychu cyrsiau ieuenctid cenedlaethol, yn arbennig ar gyfer pobl ifanc sydd o gefndiroedd difreintiedig neu sydd oddi allan i'r strwythurau addysg arferol. Byddai'r Gronfa Celfyddyd i Bobl Ifanc yn

ceisio cadw cydbwysedd rhwng blaenoriaethau'r Pwyllgor ym maes y celfyddydau a diwylliant o fuddsoddi yn y dyfodol, arloesi a bod yn ddyfeisgar, cefnogi'r cyfoes a'r traddodiadol, a rhoi ein cymunedau'n gyntaf.

3.33 Gellid sefydlu'r Gronfa Celfyddyd i Bobl Ifanc gyda chyllid gan y Cynulliad Cenedlaethol, Cynlluniau Cyllido Ewropeaidd a chyfraniadau gan fusnesau a'r sector preifat. Gallai Ysgrifennydd y Cynulliad sefydlu gweithgor bychan a fyddai'n asesu beth fyddai'r strwythur economaidd gorau ar gyfer cronfa o'r fath; sut y gellid elwa orau ar y buddsoddiad dechreuol a pharatoi canllawiau ar ddosbarthu grantiau. Gallai'r gweithgor hefyd benderfynu ar y strwythur mwyaf effeithiol ar gyfer dewis pwy ddylai dderbyn grantiau, eu dosbarthu, eu monitro a'u hasesu.

3.34 O ystyried bod angen i'r Gronfa Celfyddyd i Bobl Ifanc ddefnyddio adnoddau eraill, dylid ymgynghori ymhellach ar ei threfniadau manwl.

**Hyfforddiant a Sgiliau**

3.35 Mae'r Pwyllgor yn teimlo'n gryf y dylid cynnig addysg, hyfforddiant a sgiliau i bobl, ac i bobl sydd oddi allan i'r strwythur addysg ffurfiol yn arbennig, er mwyn iddynt allu dod yn rhan o'r proffesiynau creadigol. Mae o'r farn y gellid defnyddio cyrff a chwmnïau sydd â chylch gwaith cenedlaethol fel ffordd i mewn i'r celfyddydau proffesiynol yng Nghymru, drwy eu gwaith ym myd addysg a'u gwaith maes, a hefyd drwy gynnig y sgiliau, yr hyfforddiant a'r datblygiad addysgol sy'n angenrheidiol er mwyn cael sylfaen broffesiynol gref yng Nghymru.

3.36 **Mae'r Pwyllgor yn argymell**

- **y dylid cynnal archwiliad o hyfforddiant ac addysg ym maes y Celfyddydau. Mae'n awgrymu y gellid cynnwys hyn fel rhan o adolygiad arfaethedig y Pwyllgor o Addysg Uwch**
- **y dylid ystyried yr angen am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ym meysydd hyfforddiant, addysg ac ennill sgiliau ac y dylai'r archwiliad arfaethedig nodi bylchau amlwg yn y ddarpariaeth bresennol.**

## ***DIWYDIANT BLAENGAR - DIWYLLIANT CREADIGOL***

3.37 Mae'r diwydiannau creadigol yn cyfrannu'n sylweddol at economi Cymru. Dangoswyd hyn yn glir yn 'Effaith Economaidd y Diwydiannau Celfyddydol a Diwylliannol yng Nghymru' a gomisiynwyd gan Gyngor y Celfyddydau (Rhagfyr 1998). Mae'r diwydiannau hyn yn gwneud cyfraniad mewn marchnadoedd lleol, cenedlaethol a rhyngwladol; yn datblygu sgiliau profiadol ac yn arloesi; ac yn cynnig gwasanaethau hanfodol o safon uchel ym meysydd darlledu, technoleg, adloniant, twristiaeth a hamdden. Maent yn cael lle amlwg yn y Ddogfen Raglennu Sengl dan gynllun Amcan 1. Un o'r prif resymau am hyn yw eu bod yn bwysig o safbwynt datblygu'r cyfalaf a gynhyrchir fesul pen. Mae'r diwydiannau creadigol yn parhau i fod yn hanfodol bwysig i enw da cynyddol Cymru fel lle creadigol, cyfoethog a diwylliannol amrywiol. Mae galw mawr am sgiliau creadigol ym mhob rhan o'r economi. Maent yn bwysig i'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru; i

ymwelwyr; ac i fewnfuddsoddwyr. Credwn ei bod yn bwysig ysgogi, datblygu, denu a chynnal y crynhoad o sgiliau, gwybodaeth, isadeiledd a chyfleoedd yn y farchnad fel y gall Cymru gystadlu'n llwyddiannus yn y farchnad hynod gystadleuol – a byd-eang hyd yn oed – am gynnyrch creadigol.

3.38 Mae'r wybodaeth sydd ar gael am iechyd economaidd y diwydiannau creadigol yng Nghymru'n awgrymu'r canlynol:

- maent yn cyflogi tua 29,000 o bobl – 2.6% o'r boblogaeth sydd mewn gwaith;
- maent yn gwario cyfanswm o dros £800m ac mae tua £570m o hynny'n cael ei wario yng Nghymru;
- mae ganddynt drosiant o £1.1 biliwn – sy'n cyfrannu dros £300m at GDP Cymru.

3.39 Mae'r rhain yn seiliedig ar ffigurau 1998; **hoffem i ffigurau mwy diweddar a chyflawn fod ar gael cyn gynted ag y bo modd a gwneir argymhellion ynghylch hyn yn y bennod nesaf.**

3.40 Nifer fawr o unigolion a busnesau bach a chanolig sy'n gyfrifol am lawer o'r llwyddiannau hyn ac mae cael lle i weithio, cyngor arbenigol a chyllid yn bwysig iddynt. Ond mae'n debyg y bydd y sector yn dod yn fwy cymhleth fyth yn y dyfodol. O'r herwydd, byddai o fudd mawr petai'r diwydiannau creadigol yn cael sylw parhaus dros y blynyddoedd nesaf.

3.41 Drwy weithio mewn partneriaeth gyda'r sector cyhoeddus a'r sector preifat, mae'r diwydiannau creadigol yn cynnig cyfle i Gymru, a'i rhanbarthau, gyflwyno ei hun fel gwlad greadigol sy'n nodedig am arloesedd, dychymyg a menter o'r radd flaenaf. Dylai hyn, yn ei dro, gyfrannu'n sylweddol at adeiladu economi gryfach; sylfaen sgiliau gadarnach; a gwell ansawdd bywyd yng Nghymru.

3.42 **Er mwyn bwrw ymlaen â hyn, rydym yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cynulliad ystyried sefydlu ffordd newydd o weithio fel tîm a fydd yn cynnwys cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad sy'n gweithredu ym maes diwylliant a'r celfyddydau; Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; a chyrff statudol ac anstatudol perthnasol eraill sydd â chylch gwaith penodol er mwyn sicrhau eu bod yn cyfrannu at gynnal ffyniant diwylliannol Cymru, a chynnal momentwm y diwydiannau creadigol eu hunain**. Byddwn yn trafod y manylion trefniadaethol yn fwy trylwyr yn y bennod nesaf.

**Twristiaeth Ddiwylliannol**

3.43 Mae'r celfyddydau'n rhan hanfodol o unrhyw fentrau twristiaeth ddiwylliannol llwyddiannus ac fe allent gyfrannu'n sylweddol at ddyfodol economaidd Cymru. Mae'n bwysig bod asiantaethau'r Cynulliad Cenedlaethol yn cydweithio ag awdurdodau lleol i gyflawni'r nod hwn. Mae'r celfyddydau, ynghyd â'n treftadaeth adeiledig, ein tirwedd, ein hamgylchedd, ein hanes cymdeithasol-economaidd, ein gwahanol ddiwylliannau a'n hieithoedd a'n chwaraeon, i gyd yn chware rhan gyd-gysylltiedig yn nhwristiaeth

ddiwylliannol Cymru gan greu twf economaidd a chyfoethogi bywydau ein dinasyddion ac ymwelwyr.

3.44 Mae twristiaeth ddiwylliannol yn ffactor hollbwysig mewn creu swyddi cynaliadwy, adfywio gwledig a threfol, dinasyddiaeth weithredol a diffinio arbenigrwydd Cymru a'i hunaniaeth genedlaethol. Rhaid gwneud pob ymdrech i gydlynu strategaeth genedlaethol ar gyfer twristiaeth ddiwylliannol a rhoi mentrau ar waith yn y maes allweddol hwn sy'n tyfu; mae yng Nghymru isadeiledd celfyddydol gwych y gellir ei sbarduno, a'i ddatblygu. Ond er mwyn cyflawni hyn, mae angen sefydlogrwydd ariannol a chynaliadwyedd yn y dyfodol.

3.45 **Mae'r Pwyllgor yn cymeradwyo'r cynlluniau diweddar yn y maes hwn gan Fwrdd Croeso Cymru ac Awdurdod Datblygu Cymru ac yn edrych ymlaen at weld canfyddiadau eu gweithgor ar dwristiaeth ddiwylliannol yng Nghymru.**

## ***UCHELGAIS GENEDLAETHOL – DYLANWAD RHYNGWLADOL***

### Y Llwyfan Rhyngwladol

3.46 Ar y cyfan, roedd y rhai a ymatebodd i'r broses ymgynghori o'r farn y dylai polisi diwylliannol y Cynulliad geisio pwysleisio amrywiaeth ac y dylai ystyried yr arferion a'r dylanwadau sy'n datblygu yn rhyngwladol, ond gan barhau i ganolbwyntio ar hyrwyddo celfyddyd a diwylliant Cymreig.

3.47 Mae hunan-ddelwedd Cymru a'i delwedd ar y llwyfan rhyngwladol yn hanfodol bwysig i iechyd a ffyniant y genedl gyfan. Fel cenedl, mae gennym gysylltiadau hanesyddol gyda'r cenhedloedd Celtaidd eraill. Mae'r rhain o fudd i bawb a dylid parhau i achub ar bob cyfle i'w meithrin, ond dylem hefyd geisio sicrhau bod ein partneriaid ledled y byd yn sylwi ar ein celfyddyd a'n diwylliant, ac yn eu gwerthfawrogi. Mae'n hanfodol bwysig ein bod yn defnyddio dylanwadau rhyngwladol, yn eu bwydo'n uniongyrchol yn ôl, a'u gwreiddio ym mywyd diwylliannol ac economi pobl Cymru.

3.48 Er mwyn gwneud y gorau o'n proffil rhyngwladol sy'n datblygu yn y celfyddydau**, rydym yn argymell**:

- Y dylid gwneud mwy o ddefnydd o swyddfeydd y Cyngor Prydeinig dramor er mwyn hybu a chynorthwyo perfformiadau celfyddyd amatur a phroffesiynol. Rydym yn gofyn i Ysgrifennydd y Cynulliad ystyried cryfhau adran Celfyddydau Rhyngwladol Cymru Cyngor y Celfyddydau er mwyn ei helpu i gyflawni hyn. Rydym hefyd yn argymell y dylai Bwrdd Croeso Cymru gydweithio â Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru i'r perwyl hwn. Dylid rhoi hwb o'r newydd i Gelfyddydau Rhyngwladol Cymru. Dylai fod yn ofynnol i gyrff diwylliannol a chelfyddydol yng Nghymru sy'n derbyn arian cyhoeddus gyfrannu at gyflawni ei amcanion o flwyddyn i flwyddyn. Dylid gwahodd y **Cyngor Prydeinig yng Nghymru** hefyd i gytuno ar strategaeth ar gyfer hybu cyfleoedd diwylliannol ac addysgol yng Nghymru a ledled y byd, yn enwedig y rhai hynny sydd yn debygol o gynhyrchu incwm, gyda'r

holl sefydliadau addysg, hyfforddiant a diwylliant cenedlaethol yng Nghymru sy'n derbyn cyllid.

- Y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol ynghyd â Llywodraeth Ganolog y DU ystyried y posibilrwydd o gyfrannu'n uniongyrchol at waith **UNESCO** – yn arbennig trwy brosiect Ysgolion Cysylltiedig y sefydliad hwnnw.

- Y dylid defnyddio mwy ar Ganolfan Ewropeaidd Cymru sydd newydd ei hagor, yn arbennig er mwyn hybu proffil gweithgareddau artistig Cymru.

- Y dylai Ysgrifennydd y Cynulliad ystyried prosesau a fyddai'n gallu dynodi unigolion, cwmnïau a gwyliau penodol fel **llysgenhadon** diwylliannol ac economaidd, neu dderbyn comisiwn ffurfiol gan y Cynulliad yn y rôl honno. Ar yr un pryd, rydym yn annog Ysgrifennydd y Cynulliad i sicrhau bod yr ymwelwyr diwylliannol rhyngwladol niferus sy'n cyfoethogi'r llwyfan domestig yn cael croeso cynnes.

- Y dylai holl asiantaethau diwylliannol y Cynulliad gydweithio i greu amgylchedd ffyniannus **er mwyn dylanwadu'n ddiwylliannol ac yn economaidd yn rhyngwladol**.

- Y dylid edrych ar **deithiau cyfnewid** ar gyfer myfyrwyr, disgyblion a darlithwyr er mwyn sicrhau eu bod yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i hybu ac ymestyn llwyddiannau Cymru yn y celfyddydau.

3.49 Mae'n bwysig cofio y bydd adeilad newydd y Cynulliad Cenedlaethol ynddo'i hun yn adeilad a fydd yn cael ei gydnabod ledled y byd. Yn ein barn ni dylid defnyddio'r cyfle hwn i gyfrannu at hybu Cymru yn ddiwylliannol ac yn gelfyddydol. **Rydym hefyd yn argymell y dylai'r adeilad wneud y defnydd gorau o'r lle sydd ar gael ar gyfer perfformio ac arddangos. Yn benodol,**

- **rydym yn gofyn i Lywydd y Cynulliad ystyried posibilrwydd creu Urdd Artistiaid yng Nghymru. Bydd yn rhaid i aelodau'r Urdd fod wedi mynd gerbron y Cynulliad ei hun, neu dreulio cyfnod ar leoliad yn y Cynulliad.**

**Sefydliadau a chanddynt Gylch Gwaith Cenedlaethol**

3.50 Mae gan Gymru nifer o sefydliadau a chanddynt gylch gwaith cenedlaethol sy'n adnabyddus ledled y byd, a dylem fod yn falch ohonynt. Mae llawer iawn i'w ddathlu yma. Mae'r sefydliadau hyn yn cynrychioli rhai o'r agweddau gorau ar Gymru. Mae llawer wedi gwneud cyfraniad sylweddol at ein cymunedau. Dylid croesawu hyn, ond rydym o'r farn y dylai'r ymrwymiadau hyn gael eu hymestyn, gyda mwy o deithio a mwy o fuddsoddi mewn mentrau addysg.

3.51 Fel yr amlinellwyd uchod, rydym am weld mwy o gysylltedd – gan gynnwys mwy o gyfleoedd ar gyfer lleoliadau a phrofiad gwaith – rhwng y

sefydliadau a chanddynt gylch gwaith cenedlaethol, y mudiadau ieuenctid cenedlaethol a byd addysg.

3.52 Er enghraifft, ym myd y celfyddydau perfformio, mae'n rhaid i'r sefydliadau proffesiynol hyn gydweithio'n agosach gyda'r rhwydwaith o gwmnïau ieuenctid cenedlaethol neu'r cwmnïau pobl ifanc cenedlaethol – ein Cerddorfa Ieuenctid Genedlaethol, y Côr Ieuenctid Cenedlaethol, y Theatr Ieuenctid Genedlaethol, y Cwmni Dawns Ieuenctid Cenedlaethol a'r Band Pres Ieuenctid Cenedlaethol. Mae hyn yn hanfodol ar gyfer llif talent, cyfleoedd a hyfforddiant a gwerthfawrogiad o'n celfyddydau ac mae angen iddo ddod yn rhan annatod o batrwm bywyd diwylliannol Cymru.

3.53 Mae angen mynd i'r afael â'r sefyllfa gyllido anwastad a'r cyfleoedd lleoli amrywiol eu safon ar gyrsiau cenedlaethol i bobl ifanc ledled y wlad. Mae cwrdd â phobl eraill o wahanol ardaloedd yng Nghymru, ac o wahanol gefndiroedd cymdeithasol mewn cyd-destun artistig, a chydweithio â'r bobl hynny, yn ffactor hanfodol bwysig o ran cryfhau cymdeithas sy'n dalentog, yn greadigol ac yn oddefgar.

3.54 Hyd yma, ni fu gennym gyrff a chanddynt gylch gwaith cenedlaethol y tu allan i fyd y celfyddydau perfformio. Mae cwestiwn yn codi ynghylch a ddylid rhoi cylch gwaith cenedlaethol i unrhyw sefydliadau eraill.

3.55 Yn rhyfedd iawn, nid oes digon o adnoddau na sefydliad priodol i gydlynu rôl genedlaethol allweddol y celfyddydau llenyddol a byd llenyddiaeth yng Nghymru, sy'n rhan nodedig o'n treftadaeth gelfyddydol a'n hegni cyfoes. Clywodd y Pwyllgor ganmol mawr ar Adran Lenyddiaeth Cyngor Celfyddydau Cymru ond mae angen rhagor o arian a strategaeth genedlaethol ar fyrder ar gyfer y celfyddydau llenyddol a byd llyfrau.

3.56 Mae angen sylfaen gyllido fwy cadarn ar y celfyddydau amlddiwylliannol a theatr cyfrwng Cymraeg, ac mae angen ymestyn eu gweledigaeth yn strategol er mwyn cyflawni eu diben a'u cylch gwaith ledled Cymru. Mae'n anffodus nad yw arbenigrwydd, cyfraniad cymdeithasol, na gwerth a phwysigrwydd diwylliannol y sectorau celfyddydol hyn i Gymru greadigol wedi eu gwerthuso mewn ffordd gynhwysfawr a realistig. Unwaith eto, mae hon yn dasg hir-ddisgwyliedig, ac mae cynrychiolwyr y meysydd hyn wedi awgrymu eu bod yn teimlo mai o reidrwydd yn unig y maent yn rhan o'r gymysgedd ddiwylliannol sy'n diffinio diwylliant cytûn Cymru. Gallai canolfannau penodol ar gyfer y gweithgareddau hyn gynnig llwyfan ar gyfer eu creadigrwydd diwylliannol. Serch hynny, mae'n bwysig bod y gwaith yn treiddio i bob rhan o'r wlad ac yn gadael ôl amlwg arni.

3.57 Dylai'r sefydliadau a chanddynt gylch gwaith cenedlaethol:-

- **feithrin talent y wlad** – awduron, cyfansoddwyr, perfformwyr ac artistiaid – ac ymrwymo i ddatblygu talent cynhenid a chynnig cyfleoedd gwaith er mwyn i'r talent hwnnw allu cystadlu am swyddi gartref a thramor

- **cydlynu eu gweithgareddau** er budd proffil rhyngwladol Cymru, hybu twristiaeth, mewnfuddsoddi ac allforio
- **ymroi i rannu adnoddau** er mwyn cael gwell canlyniadau bob blwyddyn
- **cyflwyno amryw droddodiadau artistig y wlad â balchder**, a chynrychioli’r amrywiaeth o bobl yng Nghymru trwy eu strategaethau cyflogi a chyflwyno
- **gosod safonau ar gyfer creadigrwydd cenedlaethol**, a chefnogi ymdrechion artistig yn ein cymunedau
- **cynnig mynediad rhwyddach** i’n trysorau mewn amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau
- **cynnig llwyfannau** ar gyfer ein cynhyrchiant creadigol ac ar gyfer ein hartistiaid
- **chwalu’r rhwystrau i gelfyddyd** ac o fewn ffurfiau celfyddyd
- **cydweithio** gyda’n hasiantaethau economaidd i fod yn llysgenhadon diwylliannol arbennig
- **ymestyn eu presenoldeb ledled Cymru**
- **rheoli eu gwaith yn briodol ac yn effeithlon**, gyda goruchwyliaeth briodol gan Gyngor y Celfyddydau
- **gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau diwylliannol eraill a mentrau preifat** i gynnig y gwerth gorau i bobl Cymru gyfan.

3.58 **Rydym yn argymell y dylid cynnal archwiliad ac asesiad eglur o rôl ein cwmnïau a chanddynt gylch gwaith cenedlaethol yn y sector diwylliannol** ledled y celfyddydau. Mae angen mynd ati'n systematig i esmwytho unrhyw orgyffwrdd neu fylchau yn y ddarpariaeth a nodwyd. Mae angen i bob un gydweithio a chydweddu. Dylid ystyried ac ailasesu eu gwerth o safbwynt diwylliant, yr economi, addysg a gwaith. Dylid llunio contractau clir ar gyfer eu gwaith diwylliannol a'u cylch gwaith rhyngddynt hwy a'r prif gorff cyllido yng Nghymru, sef Cyngor y Celfyddydau, ar ran y Cynulliad Cenedlaethol. Yn ogystal â hyn, dylai Cymru fod ar ei hennill yn sgil y buddsoddiad hwnnw.

3.59 Yn olaf, yn unol â'r egwyddor hyd braich, er nad ydym wedi mynd ati i geisio trafod statws cyrff unigol, mae'n rhaid sôn am Ganolfan Milenwim Cymru. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd peth ansicrwydd ynghylch dyfodol y Ganolfan. Mae'r Pwyllgor yn mawr obeithio y bydd modd datrys anawsterau'r Ganolfan ac y bydd y prosiect yn mynd rhagddo fel y bwriadwyd yn wreiddiol.

## Gwyliau

3.60 Mae sawl **gwyl lwyddiannus** hefyd yn cael ei chynnal yng Nghymru. Mae’n amrywio o Eisteddfodau’r Urdd a Llangollen a’r Eisteddfod Genedlaethol i’r gwyliau cerddorol fel Gwyl Jazz Aberhonddu, a gwyliau Bro Morgannwg, Abergwaun, Llanelwy, Cricieth, Sesiwn Fawr Dolgellau a Biwmares – i wyl aml-gelfyddyd Abertawe, Gwyl Lenyddol y Gelli Gandryll, Gwyl One Tribe a’r Penwythnos Mawr. Mae hyn yn ddi-os yn dangos

pwysigrwydd y digwyddiadau hyn i'r cymunedau a'u creodd. Maent yn cael eu creu gan grwpiau ac unigolion dyfeisgar a dyfal ac yn dangos yr hyn y gellir ei wneud trwy gydweithio llwyddiannus rhwng yr awdurdodau lleol, y sefydliadau ambarél a chymdeithasau er mwyn dathlu arbenigrwydd diwylliannol Cymru. Yn aml iawn, mae gwyliau yn gysylltiedig â chystadlaethau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol neu ryngwladol megis Canwr y Byd yng Nghaerdydd, neu â phersonoliaethau amlwg ym myd y celfyddydau. Mae gwyl Bryn Terfel yn y Faenol wedi denu sylw yn lleol ac yn rhyngwladol ac yn cyflwyno cerddoriaeth yn holl gyfoeth ei hamrywiaeth.

- Rydym yn teimlo y gellid gwneud llawer mwy i gysylltu gwyliau, data llety a chyfleoedd twristiaeth eraill mewn rhaglen flynyddol o ddigwyddiadau i'w chyhoeddi ledled y byd ar y rhyngrwyd. **Rydym yn argymell** y dylai Cymru'n Creu **ymchwilio** i bosibiliadau'r cysylltiadau hyn a **manteisio** arnynt (gweler tudalen 43).

## FFURFIAU CELFYDDYD

3.61 Ym Mhennod 3 rydym yn amlinellu rôl y Cynulliad Cenedlaethol o ran pennu'r polisi ar gyfer y celfyddydau a diwylliant yng Nghymru a'r blaenoriaethau cyffredinol ar gyfer cyllid. Yn yr adran honno, rydym yn nodi mai rôl y corff noddi perthnasol yw barnu ar strategaeth, cyflwyno a materion gweithredol. Mae'n bwysig cofio hynny wrth ddarllen yr adran hon.

3.62 Mae'r Pwyllgor wedi clywed llawer o sylwadau – weithiau'n gwbl groes i'w gilydd – ynghylch y meysydd strategol allweddol o fewn y gwahanol ffurfiau celfyddyd, ond nid yw wedi gallu rhoi sylw manwl i bob un o'r materion hyn. Fodd bynnag, o ystyried cryfder y teimladau y tu ôl i'r dystiolaeth a glywyd, mae'r Pwyllgor yn teimlo bod dyletswydd arno i wneud sylwadau ar y meysydd hyn a chynnig arweiniad i'r corff noddi perthnasol pan fo'n briodol. Mae'r egwyddorion ar gyfer diwylliant a'r celfyddydau yng Nghymru yn ategu'r argymhellion hyn. Nodir yr egwyddorion hyn ar dudalen 14.

### Y Celfyddydau Llenyddol

3.63 Mae Cymru'n gartref i feirdd yn ogystal ag i gantorion, ac mae ganddi draddodiad llenyddol hir a phwysig. Serch hynny, gellid dadlau bod ein hawduron wedi dioddef o'u cymharu ag artistiaid eraill. Mae'r gymuned lenyddol yn teimlo'i bod yn cael ei gwthio i'r cyrion ac yn aml yn cael ei hanghofio. Ond, mae awduron yn rhan hanfodol o'n cymdeithas, nhw yw anadl einioes creadigrwydd o fewn y celfyddydau. Heb awduron ni fyddai gennym lyfrau, dramâu, caneuon, operâu na sgriptiau newydd.

3.64 Mae'r Pwyllgor yn credu'n gryf y dylid gweithio i hybu awduron a rhoi mwy o gydnabyddiaeth iddynt - gan gynnwys cydnabyddiaeth ariannol. I'r perwyl hwnnw, **rydym yn argymell** y dylai'r asiantaethau a'r awdurdodau perthnasol ystyried y camau canlynol:

- **rhoi mwy o gydnabyddiaeth i awduron Eingl-Gymreig yn y Cwricwlwm Cenedlaethol a chodi eu statws**

- **datblygu strategaeth gydlynol ar y cyd â'r diwydiant cyhoeddi i roi mwy o gyfle i awdurdon o Gymru gyhoeddi eu gwaith. Hefyd mae angen manteisio'n fwy effeithiol nag a wneir ar hyn o bryd ar gyfleoedd marchnata.**

3.65 Gallai'r Cynulliad Cenedlaethol ei hun arwain y ffordd yn hyn o beth. Ar dudalen 29, gofynnir i'r Llywydd ystyried creu Urdd Artistiaid yng Nghymru. Rydym yn rhagweld y byddai awduron yn chwarae rhan ganolog mewn Urdd o'r fath. Yn ogystal â hyn, dylai adeilad newydd y Cynulliad wneud y defnydd gorau o'r lle sydd ar gael trwy arddangos enghreifftiau o waith awduron o Gymru, yn ogystal â chelfyddyd weledol o Gymru.

3.66 Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r mentrau newydd yn y byd llenyddol megis gwales.com, ond yn teimlo'n gyffredinol y dylai technoleg newydd gael mwy o ddylanwad yn y maes hwn o ran hyrwyddo a marchnata, cynnig mynediad rhwyddach a datblygu ffurfiau celfyddyd.

3.67 Yn olaf, **mae'r Pwyllgor am weld safonau beirniadu uwch**, yn enwedig mewn perthynas â'r celfyddydau. Yn wir, rydym eisoes wedi rhoi'r broses hon ar waith trwy gomisynu dau feddyliwr blaenllaw i geisio diffinio diwylliant Cymru. Dyna sydd yn Atodiad C.  Y gobaith yw y byddant yn sabrduno trafodaeth genedlaethol.

## Y Celfyddydau Perfformio

3.68 Mae'r cysyniad o berfformio a pherfformiadau'n rhan annatod o feddylfryd y Cymry. Rydym ni ein hunain, ac eraill, wedi tynnu sylw at ein **hangen** fel cenedl i berfformio; a bernir ein gwerth fel cenedl yn ôl **safon** ein perfformiad, boed ar lwyfan neu ar y cae chwarae. Rydym wedi cael ein magu yn nhraddodiad cyfoethog yr Eisteddfodau, carnifalau, gwyliau, sioeau a'r pasiantau. Mae yn ein gwaed.

3.69 Yn wir, gallwn fod yn falch o'n traddodiad perfformio a'n perfformwyr. Mae nifer fawr ohonynt yn gwneud gwaith arbennig yn ein cymunedau, ac mae llu o actorion, cantorion, bandiau, corau a chwmnïau o Gymru'n enwog drwy'r byd.

3.70 Yn draddodiadol, ystyriwyd mai theatr, dawns a cherddoriaeth yw'r celfyddydau perfformio, ond yn ystod yr adolygiad, tynnwyd sylw'r Pwyllgor ar yr amrediad eang o waith a gweithgareddau sy'n digwydd yn y sector ledled Cymru.

### ➢ Theatr

3.71 Y theatr sydd wedi bod fwyaf blaenllaw yn nhraddodiad y celfyddydau perfformio ym Mhrydain. Yn y gorffennol, mae Cymru wedi derbyn ac wedi mabwysiadu'r modelau theatr a grewyd ar gyfer ein cymdogion yn Lloegr, ond mae'r adolygiad wedi clywed sawl dadl o blaid modelau gwahanol.

3.72 Mae’r ddadl o blaid Theatr Genedlaethol, hyd yn oed ar ffurf ffederal yn achosi cryn deimlad ond mae’n amlwg wedi’i seilio ar fath o draddodiad theatr testun lle nad oes llinell barhaus neu ddiderfyn, ac sydd ar y gorau yn ysbeidiol yng Nghymru. Mae gennym ‘ddiwylliant perfformio’ cydnabyddedig sydd yn parhau yn flaenllaw, ac ymddengys mai’r dewis gorau ar gyfer theatr yng Nghymru, ar hyn o bryd, yw dilyn y drefn honno. Hefyd, mae’n hanfodol bod strategaeth y theatr yn seiliedig ar y mwyaf hanfodol a’r mwyaf llwyddiannus o’r cydrannau, hynny yw ei theatrau i bobl ifanc, theatr gorfforol a dawns. Dyma sut y gall Cymru, yn hytrach nag ymgysylltu â thraddodiad arall a chreu sefydliad annibynnol arall, adeiladu llwyfan cryf ar gyfer perfformiadau cenedlaethol a rhyngwladol.

3.73 Ar ddechrau'r adolygiad, y prif bwnc trafod ar adegau oedd anfodlonrwydd ynghylch y broses ymgynghori helaeth a roddwyd ar waith gan Gyngor Celfyddydau Cymru er mwyn creu strategaeth ddrama gydlynol. Nid dyma’r lle i drafod rhinweddau a ffaeleddau’r broses ymgynghori, na’r casgliadau a roddwyd ar waith, ond mae’r Pwyllgor yn gadarn o’r farn mai anghenion pobl ifanc a’n cymunedau ddylai fod wrth wraidd strategaeth o’r fath, yn y Gymraeg a’r Saesneg. Dyma’r sylfaen ar gyfer adeiladu ein dyfodol. Mae angen ei chryfhau a'i meithrin er mwyn i'n traddodiad theatr gyflawni gweledigaeth y Pwyllgor ar gyfer 2010. Mae strategaeth ddrama Cyngor y Celfyddydau bellach mor ddadleuol fel bod angen ei hailystyried. Yn benodol, oherwydd natur amrywiol ein cymunedau celfyddydol a'r hinsawdd ariannol ar hyn o bryd, rydym yn ansicr ynghylch pa mor berthnasol fyddai symud tuag at sefydlu "theatr genedlaethol" yn yr ystyr gonfensiynol. **Yr ydym yn argymell:**

- **y dylid rhoi blaenoriaeth ym maes y theatr yn y blynyddoedd i ddod i feithrin a chryfhau gweithgarwch ar lawr gwlad ledled Cymru, er mwyn creu tradoddiad o ragoriaeth**
- **y dylai Cyngor y Celfyddydau adolygu ei Strategaeth Ddrama yng ngoleuni'r flaenoriaeth hon, ac y dylai hysbysu Ysgrifennydd y Cynulliad o'i gynigion erbyn diwedd 2001.**

## ➢ Dawns a'r Theatr Gorfforol

3.74 Mae sawl math o ddawns - bale, traddodiadol e.e. dawnsio gwerin a thwmpathau, theatr gorfforol, dawnsio llinell a dawnsio neuadd, symud arbrofol etc. Mae gan Gymru lawer o ymarferwyr ac arloeswyr byd-enwog yn y maes hwn, ond nid yw proffil dawns yn uchel ar y cyfan ac fe'i gwelir yn aml fel Sinderela'r sector perfformio.

3.75 Mae'r Pwyllgor wedi gweld a chlywed y gwaith pwysig a wneir gan gwmnïau a chyrff megis Diversions, Dawns Gymunedol Cymru a'r gwahanol gwmnïau rhanbarthol a lleol yn y maes. Fe'i trawyd gan yr ymdeimlad o rym y gall dawns a symud ei roi i bobl o dan anfantais, pobl sâl a'r anabl. Mae'r Pwyllgor wedi clywed am fwriad Coleg Cerdd a Drama Cymru i ychwanegu cyrsiau dawns i'w bortffolio ac mae'n cefnogi hyn yn fawr. Ond clywodd y Pwyllgor hefyd am y problemau niferus sy'n wynebu'r sector: y syniad o ddiffyg cyllid, y galw am strategaeth ddawns gydlynol, diffyg hyfforddiant

dawnsio yng Nghymru - yn arbennig drwy gyfrwng y Gymraeg, a diffyg cysylltedd cyffredinol rhwng y cwmnïau perfformio a mudiadau cymunedol.

3.76 Mae Diversions yn gwmni clodwiw. Mae iddo enw da sy'n datblygu'n rhyngwladol, ac uchelgais y gellir ei chyflawni. Mae hefyd yn gwneud llawer o waith gwerthfawr ym maes addysg ac yn ein cymunedau. Serch hynny, mae angen meithrin y Cwmni ac mae arno angen cymorth cadarn i wireddu ei botensial. Byddai'r strategaethau dawns a argymhellir isod o fudd i Diversions.

3.77 Er mwyn helpu i oresgyn yr anawsterau sy'n wynebu'r gymuned ddawns, mae'r Pwyllgor yn argymell:

- **Y dylai Cyngor Celfyddydau Cymru ystyried y gwahanol faterion sy'n ymwneud â dawns yng Nghymru yn ofalus a chomisiynu arolwg neu ymarfer ymgynghori ar yr angen am strategaeth ddawns genedlaethol gydlynol.**

3.78 Mae angen cydnabyddiaeth ac adnoddau hefyd ar ddawnsio traddodiadol. Teimla'r Pwyllgor na ddylai'r math yma o gelfyddyd fynd ar goll i genedlaethau'r dyfodol. Mae yna achos cryf dros wneud lle yn y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer dysgu a mwynhau dawnsio traddodiadol, ac mae achos yr un mor ddilys dros roi adnoddau gwell i gyrff cenedlaethol yn y sector hwn. Serch hynny, fel cam cyntaf, rydym yn argymell y dylai Cyngor Celfyddydau Cymru weithio ar y cyd â chyrff megis Cymdeithas Ddawns Werin Cymru i ddatblygu strategaeth ar gyfer cerddoriaeth a dawnsio traddodiadol (gweler yr adran ar gerddoriaeth) a fydd yn caniatáu i genedlaethau'r dyfodol fwynhau ffrwyth eu treftadaeth ddiwylliannol unwaith eto.

## ➢ Cerddoriaeth

3.79 Gelwir Cymru'n aml yn "gwlad y gân", a dyma ystrydeb ac iddi gryn dipyn o sail. Mae'n anhygoel faint o gantorion a cherddorion rhyngwladol sy'n hanu o Gymru, ym maes cerddoriaeth boblogaidd yn ogystal â'r maes clasurol. Mae ein bandiau roc wedi cael llwyddiant rhyfeddol yn rhyngwladol yn ystod y blynyddoedd diwethaf; mae'r byd jazz yn ffynnu ac yn cynnal un o'r gwyliau jazz mwyaf llwyddiannus yn Ewrop. Mae gennym gwmni opera cenedlaethol a chanddo enw da ledled y byd, a cherddorfa genedlaethol nad yw bob amser yn cael ei llwyr werthfawrogi, ond sy'n drysor cenedlaethol. Mae'r gymuned gerddorol hefyd yn ffynnu a pheidied ag anghofio treftadaeth ein cerddoriaeth draddodiadol. Yn wir, dyma sefyllfa y dylid ymhyfrydu ac ymfalchïo ynddi.

3.80 Serch hynny, o blith yr holl ffurfiau celfyddyd, cerddoriaeth yw'r mwyaf tebygol o dueddu at fraint, elitiaeth, chwaeth a ffasiwn. Yn yr un modd â ffurfiau celfyddyd eraill, mae gwreiddiau llwyddiant Cymru yn ddwfn yn y gyfundrefn addysg a'r cymunedau. Mae llawer o berfformwyr byd-enwog wedi hanu o'r amgylchedd creadigol a chyfranogol sy'n nodweddu ein cymunedau. Yn aml iawn, ffrwyth ein cyfundrefn addysg a'n heisteddfodau yw'r rhain, wedi'u meithrin gan amaturiaid ymroddedig, medrus a brwd. Credwn bod rhaid trosglwyddo brwdfrydedd ac ymrwymiad o'r fath i genedlaethau'r

dyfodol. I wneud hyn**, mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai dysgu a chreu cerddoriaeth mewn ysgolion gael lle priodol yn y cwricwlwm, y dylai creu cerddoriaeth yn y gymuned gael cydnabyddiaeth ddyledus ac y dylid rhoi dulliau hyfforddi priodol ar waith i ganiatáu i gerddorion berfformio ac ennill eu plwyf. Mae hyn eisoes yn digwydd i raddau helaeth; rhaid i ni sicrhau ei fod yn parhau.**

3.81 Mae cerddoriaeth draddodiadol wedi dioddef diffyg cydnabyddiaeth mewn blynyddoedd diweddar, yn yr un modd â dawnsio traddodiadol. Rydym felly'n ategu ein sylwadau ym mharagraff 3.78 ac yn awgrymu y dylid gwneud lle yn y cwricwlwm cenedlaethol i fwynhau cerddoriaeth draddodiadol ac y dylai'r cyrff yn yr adran hon gael gwell adnoddau. Gofynnwn i Gyngor Celfyddydau Cymru gydweithio â chyrff megis TRAC i ddatblygu strategaeth ar gyfer cerddoriaeth draddodiadol.

**Y Celfyddydau Gweledol**

3.82 Mae'r diwylliant gweledol yn blaguro yng Nghymru yn yr un modd ag y mae cerddoriaeth roc gyfoes. Mae gennym ymarferwyr ac artistiaid byd-enwog ym maes paentio, cerflunio, arlunio, gosodwaith celf, pensaernïaeth, ffilm a fideo. Mae gennym draddodiad hefyd yn y celfyddydau gweledol, nad yw bob amser yn cael ei lwyr gydnabod. Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at hyn yn ystod yr adolygiad. Serch hynny, nid oes gennym strategaeth gydlynol ar gyfer y celfyddydau gweledol. Os ydym, fel cenedl, yn gwerthfawrogi ein diwylliant gweledol, dyma rywbeth y mae'n rhaid mynd i'r afael ag ef.

**3.83 Mae’r Pwyllgor yn argymell:**

- **y dylai'r awdurdodau lleol a'r cyrff perthnasol a noddir gydweithio i ystyried creu strategaeth gynhwysfawr ar gyfer y celfyddydau gweledol o safbwynt hybu artistiaid a chasglu, cadw a chyflwyno**
- **y dylai'r cyrff a noddir barhau i hyrwyddo celfyddyd yn frwd yng Nghymru a sicrhau bod mwy o gelfyddyd ar gael yn rhwyddach i bawb**
- **y dylai'r cyrff a noddir fod yn fwy amlwg ledled y rhanbarthau drwy gyfrwng y rhwydwaith cenedlaethol o orielau a thrwy fanteisio ar bosibiliadau'r cyfryngau digidol**
- **y dylid comisiynu astudiaeth i edrych ar yr opsiynau ar gyfer creu oriel ddigidol genedlaethol ar gyfer y celfyddydau gweledol**
- **y dylai celfyddyd gyhoeddus a phensaernïaeth fod yn elfen bwysig o ddiwylliant gweledol, sy'n effeithio'n uniongyrchol ar yr amgylchedd ac ar ansawdd bywyd**
- **y dylai'r asiantaethau priodol ddatblygu strategaeth gydlynol ar gyfer addysg a dysgu celf ac y dylai'r ysgolion celf a dylunio helpu i lunio'r strategaeth honno.**

3.84 Mae'r Pwyllgor wedi clywed dadleuon cryf dros oriel neu lwyfan cenedlaethol ar gyfer arddangos ein diwylliant gweledol, cyflwyno traddodiadau'r gorffennol a'r traddodiadau hynny fel ag y maent heddiw. Mae angen ailddehongli ffurf y traddodiad hwnnw hefyd, ac mae lle i wneud hynny, a chreu mwy o bosibiliadau ar gyfer comisiynu, arddangos, cynorthwyo a hybu proffil ein hartistiaid cyfoes.

3.85 Yr ydym yn cael ar ddeall bod Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru'n rhoi ystyriaeth i'r prosiect hwn a **gofynnwn i'r corff hwnnw roi arweiniad clir a rhagweithiol yn y ddadl a cheisio ymgynghori'n adeiladol â'r cyhoedd.**

**Celfyddydau'r Cyfryngau**

3.86 Mae cysylltiad cryf rhwng Celfyddydau'r Cyfryngau a'r Celfyddydau Gweledol fel rhan o'n diwydiannau diwylliannol cryf a'n diwylliant gweledol bywiog. Bu Delweddau Symudol a Ffilm yn rhan ganolog o ddiwylliant gweledol poblogaidd a thrwy ei hactorion a'i gwneuthurwyr ffilmiau, mae Cymru wedi cael dylanwad rhyngwladol cryf ar sail traddodiad byr ond clodwiw.

3.87 Cafwyd cryn dipyn o lwyddiant yn sgil y cysylltiadau agos rhwng darlledu a ffilm a chysylltedd dyheadau'r rhai sy'n creu, y diwydiant a chomisiynwyr y BBC, HTV ac S4C. Yn ddiweddar, daeth Sgrin - Asiantaeth y Cyfryngau yng Nghymru - yn rhan o'r darlun, a gwnaeth lawer o waith gwerthfawr i symbylu talent newydd, er y bu'n canolbwyntio hyd yma ar ffimiau byr, addysg ac arddangosfeydd.

3.88 Gall dramâu teledu greu ysbrydoliaeth greadigol a swyddi, a sefydlwyd clwstwr o artistiaid a chwmnïau annibynnol. Gall Cymru hefyd fod yn falch o'i llwyddiannau ym myd animeiddio a'i chyfoeth o dalent creadigol; meddyliwn am enwebiad Oscar S4C am "Chwedlau Caergaint", "Gogs"' gwaith Cartwn Cymru a'r doniau sy'n llifo o ysgol ffilm Prifysgol Cymru, Casnewydd. Mae animeiddio'n ddiwydiant diwylliannol yng Nghymru a chanddo botensial rhyngwladol aruthrol. Dyma agwedd ar Gelfyddydau'r Cyfryngau y dylem fod yn falch ohoni a cheisio'i datblygu.

3.89 Teimlodd y Cyfryngau effaith lawn technoleg ddigidol yn fwy na'r un diwydiant arall. Mae wedi ysgogi creadigrwydd, wedi herio arferion ac wedi dechrau peri newid aruthrol. Dyma gyfnod hynod gyffrous ac mae'n rhaid i Gymru gymryd ei lle yng nghyd-destun y datblygiadau hyn. Fodd bynnag, rydym eisoes yn llithro y tu ôl i bawb arall.

3.90 Mae gan ein darlledwyr felly rolau a chyfrifoldebau pwysig o safbwynt sicrhau llais cryf yn y datblygiadau digidol a manteisio ar ryngwyneb Celfyddydau'r Cyfryngau ag effaith technoleg ddigidol, a meithrin a chyflymu'r rhyngwyneb hwnnw.

3.91 Mae angen archwilio mentrau yn y cyfryngau newydd i hybu creadigwrydd a datblygu masnachol ledled y sector mewn partneriaeth â chynlluniau technolegol yr asiantaethau priodol. Gall creadigrwydd celfyddydau'r cyfryngau helpu a hybu mentrau presennol a chryfhau clystyrau diwylliannol economaidd. Mae yna gyfleoedd penodol y dylid manteisio arnynt yng ngoleuni amcanion ERDF. **Yr ydym yn argymell**:

- Y dylid hyrwyddo Cymru fel lle da i greu ffilmiau er mwyn denu cynyrchiadau rhyngwladol i ffilmio yng Nghymru ond hefyd er mwyn cydnabod manteision ffilmio i economïau lleol
- mae angen mwy o gydweithio rhwng y tair asiantaeth datblygu ffilm ranbarthol ac un llais cryf yn y farchnad ryngwladol. Mae'n briodol mai Sgrin, sef Asiantaeth y Cyfryngau yng Nghymru, ddylai gyd-drefnu hyn
- mae sylfaen gyllido Sgrin, asiantaeth y cyfryngau yng Nghymru, yn golygu ei bod yn llai dibynnol ar y diwydiant darlledu. Dylid annog Sgrin hefyd i ddatblygu potensial ei Grwp Cyfryngau Newydd a llunio strategaeth newydd gydlynol ar gyfer y cyfryngau gan nodi anghenion y rhan hon o'r sector sy'n datblygu, a'r meysydd hynny a fyddai'n elwa fwyaf ar fuddsoddi cyhoeddus
- dylid annog Sgrin i gyflwyno'i pholisi'n fuan ar gyfer addysg y cyfryngau yn y delweddau symudol a rhoi blaenoriaeth i addysg y cyfryngau ar lefel gynradd. Dylai'r gwasanaeth hwn fod ar gael yn ddwyieithog
- dylid annog Gwyl Ffilmiau Ryngwladol Cymru i ddenu cynulleidfa ehangach a mwy amrywiol o'r tu allan i'r diwydiant ac i'w theithiau sy'n mynd â ffilmiau'r wyl i amryw o leoliadau ledled Cymru
- dylid cydnabod a chefnogi lle animeiddio fel rhan arwyddocaol o ddiwydiant y Cyfryngau yng Nghymru a dylid annog yr Wyl Ffilmiau Ryngwladol i ddatblygu'r wyl fel llwyfan cryf ar gyfer animeiddio yng Nghymru
- dylid cydnabod cyfraniad arwyddocaol S4C i'r ffilm yng Nghymru, ac yn arbennig yr enwebiadau a gafwyd yn ddiweddar ar gyfer gwobrau Oscar. Y gobaith yw y caiff rhaglenni animeiddio a ffilmiau byw eu cadw fel rhan o'u Polisi Theatrig.

**Crefft**

3.92 Mae crefftwyr yn artistiaid, ond maent hefyd am ennill bywoliaeth dda drwy eu doniau. Mae'r sector crefftau yng Nghymru yn un o bwysigrwydd mawr i'n heconomi a'n proffil ond nid yw hynny bob amser wedi'i gydnabod. Mewn oes o arallgyfeirio amaethyddol, mae'r sector yn dod yn fwyfwy pwysig.

3.93 Mae'r Pwyllgor wedi clywed tystiolaeth am ddiffyg strategaeth gyflynol ar gyfer y sector crefftau yng Nghymru ac mae'n teimlo bod hwn yn fwlch y mae angen ei lenwi. Mae'r sector hwn yn ymwneud â byd celf a byd busnes ac **argymhellwn bod Cyngor Celfyddydau Cymru'n cydweithio ag Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru i lunio strategaeth ar**

**gyfer crefftau yng Nghymru, sy'n cydnabod potensial y diwydiant i gyfrannu at dwf diwylliannol ac economaidd.**

## PENNOD 4

## SWYDDOGAETHAU A GWEITHREDU

### Rhagarweiniad

4.1 Er mwyn rhoi'r math o bolisi a nodir yn y ddogfen hon ar waith cred y Pwyllgor bod angen i Gymru fynd ati mewn ffordd gwbl wahanol i'r hyn a wneir ar hyn o bryd. Hyd yma, bu tuedd i ystyried bod gweinyddu a chyllido'r celfyddydau yng Nghymru yn gyfystyr â Chyngor y Celfyddydau, gyda'r gwahanol Lywodraethau'n cilio i'r cefndir. Yn ogystal, ni theimlid bod gan gyrff cyhoeddus eraill a noddir gan y Cynulliad, sydd mewn gwirionedd yn rhan o'r

patrwm celfyddydol a diwylliannol, rôl yn strategaeth a chyfeiriad cyffredinol y celfyddydau.

4.2 Roedd yn amlwg o'r ymatebion a gafwyd i'r adolygiad bod pobl am weld newidiadau sylfaenol, a hynny fel a nodwyd cyn hyn, am dri phrif reswm:

- Y gallai'r Cynulliad fod yn gyfrifol am bennu'r polisi cyffredinol, gan ddiffinio sut y dylid ei roi ar waith, ac am gyllido, neu y dylai fod yn gyfrifol am wneud hynny;
- Mai swyddogaeth y Cynulliad yw arwain y ffordd wrth bennu polisïau a chodi proffil y celfyddydau a diwylliant yng Nghymru gartref a thramor;
- Y dylid rhoi mwy o ran i gyrff eraill, nid dim ond Cyngor Celfyddydau Cymru, yn y broses, ac y dylid gwneud hyn yn agored ac yn glir.

4.3 Mae'r Pwyllgor yn cymeradwyo'r tair egwyddor hon. Yr ydym yn cytuno'n llwyr y dylid ymdrin â'r cyfrifoldeb dros bolisi, y strategaeth ar gyfer ei gyflwyno a'i ariannu, ar wahân. Ar hyn o bryd un corff sy'n gwneud hyn i gyd, ac mae hynny wedi peri dryswch ac ychydig o gyngor ac arweiniad fu i Gyngor y Celfyddydau ynghylch y cyfeiriad cyffredinol. Fel y sonnir isod, credwn mai'r Cynulliad ei hun ddylai wneud hyn drwy egluro polisi cyffredinol ar gyfer diwylliant a'r celfyddydau yng Nghymru. Hefyd, credwn ei bod yn hanfodol i gyrff cyhoeddus eraill a noddir gan y Cynulliad, ynghyd ag awdurdodau lleol, gymryd rhan amlwg drwy bennu cyflymdra a chyfeiriad y celfyddydau yng Nghymru. Ni ddylem barhau i roi pob cyfrifoldeb dros reoli a phennu cyfeiriad diwylliant a'r celfyddydau i Gyngor y Celfyddydau.

4.4 Mae'r adrannau canlynol yn nodi sylwadau'r Pwyllgor ar sut y dylai'r chwaraewyr allweddol ddatblygu a gweithredu 'Diwylliant Cytûn'.

**Rôl y Cynulliad Cenedlaethol**

4.5 Nodir yn *gwellcymru.com* y dylai diwylliant a'r celfyddydau gael lle pendant yn natblygiad polisïau cymdeithasol ac economaidd Cymru'n gyffredinol. Yn ein barn ni - ac yn wir ym marn llawer o'r rhai a ymatebodd i'r ymarfer ymgynghori - i'r Cynulliad y dylid rhoi'r cyfrifoldeb pennaf dros ddiffinio polisïau a blaenoriaethau cyffredinol. Fel a nodwyd gennym, dylid ymdrin â'r gwaith 'lefel uchel' hwn mewn ffordd sy'n hybu partneriaeth ac yn denu pobl i gymryd rhan. Swyddogaeth y Cynulliad yw sicrhau bod pob corff y maes diwylliant a'r celfyddydau a ariennir yn gyhoeddus, gan gynnwys cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, yn cydweithio i gymryd camau i roi'r pum blaenoriaeth polisi allweddol a ddiffiniwyd gennym ar waith.

4.6 Mae'r cyrff a noddir ac a ariennir yn gyfrifol am lunio strategaethau effeithiol ar gyfer gweithredu ar y blaenoriaethau hynny ac ar gyfer pennu'r polisïau gweithredol cysylltiedig. Swyddogaeth Ysgrifennydd y Cynulliad, a gynghorir fel y bo'n briodol gan y Pwyllgor Pwnc, yw sicrhau bod cynlluniau strategol a chorfforaethol pob corff a noddir yn gwneud cyfraniad gwirioneddol i roi blaenoriaethau cyffredinol y Cynulliad ar waith. Nid oes a wnelo Ysgrifennydd y Cynulliad nac ychwaith y Cynulliad ei hunan â phenderfyniadau gweithredol manwl y cyrff hynny ac ni ddylai fod yn gymodwr ar gyfer cyrff a wnaeth gais am grant ac a siomwyd.

4.7 Bydd y Cynulliad bob amser yn dymuno sicrhau bod gan bob corff a ariennir brosesau cadarn ar waith a fydd yn rhoi sicrwydd o ran ansawdd ei benderfyniadau.  Os bydd y systemau hynny'n gweithio'n iawn ac os bwriedir iddynt gyflawni polisïau a blaenoriaethau cyffredinol y Cynulliad, dylid caniatáu i gyrff a noddir fwrw ymlaen â'u gwaith heb ymyrraeth fiwrocrataidd a di-strwythur.  Dim ond drwy roi cylch gwaith clir i gyrff a noddir, a chaniatáu iddynt gyflawni'r cylch hwnnw, y gellir cadw atebolrwydd a chyfrifoldeb clir er budd y cyhoedd.

**Y Cynulliad a Newid Sefydliadol**

4.8 Yn draddodiadol, mae'r Llywodraeth wedi cadw hyd braich oddi wrth y celfyddydau.  Cytunwn â mwyafrif y rheiny a ymatebodd i'r ymgynghoriad, a ddywedodd bod angen cadw'r egwyddor hon.  Serch hynny, fel yr eglurwyd gennym, ni theimlwn y dylid gweithredu'r egwyddor yn yr un ffordd ag o'r blaen.  I ddechrau, yr ydym wedi disgrifio'r polisïau a'r blaenoriaethau cyffredinol y dylid mynd i'r afael â hwy yn y dyfodol - rhywbeth na wnaethpwyd yn glir cyn hyn.  Yn ychwanegol, hoffem weld yr holl agwedd tuag at ddiwylliant a'r celfyddydau yn cael ei hymestyn fel na ystyrir bod Cyngor y Celfyddydau yn llwyr gyfrifol am iechyd ein bywyd celfyddydol a diwylliannol. Ni ddylai weithio heb ryw fath o bartneriaeth â sefydliadau eraill a ariennir yn gyhoeddus sydd â swyddogaethau allweddol yn awr ac yn y dyfodol.

4.9 Er mai prif rôl y Cynulliad yw disgrifio polisïau a blaenoriaethau cyffredinol, mynegodd rhai o'r ymatebwyr ddiddordeb yn y ffordd y gallai'r Cynulliad oruchwylio'r ffordd y cânt eu rhoi ar waith, ac mewn newid sefydliadol ategol. Yn wir cynigiodd rhai y dylid penodi Ysgrifennydd dros Ddiwylliant ynghyd â Phwyllgor Pwnc pwrpasol. Mater i'r Prif Ysgrifennydd yw dosbarthu portffolios, ond rhoddwyd ystyriaeth wirioneddol i'r hyn a gynigiwyd i ni.  Yr oedd yna ganfyddiad bod perygl i'r celfyddydau gael eu gwthio i'r cyrion, bod hynny eisoes wedi digwydd neu y gallai ddigwydd, ac y gallai penodi Ysgrifennydd i ymdrin â diwylliant a'r celfyddydau'n benodol helpu i hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o werth gwirioneddol posibl y celfyddydau'n gyffredinol.

4.10 Awgrymwyd y dylid cynnwys y canlynol ym mhortffolio'r Ysgrifennydd dros Ddiwylliant:

Y Celfyddydau
Diwydiannau Creadigol
Llyfrgelloedd
Amgueddfeydd
Y Cyfryngau
Darlledu
Chwaraeon
Hamdden
Twristiaeth
Yr Iaith Gymraeg
Materion y loteri
Yr amgylchedd adeiledig; CADW

4.11 Mae'r syniad o gael Ysgrifennydd dros Ddiwylliant yn ddeniadol, gan y byddai'n codi proffil diwylliant a'r celfyddydau yng Nghymru, ac yn dangos bod y Cynulliad yn cydnabod eu pwysigrwydd sylfaenol. Serch hynny ni fyddai penodiad o'r fath, ynddo'i hun, yn cyflawni un o brif amcanion y Pwyllgor, sef gweithredu polisi'r Cynulliad ar gyfer diwylliant a'r celfyddydau yn helaeth gan gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad. Nid ydym yn cynnig bod y Cynulliad ei hun yn ymwneud â darparu cyllid; cyfrifoldeb y cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad yw hynny a dylid cadw materion o'r fath ar wahân i fyd gwleidyddiaeth. Byddai'n well i asiantaeth arbenigol briodol ymdrin â hwy.

4.12 Fodd bynnag, os yw'r Cynulliad mewn gwirionedd am gydnabod pwysigrwydd ein diwylliant a'r celfyddydau, **argymhellwn y dylai'r Prif Ysgrifennydd atgyfnerthu cyfrifoldebau'r Cynulliad yn hyn o beth, a rhoi ystyriaeth ddwys i benodi Ysgrifennydd penodol dros Ddiwylliant.**

**Y Consortiwm Diwylliannol - Cymru'n Creu**

4.13 Un egwyddor sy'n ganolog i'n hadroddiad yw y dylid rhoi ein polisïau a'n blaenoriaethau ar gyfer y celfyddydau a diwylliant ar waith ar sail partneriaethau a chydweithio rhwng y cyrff perthnasol a ariennir yn gyhoeddus. Fel y soniwyd eisoes, rydym o'r farn ei bod yn bwysig cyflwyno siâp a strwythur newydd i'r symudiad newydd hwn. Nid yw'n rhesymol disgwyl i Gyngor y Celfyddydau wneud hyn ar ei ben ei hun. Am y tro cyntaf felly, mae'r adroddiad hwn yn trafod polisi ar gyfer y celfyddydau a chanddo sail ddiwylliannol lawer ehangach. I'r perwyl hwnnw, rhaid inni fanteisio i'r eithaf ar sgiliau, adnoddau a gwybodaeth yr holl gyrff perthnasol a ariennir yn gyhoeddus - ymysg llawer o gyrff eraill.

4.14 **O ganlyniad, hoffem wahodd Ysgrifennydd y Cynulliad i weithredu ar ein hargymhelliad i sefydlu consortiwm diwylliannol** - **Cymru'n Creu** - a fyddai'n cynnwys yr holl gyrff cyhoeddus perthnasol a noddir gan y Cynulliad - yn eu mysg Bwrdd Croeso Cymru, Awdurdod Datblygu Cymru, Cyngor Addysg a Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru a Chyd-bwyllgor Addysg Cymru, ynghyd â Chyngor y Celfyddydau, y Cyngor Chwaraeon, darlledwyr, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a chynrychiolwyr y cyrff ambarél. Dylai'r consortiwm gynrychioli diddordebau ehangach y sector gwirfoddol ynghyd â'r diwydiannau creadigol, ac ni ddylid ffurfio'i aelodaeth ar sail gynrychioliadol yn unig.

4.15 Dyma un ffordd o ehangu'r diddordeb yn y maes a datblygu'r drafodaeth fywiog ar y celfyddydau a diwylliant yng Nghymru a ysgogwyd gan ein hadolygiad, ac a gyfrannodd mor helaeth ato. Dyma ffordd wirioneddol ddefnyddiol o osgoi'r problemau sydd ynghlwm wrth ganoli, a ffordd o sicrhau bod y cyrff a noddir gennym yn parhau i ganolbwyntio ac i gydweithio. Credwn ei bod yn hanfodol mai Ysgrifennydd y Cynulliad ddylai fod yn gadeirydd, ac y dylid sefydlu ysgrifenyddiaeth benodol i gynorthwyo'r Consortiwm â'i waith. **Argymhellwn y dylai swyddogaeth a chylch gwaith cychwynnol Cymru'n Creu ei alluogi i**:

- Ddarparu **fforwm** ar gyfer trafod cyfleoedd neu broblemau penodol; cefnogi gweithredu ar ffurf partneriaeth; a darparu llif o wybodaeth agored rhwng y cyrff dan sylw a Chyngor y Celfyddydau ac, yn y pen draw, ag Ysgrifennydd y Cynulliad.

- Rhoi cyfle rheolaidd i bob corff ystyried a oes modd iddo gyd-drefnu'i **gynlluniau ar gyfer y dyfodol** gydag o leiaf un o'r cyrff eraill, er mwyn atgyfnerthu'r gefnogaeth ar gyfer dysgu gydol oes, datblygiadau diwylliannol, mewnfuddsoddi, hyrwyddo allforio, a datblygu twristiaeth.

- Sicrhau bod data cwbl ddiweddar, credadwy a defnyddiol ar y diwydiannau creadigol ar gael cyn gynted ag y bo modd.

- Sicrhau y defnyddir y **technolegau newydd** mewn modd mwy effeithiol ar gyfer cynllunio a marchnata ar y cyd, a hyrwyddo gwerthiant.

- Parhau i adolygu **effaith economaidd** y sector diwylliannol; ymchwilio i'r meysydd gwan; a darparu cymorth technegol i fentrau bach a chanolig sy'n ehangu ac yn datblygu yn y sector.

- Cynorthwyo i gynyddu cyfraniad y diwylliannau creadigol i'r mentrau **partneriaeth** o dan Amcan 1 a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF).

- Gweithredu ar **argymhellion perthnasol yr adroddiad hwn** a dderbynnir gan Ysgrifennydd y Cynulliad, ac a gymeradwyir gan y Cynulliad mewn cyfarfod llawn.

4.16 Rydym yn hynod awyddus i sicrhau bod y consortiwm yn rhoi'r sylw dyledus i botensial y Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu newydd. Yn ddiau, mae gan TGCh swyddogaeth hanfodol i gryfhau bywyd cymdeithasol ac economaidd Cymru. Mae'r cydsymud presennol ym meysydd teleffoni, y cyfryngau darlledu a chyfrifiadureg yn cynnig cyfleoedd neilltuol ar gyfer buddsoddi, arloesi, ehangu mynediad a datblygu creadigrwydd. Fodd bynnag, credwn y dylai'r Cynulliad ymdrechu'n barhaus i sicrhau cyfleoedd digonol i bawb fanteisio ar y datblygiadau newydd ym maes TGCh. Rydym yn gwybod am y gwaith pwysig y mae'r Pwyllgor Addysg Cyn 16 Oed, Ysgolion ac Addysg Gynnar yn ei wneud yn y maes hwn, ac mae'n bwysig bod y gwahanol fentrau hyn yn gweithio mewn cytgord.

- **Yn benodol, rydym yn argymell y dylai'r buddsoddiad arfaethedig mewn TGCh gan y Cynulliad Cenedlaethol mewn ysgolion, addysg uwch, addysg bellach, llyfrgelloedd, amgueddfeydd a chanolfannau cymunedol, gynnig mannau cyswllt sydd wedi'u dosbarthu'n deg, a'u hysbysebu'n eang er mwyn galluogi pawb yng Nghymru i gysylltu â'r cymunedau a'r ymarferwyr artistig.**

- **Gyda hyn mewn golwg, credwn y dylid sefydlu 'siop un stop' ar y rhyngrwyd i grynhoi gwybodaeth ar yr holl gyrff diwylliannol a chelfyddydol yng Nghymru a ariennir yn gyhoeddus, yn ogystal â gwasanaethau archebu a gwerthu (a fyddai hefyd yn cynnig cyfleoedd ym maes cyflogaeth a hyfforddiant ). Y bwriad yw sefydlu 'Cymru greadigol ar-lein' - gan fynd ati'n unswydd i gysylltu gweithgareddau a gwasanaethau sefydliadau sydd, ar hyn o bryd, yn gweithredu ar wahân ac felly'n methu â chyrraedd eu llawn botensial drwy gyfrwng cydweithio.**

- **Rydym hefyd yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cynulliad wahodd y darlledwyr digidol - a'r coleg digidol yn arbennig - sy'n rhoi mynediad uniongyrchol i'r rhyngrwyd yn y cartref drwy gyfrwng eu technoleg, i hysbysebu'r wefan gelfyddydol a diwylliannol i'w holl ddefnyddwyr, ac yn enwedig yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig.**

4.17 Credwn hefyd y dylai'r consortiwm diwylliannol newydd edrych ar ffyrdd o ehangu'r cyfleoedd a gynigir gan sefydliadau megis Menter Greadigol a Menter Gymunedol i'n cymunedau celfyddydol o ran darparu **cyngor a gwasanaethau dysgu a sgiliau**, ynghyd ag annog canolfannau eraill ym maes sgiliau a dysgu i'w cefnogi (megis Teledwyr Annibynnol Cymru (TAC), Cyfle, ac Addysg Bellach ac Addysg Uwch). Dylai hyn, yn ei dro, arwain at ddatblygu cyfleoedd newydd i astudio ffurfiau celfyddyd drwy gyfrwng TGCh.

4.18 I ategu'r gwaith hwn, ein gobaith yw y bydd y cyfryngau darlledu a'n sefydliadau celfyddydol yn dysgu oddi wrth y naill a'r llall wrth greu cynnwys cyffrous i'w ddosbarthu drwy'r gwahanol gyfryngau electronig. Tra bo'r ffiniau traddodiadol rhwng ffurfiau celfyddyd a'r cyfryngau yn parhau i newid, bydd gan bobl greadigol - o animeiddwyr i gynllunwyr gemau; o awdurdon ac actorion i gyfarwyddwyr a cherddorion - oll y cyfle i ddefnyddio'u doniau mewn ffyrdd newydd. Rydym yn awyddus i'w gweld yn ffynnu, a dylai'r consortiwm arfaethedig chwarae rhan bwysig yn y llwyddiant hwnnw.

**4.19 Wedi hynny, argymhellwn y dylai'r consortiwm roi cyfle i'r cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad drafod cyfleoedd ar gyfer datblygu polisi strategol i Gymru, i'w ystyried gan Ysgrifennydd y Cynulliad, yng ngoleuni cyngor addas gan y Pwyllgor hwn. Credwn y bydd y dull hwn yn hanfodol wrth i'n 'Diwylliant Cytûn' fwrw'i wreiddiau. Er nad ydym yn amau annibyniaeth yr asiantaethau unigol, wrth weithredu ar y cyd fel hyn, credwn fod ganddynt y potensial i ddod â chryn fanteision i Gymru.**

### Asiantaeth y Celfyddydau

4.20 Cynhaliwyd ein hadolygiad ar adeg pan fu llawer o drafod - ac nid yn unig ymysg ymarferwyr - ynghylch perfformiad Cyngor y Celfyddydau. Yn ystod y broses ymgynghori, mynegwyd nifer o bryderon dro ar ôl tro. Teimlai llawer fod angen gweddnewid y Cyngor, gan ganolbwyntio ar rai agweddau penodol, sef:

- y gred ei fod yn gweithredu mewn dull caeedig, yn arbennig mewn perthynas â'r broses ymgynghori ac wrth ddarparu adborth ynglyn â phenderfyniadau grant;
- ei strwythur ymddangosiadol fiwrocrataidd, diymateb a chymhleth o ran rheolaeth;
- ei ddiffyg cyfeiriad wrth ennyn a chynnal hyder y cymunedau hynny y dylai weithio â hwy mewn partneriaeth;
- ei ymagwedd ganolog, a allai beri iddo bellhau oddi wrth yr ymarferwyr a'r cynulleidfaoedd;
- y lefel o fuddsoddi a wneir ganddo mewn cwmnïau proffil-uchel.

4.21 Nid diben yr adolygiad oedd asesu perfformiad Cyngor y Celfyddydau. Fodd bynnag, rhaid inni gydnabod cryfder a difrifoldeb y pryderon a fynegwyd i'r Pwyllgor am y modd yr honnir i'r Cyngor weithredu, fel a nodir uchod.

4.22 Ein prif amcan yw sicrhau bod **holl** asiantaethau'r Cynulliad sy'n ymwneud â diwylliant a'r celfyddydau yn cydweithio er mwyn datblygu polisi ar gyfer y celfyddydau a chanddo sail ddiwylliannol lawer ehangach. Fodd bynnag, ym marn y Pwyllgor, dylid darparu sylfaen gadarnach i Gyngor y Celfyddydau os yw am chwarae rhan lawn fel asiantaeth y Cynulliad dros y Celfyddydau, a hynny oddi mewn i Cymru'n Creu, ac yn annibynnol.

4.23 Rhaid iddo arddangos arweiniad creadigol, ennyn hyder y gymuned gelfydddol, a dyrannu cyllid cyhoeddus yn effeithiol. Rydym yn cydnabod na chafodd Gyngor y Celfyddydau arweiniad eglur gan y Cynulliad yn y gorffennol. Ein gobaith yw y gellir cynnig llawer mwy o arweiniad i'r Cyngor ynglyn â'r cyfeiriad cyffredinol y dylai ddilyn, a hynny'n rhannol drwy'r polisi a ddatblygir gan y Cynulliad ar gyfer y celfyddydau a diwylliant yng Nghymru, ond yn fwy penodol, drwy gyfrwng y llythyr cylch gwaith blynyddol gan Ysgrifennydd y Cynulliad.

4.24 Mae adroddiad yr adolygiad rheoli annibynnol ar Gyngor y Celfyddydau (Adroddiad Wallace), a gomisiynwyd gan Ysgrifennydd y Cynulliad, Tom Middlehurst AC, yn cadarnhau'r farn hon. Yn wir, roeddem ninnau, yn annibynnol, wedi dod i'r un casgliadau ag a fynegwyd yn yr adroddiad hwnnw.

4.25 Rydym am i Ysgrifennydd y Cynulliad gymryd yr awenau yn y gwaith o ddiwygio Cyngor y Celfyddydau - credwn yn gryf na ellir rhoi'r gwaith hwn i staff presennol Cyngor y Celfyddydau. Argymhellwn y dylid sefydlu Tasglu, wedi'i benodi gan Ysgrifennydd y Cynulliad ac yn atebol iddo, a fydd yn defnyddio arbenigedd sydd eisoes yn bodoli. Bydd y Pwyllgor am gael gwybod ar adegau priodol am y gwaith o sefydlu'r Tasglu a rhoi argymhellion Adroddiad Wallace ar waith wedi hynny.

4.26 Wrth gefnogi'r egwyddor y dylid gwahanu'r polisi, y strategaeth a'r swyddogaethau ariannu ac wrth argymell y dylai'r Cynulliad roi arweiniad ar bolisi ond gan gadw pellter hyd braich, yna daw'n amlwg bod angen asiantaeth ar gyfer y celfyddydau.

4.27 Rydym yn cymeradwyo argymhellion Wallace i raddau helaeth, ond gan awgrymu y dylai asiantaeth gelfyddydau'r Cynulliad:-

I. **fod yn gyfrifol am benderfyniadau ynghylch pa fentrau artistig y dylid eu cefnogi, a hynny o fewn polisïau a blaenoriaethau'r Cynulliad**
II. **meddu ar y treiddgarwch a'r gallu artisitig ac ariannol sy'n hanfodol ar gyfer gwneud y penderfyniadau hynny**
III. **sicrhau bod yr holl gynigion, waeth beth fo'u safon artisitig, yn gadarn yn ariannol ac yn rheolaethol**
IV. **cefnogi datblygiadau newydd ac arloesol**
V. **cynnig cyngor a chymorth i sefydliadau ac unigolion sy'n cyflwyno cynigion sy'n dda yn eu hanfod, ond y bydd angen cymorth arnynt i'w gwireddu'n ymarferol.**

4.28 Yn anad dim, credwn y dylai asianateth gelfyddydau'r Cynulliad adlewyrchu polisïau'r Cynulliad ac ymateb i nodweddion y celfyddydau a'r gymuned ehangach y mae'n ei gwasanaethu. Nid rhywbeth disymud yw ein diwylliant a'n celfyddydau ac, os yw'r Cynulliad am ddangos ymrwymiad a chefnogaeth gwirioneddol, yna ni ddylai diffyg adnoddau effeithio ar waith asiantaeth y Cynulliad.

4.29 Nid oes gan gymuned y celfyddydau hawl otomatig i ddisgwyl derbyn arian cyhoeddus ar gyfer ei weithgareddau. Fodd bynnag, credwn y dylai'r Cynulliad sicrhau bod parhad y gweithgareddau hynny yn un o'i flaenoriaethau, a chredwn hefyd y byddai buddsoddi addas yn cyfoethogi Cymru fel cenedl ac yn ehangach gerbron y byd.

4.30 Yn olaf, rydym yn pryderu bod y Siarter Frenhinol sy'n llywodraethu Cyngor y Celfyddydau yn cyfyngu ar waith y Cynulliad. Ni chredwn bod patrwm y Siarter Frenhinol yn addas yn yr hinsawdd wleidyddol newydd. Credwn y dylai asiantaeth y celfyddydau fod yn uniongyrchol atebol i'r Cynulliad fel Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, ond y dylai barhau i weithredu'n unol ag egwyddor hyd braidd gyffelyb. Gofynnwn i Ysgrifennydd y Cynulliad ystyried goblygiadau rhoi'r newid hwn ar waith.

**Awdurdodau Lleol**

4.31 Cred y Pwyllgor fod gan yr Awdurdodau Lleol swyddogaeth hanfodol i'w chwarae wrth feithrin a chefnogi gweithgareddau diwylliannol yng Nghymru. Roedd cyflwyniad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) hefyd yn dangos eu parodrwydd i ymgymryd â'r swyddogaeth hon. Credai'r gymdeithas y dylai'r awdurdodau lleol allu "neilltuo digon o gyllid i gynorthwyo theatrau ac oreilau, canolfannau celfyddydau, amgueddfeydd a llyfrgelloedd, canolfannau a neuaddau cymunedol, yn ogystal â darparu swyddogion datblygu."

4.32 **Rydym yn awgrymu y dylai Ysgrifennydd y Cynulliad drafod hyn ymhellach gyda'r Ysgrifennydd Cyllid, ac y dylent hefyd ystyried cais Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i roi sylw amlycach i'r celfyddydau yn y fformiwla cyllido SSA**. Wrth ystyried prinder yr ystadegau ynglyn â

gwariant yr awdurdodau lleol ar y celfyddydau, rydym yn argymell y dylid comisiynu gwaith ymchwil er mwyn darparu sylfaen gadarnach iddynt gyflwyno'u hachos.

4.33 **Awgrymodd CLlLC hefyd y dylid sefydlu rhwydwaith o swyddogion datblygu i weithio mewn cymunedau**. Rydym yn cytuno â'r cysyniad hwn, ac yn awgrymu y dylai CLlLC ddatblygu'u cynigion ymhellach, gan gydweithio'n agos â Phwyllgorau Rhanbarthol Cyngor y Celfyddydau. Byddai'r math hwn o gydweithio'n arbennig o fuddiol mewn perthynas â defnyddio Cronfeydd Strwythurol Ewrop.

4.34 Ymhellach, credwn bod angen i'r awdurdodau lleol weithio mewn partneriaeth glòs gyda phwyllgorau rhanbarth Cyngor y Celfyddydau a fydd wedi'u hatgyfnerthu ac hefyd, ar lefel genedlaethol, y dylent gael eu cynrychioli ar Cymru'n Creu.

## Sicrhau Rhagoriaeth

4.35 Mae'r Pwyllgor eisoes wedi clywed fod y gair "rhagoriaeth" yn y celfyddydau'n air braidd yn annelwig a ddefnyddir yn aml, ond sydd heb lawer o sylwedd iddo. Rhaid inni sicrhau mai un o'n prif amcanion ar gyfer ein cymunedau yw mynd ar drywydd profiadau ym myd y Celfyddydau sy'n rhagorol ac o ansawdd uchel. Mae'n rhaid mesur, monitro ac asesu ansawdd ac effaith y profiadau hynny. Os ydym am gyflawni'r gorau i Gymru, yna mae'n rhaid inni asesu gwerth mewn modd sensitif, a sefydlu amcanion ansoddol eglur. Felly, mae'n rhaid inni ystyried rhagoriaeth yng nghyd-destun cymaryddion addas. Yn rhy aml mae cymuned y celfyddydau ei hun yn defnyddio'r term 'rhagoriaeth' fel dull marchnata, heb fod yn derm ac iddo ystyr penodol. Yn ogystal, nid yw rhagoriaeth wedi'i gyfyngu i'r ffurfiau celfyddyd mwyaf dethol na'r drutaf. Y ddelfryd yw sicrhau y gall holl bobl Cymru brofi, a chael cyfle i gymryd rhan mewn Celfyddydau o ansawdd uchel.

4.36 Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol fagu uchelgais i godi safon, ansawdd ac effaith gweithgareddau ym maes y celfyddydau dros y degawd nesaf. Rhaid gwneud hyn ym mhob maes, gan astudio a monitro pob arbenigedd a thrafod â'r ymarferwyr, y rhai sy'n cymryd rhan a'r cynulliedfaoedd. Dylai Cymru ymdrechu i sicrhau rhagoriaeth yn y celfyddydau, ond gan fod yn ymwybodol o'r gwahanol ffyrdd y gellir mesur gwerth. Er mwyn llwyddo, rhaid pennu safonau rhagoriaeth y gellir eu deall, a'u mesur, a sicrhau bod modd anelu atynt a'u cyrraedd. Fodd bynnag, rhaid pwysleisio bod llawer o gynnwys y sector diwylliannol yng Nghymru yn haeddu canmoliaeth, ei fod o safon uchel, yn arbrofol ac yn haeddu'r term a ddefnyddir yn fynych, ac a ddiffinnir mor aml yn anghywir, sef "rhagorol".

- **Credwn y dylai cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad yn y sector diwylliannol ymroi i godi safonau a bod rhaid iddynt roi systemau monitro effeithiol ar waith. Argymhellwn y dylai'r cyrff cyhoeddus hyn, fel rhan o'r broses cynllunio corfforaethol, gyflwyno cynigion i'w hystyried gan Ysgrifennydd y Cynulliad.**

**Ariannu**

4.37 Yn ystod ein hymgynghoriad, mynegodd nifer sylweddol o ymatebwyr bryderon dybryd ynghylch lefel y cyllid cyhoeddus ar gyfer y celfyddydau yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

4.38 Mae'r sector yn wynebu tair problem ariannu bwysig. Yn gyntaf, mae lefel y buddsoddi cyffredinol gan yr awdurdodau lleol wedi gostwng yn sylweddol, sydd efallai yn adlewyrchu problemau'r bartneriaeth gyda Chyngor y Celfyddydau. Yn ail, mae cyllid y loteri yn ei hanfod yn arian ychwanegol at gyllid y rhaglenni ac, ar yr ochr refeniw, mae'r cyllid wedi'i gyfyngu i fentrau newydd a ariennir ar gyfer y tymor byr. Cyfyngwyd y cyllid ar gyfer rhaglenni gan Gyngor y Celfyddydau, ac felly mae'r ymarferwyr yn ei chael hi'n anodd i gynnal datblygiadau newydd heb effeithio'n andwyol ar eu gweithgareddau craidd. Golyga hyn bod perygl na ellir cynnal y rhaglenni dilynol, a gychwynnwyd gan arian y loteri, nac ychwaith y gweithgareddau craidd eu hunain heb anhawster a heb ymyrryd â'r bwriad gwreiddiol. Yn drydydd, mae'r rhagolygon ar hyn o bryd yn dangos y disgwylir y bydd arian y loteri a fydd ar gael i Gyngor y Celfyddydau yn gostwng yn raddol yn y dyfodol.

4.39 Os bydd awdurdodau lleol yn parhau i wario llai, ac os na welir cynnydd yng nghymorth grant Cyngor y Celfyddydau, dim ond tri dewis fydd yn wynebu'r Cyngor. Gall fynd ati i geisio ariannu'r cwmnïau a'r ymarferwyr presennol ond byddai gwneud hynny yn debygol o waethygu eu problemau ariannol a'u problemau gweithredu. Neu fe all ganolbwyntio ar ariannu llai o gwmnïau – ond byddai hynny yn ei gwneud hi'n anodd i'r Cyngor chwarae ei ran yn y gwaith o wireddu'r polisïau a'r blaenoriaethau yr ydym yn eu hargymell. Yn olaf gallai fynd ati i wireddu dau neu dri o brif bolisïau a blaenoriaethau'r Cynulliad – ond byddai i hynny oblygiadau difrifol iawn o safbwynt hyfywedd y cwmnïau cenedlaethol eu hunain.

4.40 Yr ydym yn argyhoeddedig bod angen i ni, os ydym am wireddu argymhellion yr adroddiad hwn a gofynion newydd y Cynulliad, gynyddu yn raddol waelodlinau cyrff cyhoeddus a noddir ym maes y Celfyddydau a Diwylliant. Nid ydym yn credu y dylai unrhyw gorff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad dderbyn ychwanegiad 'canlyniadol' neu fformwläig i'w waelodlin. Yn hytrach dylid diffinio'n glir pa ganlyniadau y disgwylir ganddynt gam wrth gam yn gyfnewid am unrhyw fuddsoddiad newydd, yn unol â *gwellcymru.com* a pholisïau a blaenoriaethau cyffredinol y Cynulliad fel y cânt eu hamlinellu yn yr adroddiad hwn. Bydd gweithredu fel hyn yn hynod o bwysig yn achos Cyngor y Celfyddydau. Mae'r Cyngor yn wynebu amryw o broblemau unigryw. Yn ein barn ni, dylid defnyddio cylch cynllunio presennol y gyllideb fel cyfle i ddiffinio yr hyn y byddwn yn ei ddisgwyl gan y Cyngor gam wrth gam yn ystod y cyfnod cynllunio.

4.41 O ystyried yr anawsterau y mae'r Cyngor wedi eu hwynebu, ni ddylid tybio y byddant yn derbyn atodiadau blynyddol i'w cyllid yn otomatig. Dim ond os bydd y Cyngor yn gallu dangos yn glir ei fod ar y ffordd i wireddu'r

canlyniadau y disgwylir ganddo flwyddyn ar ôl blwyddyn y dylid rhoi arian o'r fath. Ar hyn o bryd rydym o'r farn y dylid cyflwyno darpariaeth gyllido â graddiant hynod o serth ar gyfer blynyddoedd 2 a 3 o gylch cynllunio presennol y gyllideb. Ni ddylem osod targedau rhy uchelgeisiol nad oes modd i'r Cyngor eu cyflawni. Er hynny dylai'r Cyngor fod yn gwbl ymwybodol o'r hyn yr ydym yn ei ddisgwyl ganddo, a'i bartneriaid, bob cam o'r ffordd. Yn gyffredinol, rydym yn argymell y dylid mynd ati yn gwbl ddiamwys i gydnabod pwysigrwydd cyfraniad gweithgareddau cymunedol, gweithgareddau ar lawr gwlad a gweithgareddau gwirfoddol i ddatblygiad y celfyddydau a diwylliant yng Nghymru.

4.42 Bydd hyn yn esgor ar oblygiadau i'r cwmnïau cenedlaethol. Yn ein barn ni dylai'r cwmnïau hynny, ar yr amod eu bod yn perfformio yn foddhaol a bod adnoddau ar gael, dderbyn cynydd mewn termau real ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod. Ni fydd hyn yn bosibl oni roddir cryn dipyn yn fwy o arian i Gyngor y Celfyddydau yn ystod y cyfnod cynllunio. Fodd bynnag, ni fyddem yn disgwyl i gyfran arian y Cyngor a ddynodir i'r cwmnïau hynny gael ei chynnal ar y lefel gyfredol. Mae'n rhaid cael rhywfaint o hyblygrwydd yn y ddarpariaeth ar gyfer cwmnïau cenedlaethol, ond nid gormod fel ei fod yn llesteirio'r gallu i gyflawni polisïau a blaenoriaethau newydd y Cynulliad.

4.43 **Yn wir, rydym yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cynulliad sicrhau bod yr ystwythder hwn ar gael ar gyfer ystod lawer ehangach o gelfyddyd gymunedol ac ymarferwyr**. Yn ein barn ni mae datblygiad o'r fath yn hanfodol i iechyd a llwyddiant ein cwmnïau cenedlaethol yn y dyfodol. Hoffem weld cysylltiadau yn cael eu hadfywio a'u cynnal fel bod modd i'r gweithgareddau lleol gorau fwydo i mewn i weithgareddau rhanbarthol, a'r gorau ar lefel ranbarthol fwydo i mewn i'r lefel genedlaethol – gan gwmpasu ymarferwyr o bob oed, ond yn arbennig, efallai, yr ifanc. Yn y bôn hoffem weld bod gofyn i sefydliadau cenedlaethol a rhanbarthol ddatblygu cenhadaeth ychwanegol fel eu bod yn gweithredu fel adnodd ar gyfer talent, ac yn defnyddio talent ledled Cymru. Byddem yn disgwyl gweld y systemau cyllid yn cael eu haddasu i sicrhau bod y cysylltiadau o weithgareddau cymunedol a gweithgareddau lleol i rai rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol yn cael eu cynnal yn fwriadol ac yn gyson.

### Targedau, monitro a gwerthuso

4.44 O ganlyniad i argymhellion yr adroddiad hwn, **bydd y cyrff cyhoeddus priodol a noddir gan y Cynulliad am adolygu eu nodau a'u hamcanion fel eu bod yn adlewyrchu ein polisïau a'n blaenoriaethau**. Wrth iddynt wneud hynny, byddem hefyd yn disgwyl i gyrff a noddir bennu targedau ystyrlon a mesuradwy yn eu cynlluniau corfforaethol. Bydd y Pwyllgor am gael gwybod am y datblygiadau tuag at gyrraedd y targedau hyn yn ystod ei sesiynau goruchwylio rheolaidd gyda chyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad a bydd yn adolygu'r broses o roi ei argymhellion ar waith ymhen 3-5 mlynedd.

**Nid yw Pyramid ar gael.**

## CRYNODEB O’R ARGYMHELLION

### Arferion gweithio (para 1.9)

- Mae'r Pwyllgor yn gobeithio y bydd y cyrff cyhoeddus a noddir ganddo'n parhau â'r cyd-drafod a ysgogwyd yn sgil yr adolygiad, fel rhan o broses barhaus o drafod diwylliannol byw ac angenrheidiol.

## POLISÏAU A BLAENORIAETHAU AR GYFER Y CELFYDDYDAU A DIWYLLIANT YNG NGHYMRU

### Yr Egwyddorion wrth wraidd y Polisi yng Nghymru (para 3.1)

- Mae'r Pwyllgor yn cydnabod pwysigrwydd y Celfyddydau a Diwylliant a'u harwyddocâd i gymdeithas yng nghyd-destun dogfen weledigaeth y Cynulliad Cenedlaethol: Gwell Cymru.

- Mae'r Celfyddydau a Diwylliant yn gwella ansawdd bywyd i unigolion a chymunedau; ac yn hyrwyddo cydlyniad cymdeithasol a dinasyddiaeth weithredol. Maent hefyd yn dod â manteision economaidd i Gymru ac yn elfen allweddol o gymdeithas sy'n dysgu. Maent yn cydnabod ac yn datblygu ymdeimlad o draddodiad a gwarchod y gorffennol ar gyfer y dyfodol; maent yn diffinio hunaniaeth; ac yn ymfalchïo mewn Cymru gyfoes, amrywiol, dwyieithog ac aml-ddiwylliannol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

- Mae'r Pwyllgor yn cydnabod rôl bwysig y celfyddydau a diwylliant o ran hyrwyddo lles ac iechyd y corff a'r meddwl.

- Cred y Pwyllgor bod angen buddsoddi mwy yn y celfyddydau a diwylliant er mwyn cael y manteision a nodir uchod; ac y mae hefyd o'r farn y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol bennu'r agenda gyda pholisi clir ar gyfer y Celfyddydau a Diwylliant a'i gwneud yn ofynnol i'w asiantaethau a'i gyrff noddedig gyflawni eu hamcanion polisi. Dylid disgwyl i'r asiantaethau a'r cyrff noddedig hynny weithio mewn partneriaeth â'i gilydd, a chydag eraill, er budd gweithredol y naill a'r llall, a gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau, er mwyn gwireddu polisïau a blaenoriaethau'r Cynulliad.

- Rhaid i gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad sy'n gyfrifol am roi Polisi'r Celfyddydau a Diwylliant ar waith wneud eu gwaith yn agored, yn atebol ac yn glir. Dylai'r cyrff hyn ddefnyddio manteision y technolegau newydd i hysbysu'r cyhoedd o'u strategaethau, eu mentrau a'u penderfyniadau; cyfathrebu ac ymgynghori'n drwyadl ac yn adeiladol - a lle bo'n briodol, gwneud hynny drwy gyfrwng fforymau rhanbarthol; a bod yn atebol i archwiliadau blynyddol drwy gyfrwng y Pwyllgor priodol yn y Cynulliad Cenedlaethol.

- Dylai polisi'r celfyddydau a diwylliant fynd ati yn anad dim i godi safonau a disgwyliadau ar bob lefel ac ymdrechu i sicrhau rhagoriaeth, ond gan gydnabod na ddylai rhagoriaeth olygu elitiaeth.

- Dylid ategu polisi'r celfyddydau a diwylliant gydag ymrwymiad i ddatblygu dwyieithrwydd ledled y wlad.

- Dylid ei gwneud yn ofynnol i holl gyrff y celfyddydau a diwylliant a ariennir yn gyhoeddus ddangos sut y byddant yn cyfrannu at greu Cymru gryfach drwy hybu arbenigrwydd ac amrywiaeth - mewn gwaith, arferion a chyflwyniad.

**Blaenoriaethau ar gyfer y Celfyddydau a Diwylliant yng Nghymru (para 3.2 a 3.6)**

Credwn y dylai blaenoriaethau polisi'r celfyddydau a diwylliant fod fel a ganlyn:

- **pobl ifanc**, a'r cyfleoedd a roddir iddynt drwy gyfrwng addysg a hyfforddiant.
- **cymunedau**, a'r cyfleoedd a roddir iddynt, yn arbennig drwy gyfrwng adfywio cymdeithasol.
- **amrywiaeth ddiwylliannol** a'r cyfleoedd ar gyfer ei meithrin a pheri iddi dyfu.
- **diwydiannau creadigol** a'r cyfleoedd er mwyn iddynt allu tyfu.
- **safonau** a'r cyfleoedd a roddir er mwyn cyrraedd y safonau uchaf ar bob lefel.

Dylai prif bolisïau'r Cynulliad Cenedlaethol yng Nghymru ganolbwyntio ar wireddu:

- ❖ **cyfoeth o ddiwylliant er mwyn cryfhau ein cymunedau;**
- ❖ **amrywiaeth hyderus - gan fanteisio ar ein hunaniaeth a'n harbenigrwydd cadarnhaol;**
- ❖ **gwlad sy'n dysgu ac a gefnogir gan weithgarwch celfyddydol a diwylliannol byw;**
- ❖ **diwydiant blaengar, a diwylliant creadigol;**
- ❖ **uchelgais genedlaethol, a dylanwad rhyngwladol**

## ***DIWYLLIANT CYFOETHOG - CYMUNEDAU CRYF (PARA 3.11)***

- Mae cryn botensial i gelfyddyd gymunedol o safbwynt adfywio
- Dylid ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Celfyddydau Cymru a chyrff diwylliannol eraill a noddir gan y Cynulliad gysylltu eu cynlluniau strategol eu hunain â chefnogi cynlluniau adfywio cymunedol - ac y dylai **gweithgarwch diwylliannol fod yn elfen hanfodol o raglenni adfywio**.
- Dylid gwahodd Ysgrifennydd y Cynulliad i ymgynghori ag Addysg Uwch Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ynghylch posibilrwydd sefydlu **Cadair Celfyddyd Gymunedol** mewn Sefydliad Addysg Uwch yng Nghymru
- Dylai Cyngor y Celfyddydau gydweithio â chyrff cyhoeddus eraill a noddir gan y Cynulliad i edrych ar ffyrdd o roi mwy o gymorth a hyfforddiant i gelfyddyd gymunedol a grwpiau ambarél cysylltiol i ganiatáu iddynt ymdopi â'r broses ymgeisio ac ariannu ar gyfer arian Ewropeaidd ac arian y loteri
- Dylai awdurdodau lleol annog pobl yn y celfyddydau proffesiynol i fod yn hwyluswyr, neu'n ysgogwyr, o fewn eu cymuned.

### Canolfannau celf (para 3.14)

- Dylid gwahodd Ysgrifennydd y Cynulliad i beri i Gyngor y Celfyddydau **adolygu patrwm darpariaeth canolfannau celf.**
- Rydym yn argymell yn gryf y dylid ystyried mynd ati i sicrhau bod pob canolfan gelf sy'n derbyn arian cyhoeddus yn ganolfan ddi-fwg.
- Dylai Ysgrifennydd y Cynulliad beri i'r cyrff cyhoeddus priodol a noddir gan y Cynulliad weithio gyda'r rhwydwaith o ganolfannau celf lleol ac awdurdodau lleol i **gyflwyno trysorau cenedlaethol a lleol yn fwy byw i gymunedau lleol.**

## ***AMRYWIAETH HYDERUS - ARBENIGRWYDD CADARNHAOL***

### Dwyieithrwydd (para 3.23)

- Dylai Cyrff Diwylliannol sy'n derbyn arian cyhoeddus wneud datganiad, fel rhan o'u cais am grant, ynghylch y ffordd y maent yn bwriadu hyrwyddo'r iaith Gymraeg.
- Dylai awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus diwylliannol a noddir gan y Cynulliad gynnal astudiaeth sylfaenol o ddarpariaeth artistig bresennol drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.
- Dylid datblygu partneriaethau rhwng cynlluniau iaith lleol megis mentrau iaith, a chyrff sy'n hyrwyddo'r celfyddydau yn genedlaethol ac yn lleol.

### Cyfle Cyfartal (para 3.25 - 3.27)

- **Dylai Cyngor y Celfyddydau barhau i weithio gydag ymarferwyr mewn cymunedau o leiafrifoedd ethnig, yn unol ag egwyddorion cydnabyddedig cydraddoldeb hiliol.**

- Dylai Ysgrifennydd y Cynulliad ystyried ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff cyhoeddus priodol a noddir gan y Cynulliad weithio gyda Chyngor y Celfyddydau i gynllunio arddangosfeydd, digwyddiadau cymunedol a darllediadau i hybu ymwybyddiaeth yn lleol ac yn genedlaethol ynghylch nodweddion arbennig gwahanol brofiadau diwylliannol grwpiau lleiafrifoedd ethnig a'r ffordd y maent yn cyfrannu at fywyd diwylliannol Cymru gyfan.
- Dylai Cyngor y Celfyddydau weithio gyda'r cyrff cyhoeddus priodol a noddir gan y Cynulliad i adolygu eu polisïau a'u cynlluniau presennol o blaid cyfle cyfartal, a hybu perfformiad y cyrff gwirfoddol a'r cyrff eraill a ariennir ganddynt. Dylai Ysgrifennydd y Cynulliad wahodd y cyrff hyn i bennu targedau cyrhaeddiad realistig, ond uchel.

## ***<u>GWLAD SY’N DYSGU – DIWYLLIANT CYFOETHOCACH (para 3.30-3.31)</u>***

- Dylid gwahodd Ysgrifennydd y Cynulliad dros Addysg i ystyried y manteision a fyddai’n deillio o sicrhau fod y rhai sy’n cael eu hyfforddi i ddarparu addysg a gofal plant yn derbyn hyfforddiant trwyadl mewn chwarae dan gyfarwyddyd a chwarae creadigol, ac yn y ffyrdd gorau o gyflwyno’r gwahanol agweddau ar gelfyddyd i’r plant ieuengaf, gan gynnwys defnyddio dysgu peripatetig yn llawer mwy helaeth; gallai hyn gael ei gryfhau drwy ddefnyddio doniau pobl sydd wedi ymddeol o’u proffesiynau.
- Dylid gwahodd Estyn i gynnal arolwg o lefelau darpariaeth a gweithgarwch celfyddydol yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3.
- Dylid gwahodd ACCAC i adolygu'r **Cwricwlwm Cymreig** er mwyn gweld i ba raddau y dylid creu deunyddiau ategol newydd sy'n berthnasol i'r celfyddydau a diwylliant yng Nghymru.
- Dylai’r gwasanaeth gyrfaoedd, partneriaethau busnes ac addysg, a’r rhai sy’n gweithredu ym maes y celfyddydau gydweithio er mwyn sicrhau mwy o gyfleoedd i gael profiad gwaith (a mwy o wybodaeth am yrfaoedd) yn niwydiannau creadigol Cymru.
- Yn ddibynnol ar yr adnoddau sydd ar gael, dylai’r cyrff diwylliannol a noddir gan y Cynulliad **sicrhau fod pob ysgol yng Nghymru yn cael cyfle i elwa ar o leiaf un cyfle diwylliannol ac artistig mawr bob blwyddyn, un ai ar wahân neu fel rhan o gonsortiwm**, o 2002-2003 ymlaen.
- Dylai'r **polisi ieuenctid** ar gyfer Cymru a gyflwynwyd yn ddiweddar gynnig cyfleoedd newydd i ddatblygu sgiliau yn y gwahanol ffurfiau celfyddyd - gan ddefnyddio arian o'r Gronfa Cyfleoedd Newydd lle bo modd. Dylid peri i bob sefydliad sy'n derbyn arian cyhoeddus ac sy'n ymwneud â'r celfyddydau a diwylliant - gan gynnwys sefydliadau Addysg Uwch ac Addysg Bellach yng Nghymru - ddatblygu polisïau newydd i hyrwyddo doniau Cymreig.
- Dylai Ysgrifennydd y Cynulliad gomisiynu cyrff priodol i adrodd ar ffyrdd o gynnwys a chefnogi mudiadau ieuenctid cenedlaethol yn well yn y dyfodol.
- Dylai cyrff ac unigolion sy’n ymwneud â’r celfyddydau ar hyn o bryd ailasesu eu **polisïau datblygu a recriwtio** er mwyn eu galluogi i ddod i gysylltiad llawn â marchnad lafur gyffredinol Cymru; manteisio i’r eithaf ar

y cyfleoedd i ffurfio partneriaethau y mae Amcan 1 yn eu cynnig; a gwella eu cynlluniau busnes, eu rheolaeth ariannol, a'u gallu i farchnata.

- Dylai Ysgrifennydd y Cynulliad gomisiynu Cyngor Addysg a Hyfforddiant Cymru i gynnal astudiaeth o fformiwla ariannu teg ar gyfer addysg a hyfforddiant ar ôl 16 oed.  Dylai'r astudiaeth gynnwys gweithgareddau allgyrsiol (gan gynnwys gweithgareddau diwylliannol a chwaraeon).

**Cronfa Celfyddyd i Bobl Ifanc (para 3.32)**

- Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid sefydlu cronfa bartneriaeth - "Cronfa Celfyddyd i Bobl Ifanc" - rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat er mwyn sicrhau ffynhonnell ddiogel o gyllid i'r celfyddydau ar gyfer ein pobl ifanc.

**Hyfforddiant a Sgiliau (para 3.36)**

- Dylid cynnal archwiliad o ddarpariaeth hyfforddiant ac addysg ym maes y Celfyddydau.

## ***DIWYDIANT BLAENGAR - DIWYLLIANT CREADIGOL (para 3.39-3.42)***

- Rydym am i ffigurau mwy pendant a diweddar fod ar gael ynghylch iechyd economaidd y diwydiannau creadigol.
- Dylai Ysgrifennydd y Cynulliad ystyried sefydlu **ffordd newydd o weithio fel tîm** a fydd yn cynnwys cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad sy'n gweithredu ym maes diwylliant a'r celfyddydau; Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a chyrff statudol ac anstatudol perthnasol eraill sydd â chylch gwaith penodol er mwyn sicrhau eu bod yn cyfrannu at gynnal ffyniant diwylliannol Cymru, a chynnal momentwm y diwydiannau creadigol eu hunain.

## ***UCHELGAIS GENEDLAETHOL – DYLANWAD RHYNGWLADOL***

**Y Llwyfan Rhyngwladol (para 3.48-3.49)**

Er mwyn gwneud y gorau o'n proffil rhyngwladol sy'n datblygu yn y celfyddydau, rydym yn argymell:

- Y dylid gwneud mwy o ddefnydd o swyddfeydd y Cyngor Prydeinig dramor er mwyn hybu a chefnogi perfformiadau celfyddyd amatur a phroffesiynol.
- Y dylid rhoi hwb o'r newydd i Gelfyddydau Rhyngwladol Cymru. Dylai fod yn ofynnol i gyrff diwylliannol a chelfyddydol yng Nghymru sy'n derbyn arian cyhoeddus gyfrannu at gyflawni ei amcanion o flwyddyn i flwyddyn.
- Y dylid gwahodd **Cyngor Prydeinig Cymru** i gytuno ar strategaeth ar gyfer hyrwyddo cyfleoedd diwylliannol ac addysgol gyda'r holl gyrff addysg, hyfforddi a diwylliant cenedlaethol sy'n derbyn arian cyhoeddus yng Nghymru.

- Y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol ynghyd â Llywodraeth Ganolog y DU ystyried y posibilrwydd o gyfrannu'n uniongyrchol at waith **UNESCO** – yn arbennig trwy brosiect Ysgolion Cysylltiedig y sefydliad hwnnw.
- Y dylid defnyddio mwy ar **Ganolfan Ewropeaidd Cymru** sydd newydd ei hagor.
- Y dylai Ysgrifennydd y Cynulliad ystyried prosesau a fyddai'n gallu dynodi'r unigolion, y cwmnïau a'r gwyliau sy'n cael eu cydnabod ar y llwyfan diwylliannol rhyngwladol yn Llysgenhadon Diwylliannol ac Economaidd ar gyfer Cymru a'i hunaniaeth.
- Y dylai holl Asiantaethau Diwylliannol y Cynulliad gydweithio i greu amgylchedd ymroddgar a ffyniannus er mwyn cael dylanwad diwylliannol ac economaidd ledled y wlad.
- Y dylid edrych ar **deithiau cyfnewid** ar gyfer myfyrwyr, disgyblion a darlithwyr er mwyn sicrhau eu bod yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i hybu ac ymestyn llwyddiannau Cymru yn y celfyddydau.
- Y dylai adeilad newydd y Cynulliad wneud y defnydd gorau posibl o'r lle sydd ar gael ar gyfer perfformio ac arddangos.
- Y dylai Llywydd y Cynulliad ystyried posibilrwydd creu Urdd Artistiaid yng Nghymru.

**Cyrff a chanddynt Gylch Gwaith Cenedlaethol (para 3.57-3.58)**

Dylai'r cwmnïau a chanddynt gylch gwaith cenedlaethol:-

- **feithrin talent y wlad** – yn awduron, cyfansoddwyr, perfformwyr ac artistiaid – ac ymrwymo i ddatblygu talent cynhenid a chynnig cyfleoedd gwaith er mwyn i'r talent hwnnw allu cystadlu am swyddi gartref a thramor
- **cydlynu eu gweithgareddau** er budd proffil rhyngwladol Cymru, hybu twristiaeth, mewnfuddsoddi ac allforio
- **ymroi i rannu adnoddau** er mwyn cael gwell canlyniadau o flwyddyn i flwyddyn
- **cyflwyno amryw droddodiadau artistig y wlad â balchder**, a chynrychioli'r amrywiaeth o bobl yng Nghymru trwy eu strategaethau cyflogi a chyflwyno
- **gosod safonau ar gyfer creadigrwydd cenedlaethol**, a chefnogi ymdrechion artistig yn ein cymunedau
- **cynnig mynediad rhwyddach** i'n trysorau mewn amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau
- **cynnig llwyfannau** ar gyfer ein cynhyrchiant creadigol ac ar gyfer ein hartistiaid
- **chwalu'r rhwystrau i gelfyddyd** ac o fewn ffurfiau celfyddyd
- **cydweithio** gyda'n hasiantaethau economaidd i fod yn llysgenhadon diwylliannol arbennig
- **ymestyn eu presenoldeb ledled Cymru**
- **rheoli eu gwaith yn briodol ac yn effeithlon, gyda goruchwyliaeth briodol gan Gyngor y Celfyddydau**

- **gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau diwylliannol eraill a mentrau preifat** i gynnig y gwerth gorau i bobl Cymru gyfan.

- Mae angen cynnal archwiliad ac asesiad eglur o rôl ein cwmnïau a chanddynt gylch gwaith cenedlaethol yn y sector diwylliannol ledled y celfyddydau. Mae angen mynd ati'n systematig i esmwytho unrhyw orgyffwrdd neu fylchau yn y ddarpariaeth a nodwyd.

**Gwyliau (para 3.60)**

- Gellid gwneud mwy i gysylltu gwyliau, data llety a chyfleoedd twristiaeth eraill mewn rhaglen flynyddol o ddigwyddiadau i'w chyhoeddi ledled y byd ar y rhyngrwyd. Rydym yn argymell y dylai Cymru'n Creu **ymchwilio** i bosibiliadau gwneud y cysylltiadau hyn a **manteisio** arnynt.

**<u>Ffurfiau Celfyddyd</u>**

**Y Celfyddydau Llenyddol (para 3.64)**

- Dylid mynd ati i hyrwyddo awduron a rhoi mwy o gydnabyddiaeth iddynt - gan gynnwys cydnabyddiaeth ariannol.
- Dylid rhoi mwy o gydnabyddiaeth i awduron Eingl-Gymreig yn y Cwricwlwm Cenedlaethol a chodi eu statws.
- Dylid datblygu strategaeth gydlynol ar y cyd â'r diwydiant cyhoeddi i roi mwy o gyfle i awdurdon o Gymru gyhoeddi eu gwaith.

**Y Celfyddydau Perfformio**

**Theatr (para 3.73)**

- Dylid rhoi blaenoriaeth ym maes y theatr yn y blynyddoedd i ddod i feithrin a chryfhau gweithgarwch ar lawr gwlad ledled Cymru, er mwyn creu tradoddiad o ragoriaeth.
- Dylai Cyngor y Celfyddydau adolygu ei Strategaeth Ddrama yng ngoleuni'r flaenoriaeth hon, ac y dylai hysbysu Ysgrifennydd y Cynulliad o'i gynigion erbyn diwedd 2001.

**Dawns a Theatr Gorfforol (para 3.77-3.78 - hefyd 3.81)**

- Dylai Cyngor Celfyddydau Cymru ystyried y gwahanol faterion sy'n ymwneud â dawns yng Nghymru a chomisiynu arolwg neu ymarfer ymgynghori ar yr angen am strategaeth ddawns genedlaethol gydlynol.
- Dylai Cyngor Celfyddydau Cymru weithio ar y cyd â chyrff megis TRAC a Chymdeithas Ddawns Werin Cymru i ddatblygu strategaeth ar gyfer cerddoriaeth a dawnsio traddodiadol a fydd yn caniatáu i genedlaethau'r dyfodol fwynhau ffrwyth eu treftadaeth ddiwylliannol unwaith eto.

**Cerddoriaeth (para 3.80)**

- Dylid sicrhau bod addysg a chreu cerddoriaeth mewn ysgolion yn cael lle priodol yn y cwricwlwm, bod creu cerddoriaeth yn y gymuned yn cael cydnabyddiaeth ddyledus a bod dulliau hyfforddi priodol ar waith i ganiatáu i gerddorion berfformio ac ennill eu plwyf.

**Y Celfyddydau Gweledol (para 3.83)**

- Dylai'r awdurdodau lleol a'r cyrff perthnasol a noddir gydweithio i ystyried creu strategaeth gynhwysfawr ar gyfer y celfyddydau gweledol o safbwynt hybu artistiaid a chasglu, cadw a chyflwyno.
- Dylai'r cyrff a noddir fod yn fwy amlwg ledled y rhanbarthau drwy gyfrwng y rhwydwaith cenedlaethol o orielau a thrwy fanteisio ar bosibiliadau'r cyfryngau digidol.
- Dylai celfyddyd gyhoeddus a phensaernïaeth fod yn elfen bwysig o ddiwylliant gweledol, sy'n effeithio'n uniongyrchol ar yr amgylchedd ac ar ansawdd bywyd.
- Dylid comisiynu astudiaeth i edrych ar yr opsiynau ar gyfer creu oriel ddigidol genedlaethol ar gyfer y celfyddydau gweledol
- Dylai'r asiantaethau priodol ddatblygu strategaeth gydlynol ar gyfer addysg a dysgu celf ac y dylai'r ysgolion celf a dylunio helpu i lunio'r strategaeth honno.
- Dylai Amgueddfa Genedlaethol Cymru roi arweiniad clir a rhagweithiol yn y ddadl ynghylch Oriel Genedlaethol i Gymru a llunio ymarfer ymgynghori adeiladol â'r cyhoedd.

**<u>Celfyddydau'r Cyfryngau (para 3.91)</u>**

- Dylid hyrwyddo Cymru fel lle da i greu ffilmiau er mwyn denu cynyrchiadau rhyngwladol i ffilmio yng Nghymru ond hefyd er mwyn cydnabod manteision ffilmio yn y wlad i economïau lleol.
- Sicrhau bod sylfaen gyllido Sgrin, asiantaeth y cyfryngau yng Nghymru, yn golygu ei bod yn llai dibynnol ar y diwydiant darlledu.
- Dylid annog Sgrin i gyflwyno'i pholisi'n fuan ar gyfer addysg y cyfryngau yn y delweddau symudol a rhoi blaenoriaeth i addysg y cyfryngau ar lefel gynradd. Dylai'r gwasanaeth hwn fod ar gael yn ddwyieithog.
- Dylid annog Gwyl Ffilmiau Ryngwladol Cymru i ddenu cynulleidfa ehangach a mwy amrywiol o'r tu allan i'r diwydiant ac ar gyfer ei weithgareddau teithiol.
- Dylid cydnabod a chefnogi lle animeiddio fel rhan arwyddocaol o ddiwydiant y Cyfryngau yng Nghymru a dylid annog yr Wyl Ffilmiau Ryngwladol i ddatblygu'r wyl fel llwyfan cryf ar gyfer animeiddio yng Nghymru.

**Crefft (para 3.93)**

- Dylai Cyngor Celfyddydau Cymru gydweithio ag Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru i lunio strategaeth grefftau ar gyfer Cymru.

## SWYDDOGAETHAU A GWEITHREDU

### Y prif egwyddorion (para 4.2 a 4.12)

- Y Cynulliad ddylai fod yn gyfrifol am bennu polisïau cyffredinol, ddiffinio sut y dylid eu rhoi ar waith ac ariannu;
- Dylai'r Cynulliad arwain y ffordd wrth bennu polisïau a chodi proffil y celfyddydau a diwylliant yng Nghymru gartref a thramor;
- Dylid tynnu cyrff eraill, ac nid dim ond Cyngor Celfyddydau Cymru, i'r broses, ac y dylid gwneud hyn yn agored ac yn glir.
- Dylai'r Prif Ysgrifennydd ystyried o ddifrif benodi Ysgrifennydd Cynulliad dros Ddiwylliant.

### Y Consortiwm Diwylliannol - Cymru'n Creu (para 4.14)

- Dylid sefydlu Consortiwm Diwylliannol, "Cymru'n Creu" - i ddarparu fforwm, ymysg pethau eraill, ar gyfer trafod cyfleoedd neu broblemau penodol; cefnogi gweithredu ar ffurf partneriaeth; a darparu llif o wybodaeth agored rhwng y cyrff dan sylw a Chyngor y Celfyddydau ac, yn y pen draw, ag Ysgrifennydd y Cynulliad.

### Asiantaeth y Celfyddydau (para 4.27- 4.30)

- Mae'r Pwyllgor o'r farn bod angen asiantaeth dros y celfyddydau.
- Dylai Ysgrifennydd y Cynulliad arwain y gwaith o ddiwygio Cyngor y Celfyddydau ac argymhellir y dylai'r Ysgrifennydd benodi Tasglu i gynorthwyo'r broses hon.
- Mae'r Pwyllgor ar y cyfan yn cymeradwyo'r argymhellion yn adroddiad "Wallace".
- Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod Cyngor y Celfyddydau'n cael ei gyfyngu gan ei Siarter Frenhinol. Credwn y dylai asiantaeth y celfyddydau fod yn uniongyrchol atebol i'r Cynulliad, ond y dylai barhau i weithredu'n unol ag egwyddor hyd braidd gyffelyb. Gofynnwn i Ysgrifennydd y Cynulliad ystyried goblygiadau rhoi'r newid hwn ar waith.

### Awdurdodau lleol (para 4.32-4.33)

- Cred y Pwyllgor fod gan yr Awdurdodau Lleol swyddogaeth hanfodol i'w chwarae wrth feithrin a chefnogi gweithgareddau diwylliannol yng Nghymru.
- Argymhellwn y dylai Ysgrifennydd y Cynulliad drafod gyda'r Ysgrifennydd Cyllid y syniad o neilltuo arian ar gyfer y celfyddydau gan yr awdurdodau lleol.
- Awgrymwn y dylai Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ddatblygu ymhellach eu cynigion ar gyfer rhwydwaith o swyddogion datblygu cymunedol, gan gydweithio'n agos â Phwyllgorau Rhanbarthol Cyngor y Celfyddydau.

**Sicrhau Rhagoriaeth (para 4.36)**

- Rhaid i gyrff cyhoeddus diwylliannol a noddir gan y Cynulliad ymroi i godi safonau a rhoi systemau monitro effeithiol ar waith. Dylai'r cyrff hynny gyflwyno cynigion i'w hystyried gan Ysgrifennydd y Cynulliad.

**Ariannu (para 4.41-4.43)**

- Dylid mynd ati yn gwbl ddiamwys i gydnabod pwysigrwydd cyfraniad gweithgareddau cymunedol, gweithgareddau ar lawr gwlad a gweithgareddau gwirfoddol i ddatblygiad y celfyddydau a diwylliant yng Nghymru.
- Dylai'r cwmnïau hynny a chanddynt gylch gwaith cenedlaethol, ar yr amod eu bod yn perfformio yn foddhaol a bod adnoddau ar gael, dderbyn cynnydd mewn termau real ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod.
- Dylai Ysgrifennydd y Cynulliad sicrhau ei fod yn gadael digon o le i ystod ehangach o gelfyddydau cymunedol ac ymarferwyr. Dylai cysylltiadau gael eu hadfywio a'u cynnal fel bod modd i'r gweithgareddau lleol gorau fwydo i mewn i weithgareddau rhanbarthol, a'r gorau ar lefel ranbarthol fwydo i mewn i'r lefel genedlaethol – gan gwmpasu ymarferwyr o bob oed, ond yn arbennig, efallai, yr ifanc.

**Targedau, monitro a gwerthuso (para 4.44)**

- Bydd y cyrff cyhoeddus priodol a noddir gan y Cynulliad yn awyddus i adolygu eu nodau a'u hamcanion er mwyn iddynt adlewyrchu ein polisïau a'n blaenoriaethau'n iawn. Wrth iddynt wneud hynny, byddem hefyd yn disgwyl i gyrff a noddir bennu targedau ystyrlon a mesuradwy yn eu cynlluniau corfforaethol. Bydd y Pwyllgor am gael gwybod am y datblygiadau tuag at gyrraedd y targedau hyn yn ystod ei sesiynau goruchwylio rheolaidd gyda chyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad a bydd yn adolygu'r gwaith o roi ei argymhellion ar waith ymhen 3-5 mlynedd.

## ATODIAD A

## CYLCH GORCHWYL

Cynnal astudiaeth o flaenoriaethau cyfredol cyllid cyhoeddus ar gyfer y celfyddydau yng Nghymru: ystyried amcanion y Cynulliad mewn perthynas â'r celfyddydau ac i ba raddau y mae polisïau cyfredol yn cyflawni'r amcanion

hynny: ac ystyried i ba raddau y mae gwariant ar y celfyddydau'n cynnig llwyfan i sicrhau cyllid Ewropeaidd a chyllid o'r sector preifat. Bydd yr astudiaeth, a fydd yn canolbwyntio ar y celfyddydau yn hytrach na'r dreftadaeth adeiledig, yn canolbwyntio'n arbennig ar y themâu canlynol:

- atgyfnerthu hunaniaeth genedlaethol a statws rhyngwladol Cymru;
- hybu cydlyniad cymdeithasol a dinasyddiaeth weithredol drwy ehangu mynediad i'r celfyddydau yng Nghymru.
- gwella ansawdd bywyd unigolion a chymunedau;
- cefnogi addysg a hybu talent artistig ledled Cymru;
- pwysigrwydd diwydiannau creadigol i fyd gwaith yng Nghymru;
- datblygu rhagoriaeth.

Bydd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar y cymorth sy'n cael ei ddarparu gan y sector cyhoeddus i'r celfyddydau drwy gyrff sy'n cael eu noddi, yn arbennig Cyngor Celfyddydau Cymru. Bydd yn edrych ar fecanweithiau cyllido ac yn ystyried swyddogaethau awdurdodau lleol, sefydliadau Addysg Uwch a sefydliadau celfyddydol, gan gynnwys darlledwyr. Bydd y pwyllgor yn derbyn tystiolaeth lafar a thystiolaeth ysgrifenedig gan ystod eang o sefydliadau ym myd y celfyddydau.

## ATODIAD B

## YR YMGYNGHORI

Gofynnodd y Pwyllgor i'r gymuned gelfyddydol ateb 12 cwestiwn allweddol, a gosod chwe thema'r cylch gorchwyl yn nhrefn blaenoriaeth.

### Dadansoddi'r ymatebion ysgrifenedig

<u>Cwestiynau 1-3 – rôl y Cynulliad</u>

*Yn eich barn chi, ar wahân i ddarparu arian ychwanegol, beth ddylai/ gall y Cynulliad ei gynnig i'r celfyddydau yng Nghymru a sut y gall y Cynulliad ddatblygu'i Bolisi ei hun ar gyfer Diwylliant a'r Celfyddydau?*

*Beth ddylai prif egwyddor polisi'r celfyddydau a diwylliant yng Nghymru fod?*

*A ddylai egwyddor polisi o'r fath gael ei seilio ar y celfyddydau yng Nghymru neu ar Gelfyddydau Cymreig? Beth ddylai'r cydbwysedd rhwng y ddau fod?*

Wrth ymateb i'r hyn y gallai'r Cynulliad ei gynnig i'r celfyddydau o ran polisi, roedd cryn gonsensws y dylai'r Cynulliad fod yn rhagweithiol o ran codi proffil y celfyddydau a diwylliant yng Nghymru, y dylai sefydlu proffil cryf ar gyfer celfyddydau a diwylliant Cymru gartref a thramor; y dylai gydnabod pwysigrwydd y celfyddydau a diwylliant i'r genedl a sicrhau fod ei statws uchel yn nodwedd hanfodol o fywyd Cymru.

Roedd canfyddiad cryf ymysg rhannau o gymuned y celfyddydau bod y celfyddydau yng Nghymru wedi dioddef yn ddiweddar oherwydd diffyg cyllid o gymharu â Lloegr a'r Alban.

Roedd ymhell dros hanner yr ymatebwyr o blaid cael Ysgrifennydd Cynulliad (a Phwyllgor) penodol ar gyfer y celfyddydau a diwylliant.

Gwnaeth llawer o'r ymatebwyr sylwadau cadarnhaol ynghylch y broses adolygu, ac roeddent am i'r trafod a'r ymgynghori â'r gymuned gelfyddydol barhau ar ôl yr adolygiad. Awgrymwyd y byddai Fforwm Diwylliannol yn ffordd o wneud hyn.
************************************************************************************

Cafwyd llawer o wahanol awgrymiadau ynghylch y prif flaenoriaethau ar gyfer polisi'r celfyddydau a diwylliant. Roedd y canlynol ymysg yr amrediad o argymhellion:

- Bod cyfle i fwynhau'r celfyddydau a diwylliant yn hawl dynol sylfaenol ac y dylai fod ar gael i bawb
- Cyfranogi – roedd yr ymatebwyr yn teimlo bod annog unigolion i fod yn greadigol ac i fynychu digwyddiadau diwylliannol yn bwysig
- Dylai'r polisi gynnwys democratiaeth ddiwylliannol, amrywiaeth ddiwylliannol – ieithoedd a diwylliannau amrywiol Cymru – a chyfle cyfartal
- Dylai'r polisi fynd ati i hybu ac annog talent cynhenid i flodeuo o fewn Cymru yn ogystal â Phrydain a'r llwyfan rhyngwladol
- Ystyrid bod creu a hybu ansawdd a rhagoriaeth yn rhan allweddol o'r polisi, ond roedd llawer o'r ymatebwyr yn teimlo bod ansawdd y profiad diwylliannol yn aml yr un mor bwysig ag ansawdd y cynnyrch sydd ar gael
- Cefnogi a datblygu'r diwydiannau diwylliannol
- Datblygu'r celfyddydau a diwylliant o fewn y system addysg ac mewn strategaethau i hybu dysgu gydol oes
- Dylai'r polisïau fynd law yn llaw â buddosddiadau tymor hir yn y celfyddydau
- Dylai'r polisi gynnwys mwy o gefnogaeth a chydnabyddiaeth ar gyfer y celfyddydau traddodiadol yng Nghymru

************************************************************************************

Cafwyd rhai atebion syn i'r cwestiwn ynghylch seilio blaenoriaethau polisi ar y celfyddydau yng Nghymru neu'r Celfyddydau Cymreig. Doedd sawl un o'r

ymatebwyr ddim yn gallu gwahaniaethu rhwng y ddau neu'n teimlo na ddylid gwahaniaethu. Ar y cyfan, roedd y sawl oedd wedi mynd i'r afael â'r cwestiwn yn teimlo na ddylai cystadleuaeth fodoli rhwng y Celfyddydau yng Nghymru a'r Celfyddydau Cymreig, y dylai polisi'r Cynulliad ddarparu ar gyfer y ddau ac y dylai Cymru fod yn ddiwylliannol gynhwysol. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn teimlo bod dyletswydd ar y Cynulliad i hybu'r celfyddydau a diwylliant yng Nghymru ond y dylai gymryd i ystyriaeth arferion a dylanwadau o fannau eraill neu fel y dywedodd un ymateb "pluralism not parochialism". Dim ond lleiafrif gweddol fach oedd yn teimlo y dylai'r Cynulliad ganolbwyntio ar "y Celfyddydau Cymreig".

Cwestiwn 4

*O gael "llechen lân", sut fyddech chi'n awgrymu y dylai'r Cynulliad strwythuro ei drefniadau ar gyfer ariannu a rheoli/datblygu'r celfyddydau yng Nghymru?*

Manteisiodd llawer o'r ymatebwyr ar y cyfle i ailbwysleisio eu cefnogaeth ar gyfer strwythurau newydd gan gynnwys Ysgrifennydd y Cynulliad dros y celfyddydau a diwylliant a Fforwm Diwylliannol. Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn amrywio'n fawr, ac er bod lleiafrif bychan yn teimlo y dylid edrych unwaith eto ar yr egwyddor "hyd braich", roedd y mwyafrif o'r farn y dylai'r strwythurau cyllido a rheoli aros "hyd braich" oddi wrth y gwleidyddion, ac mai Cyngor Celfyddydau Cymru wedi ei ailstrwythuro (neu gorff tebyg) fyddai'r corff mwyaf priodol ar gyfer y swyddogaeth hon. Roedd yr ymatebwyr oedd o blaid y dewis hwn am weld Cyngor Celfyddydau Cymru yn cael ei fonitro'n agos gan y Cynulliad yn unol â'i flaenoriaethau polisi.

Nododd sawl sefydliad y dylai staff unrhyw gorff cyllido ddeall y celfyddydau a diwylliant yng Nghymru.

Roedd grwpiau cymunedol a gwirfoddol yn pwysleisio bod angen bod yn dryloyw ac yn atebol, a chael gwared ar fiwrocratiaeth mewn perthynas â systemau cyllido yn ogystal a meini prawf dyfarnu clir. Nododd llawer o'r ymatebwyr y dylai'r broses ar gyfer cael cyllid Ewropeaidd gael ei symleiddio.

Cafwyd llawer o sylwadau ar bwnc cyllid yr awdurdodau lleol. Roedd nifer o sefydliadau yn teimlo y dylai fod yn ofynnol i'r awdurdodau lleol gefnogi gweithgareddau celfyddydol a datblygu eu polisïau eu hunain. Awgrymodd lleiafrif bychan y dylid dirprwyo cyllid ar gyfer y celfyddydau i'r awdurdodau lleol. Awgrymwyd hefyd bod angen comisiynu "archwiliad o'r celfyddydau" er mwyn cael darlun llawnach o'r sefyllfa bresennol yng Nghymru a'r hyn y bydd ei angen yn y dyfodol.

Cwestiynau 5 – 8 – Cyngor Celfyddydau Cymru

Mae'r cwestiynau isod yn canolbwyntio ar Gyngor Celfyddydau Cymru – ei drefniadaeth, strwythurau, prosesau a'r egwyddorion gan gynnwys "cyllido llai er gwell".

*Yn eich profiad chi, pa mor agored a hygyrch y mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi bod wrth wrando ar eich barn ac ymgymryd â'ch syniadau? Gan ddefnyddio'r Strategaeth Ddrama fel enghraifft, a ydych o'r farn fod y broses ymgynghori wedi'i rheoli'n dda neu a ddylid bod wedi gwneud pethau'n wahanol?*

*A ydych o'r farn fod strwythur a threfn y Cyngor yn briodol i'w alluogi i ddatblygu strategaethau celfyddydau cenedlaethol a rheoli dosbarthiad arian y Cynulliad?*

*Yn eich barn chi, a yw'r celfyddydau wedi'u cefnogi'n dda ar draws pob rhanbarth o Gymru, yn enwedig wrth hyrwyddo'r Gymraeg?*

*A ydych yn cytuno â'r egwyddor o "cyllido llai er gwell" h.y. sianelu adnoddau ar lai o fudiadau gyda golwg ar wella ansawdd y cynyrchiadau yn sylweddol?*

Cafwyd cryn dipyn o feirniadu gan yr ymatebwyr ar Gyngor Celfyddydau Cymru. Roedd sector y celfyddydau perfformio yn arbennig yn teimlo nad oedd Cyngor y Celfyddydau yn agored nac yn hygyrch a bod diffyg atebolrwydd yno. Roedd teimlad hefyd bod swyddogion Cyngor y Celfyddydau yn rhy bell oddi wrth arferion celfyddydol ac nad oedd digon o aelodau cymuned y celfyddydau yng Nghymru yn rhan o'r broses gwneud polisi. O blaid Cyngor y Celfyddydau, roedd y Cwmnïau Celfyddydau Perfformio Cenedlaethol (NPAC) a sawl sefydliad gwirfoddol a chymunedol yn teimlo bod cydweithio da'n digwydd rhyngddynt a Chyngor y Celfyddydau. Condemniwyd y Strategaeth Ddrama gan bawb. Roedd yn ymddangos bod y ffordd y cynhaliwyd y broses ymgynghori a'r dull o weithredu'r Strategaeth wedi niweidio enw da'r Cyngor o fewn cymuned y celfyddydau.
****************************************************************************************
Roedd cryn gonsensws ynghylch yr angen am ddiwygio ac ailstrwythuro llwyr ar Gyngor y Celfyddydau os mai dyma'r corff a fydd yn datblygu'r strategaethau cenedlaethol ar gyfer y celfyddydau a diwylliant, ac a fydd yn gyfrifol am ddosbarthu cyllid. Nododd llawer o sefydliadau bod angen rhannu swyddogaethau datblygu strategaethau a rheoli cyllid ar frys. Barnwyd bod y strwythur presennol yn amhriodol a bod gormod o fiwrocratiaeth yn perthyn iddo. Nododd llawer bod y strwythurau wedi dyddio ac yn rhwystro'r Cyngor rhag fod yn gorff blaengar, sy'n galluogi. Awgrymodd ychydig o sefydliadau y byddai cryfhau swyddfeydd rhanbarthol Cyngor Celfyddydau Cymru yn un ffordd bosibl o fynd i'r afael â hyn.
****************************************************************************************
Roedd yr ymatebwyr o'r farn fod cefnogaeth i'r celfyddydau ledled Cymru wedi ei dosbarthu'n gyfartal a bod y gefnogaeth i'r celfyddydau a diwylliant cyfrwng Cymraeg yn gyffredinol yn gryf. Fodd bynnag, nodwyd rhai bylchau – megis theatr cyfrwng Cymraeg, Theatr Ieuenctid Cymru a gweithgareddau diwylliannol cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd. Nodwyd bod arian y loteri wedi gwneud gwahaniaeth mawr i ledaeniad daearyddol y cymorth ariannol ar gyfer y celfyddydau a diwylliant. Canmolwyd yr awdurdodau lleol hefyd am ddarparu cyfleoedd diwylliannol a rhoi cefnogaeth gref iddynt.

Serch hynny, cafwyd rhai sylwadau negyddol; roedd rhai sefydliadau yn teimlo bod arian yn cael ei ddosbarthu'n anwastad, a bod hyn yn seiliedig yn rhannol ar gynsail hanesyddol. Roedd rhai o'r ymatebwyr – yn enwedig y rheiny mewn ardaloedd gwledig - hefyd o dan yr argraff bod y cyllid yn cael ei sianelu tuag at ardaloedd mwy poblog y de-ddwyrain.
***************************************************************************************

Roedd egwyddor "cyllido llai er gwell" yn ennyn ymateb cymysg. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn gryf yn erbyn yr egwyddor, gan ddadlau mai diffyg cyllid oedd wrth wraidd y syniad yn hytrach na gweledigaeth strategol, ac y dylai fod yn bolisi gan Gyngor y Celfyddydau i gynorthwyo cymaint o sefydliadau ag y bo modd gyda'r cyllid sydd ar gael. Roedd canfyddiad hefyd y byddai cyllido llai o sefydliadau yn gallu golygu y byddai llai o bobl yn cael cyfle i fwynhau'r celfyddydau ac yn arwain at lai o waith i weithwyr proffesiynol.

Serch hynny, roedd lleiafrif gweddol o faint o'r ymatebwyr yn cytuno â'r egwyddor o "gyllido llai er gwell" gan ddweud bod hyn yn ymateb angenrheidiol i broblemau hanesyddol tan-gyllido a rhestr cleientiaid hirfaith Cyngor Celfyddydau Cymru.
*********************************************************************************

<u>Cwestiwn 9</u>

*Pa gorff/ gyrff ddylai chwarae rôl allweddol wrth reoli a dosbarthu arian Ewropeaidd i'r celfyddydau?*

Cafwyd llu o awgrymiadau ac ychydig iawn o gonsensws yma, er bod llawer o'r ymatebwyr yn meddwl bod y cwestiwn yn llai pwysig na symleiddio cyllid Ewropeaidd, cyflymu a symleiddio'r broses o wneud cais a sicrhau mwy o gydlynedd rhwng y cyrff sy'n rhan o'r broses. Ymhlith yr awgrymiadau mwyaf poblogaidd roedd:

- Dylid rhoi awdurdod a grym goruchwylio i'r Cynulliad, ond Cyngor y Celfyddydau wedi ei ailstrwythuro ddylai fod yn gyfrifol am ddosbarthu (er bod sawl sefydliad yn teimlo nad oedd digon o arbenigedd gan Gyngor y Celfyddydau at y diben hwn)
- Dylid sefydlu corff ambarél annibynnol a fydd yn defnyddio arbenigedd cyrff megis Awdurdod Datblygu Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, yr awdurdodau lleol a chymuned y celfyddydau
- Roedd rhai'n teimlo mai'r sector gwirfoddol a'r awdurdodau lleol oedd yn y sefyllfa orau i gyflawni'r swyddogaeth hon
- Awdurdod Datblygu Cymru
- Celfyddydau Rhyngwladol Cymru lled-annibynnol a chryfach
- Dylai Sgrin reoli cyllid Ewropeaidd sy'n gysylltiedig â'r diwydiant ffilmiau

Awgrymwyd hefyd y dylai holl gyllid rhaglenni Ewropeaidd fod ar gael i sefydliadau celfyddydol ac na ddylent ddibynnu ar un system gyllido gul ar gyfer y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol.

<u>Cwestiwn 10</u>

*Beth gall Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, neu eraill, ei wneud wrth hyrwyddo diwydiannau creadigol Cymru dramor?*

Un o’r prif bwyntiau a gododd o’r ymatebion i’r cwestiwn hwn oedd y ffaith fod gan Celfyddydau Rhyngwladol Cymru broffil isel o fewn cymuned y celfyddydau. Dywedodd nifer o’r ymatebwyr na allai Celfyddydau Rhyngwladol Cymru wneud llawer heb fwy o gyllid a staff. Nodwyd hefyd bod angen gwneud cylch gwaith Celfyddydau Rhyngwladol Cymru yn fwy clir, ac y dylai’r sefydliad geisio gweithredu heb y cyfyngiadau a osodwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

Roedd y sylwadau ar yr hyn y gallai Celfyddydau Rhyngwladol Cymru ei wneud i hybu diwydiannau creadigol Cymru dramor yn cynnwys:

- Dylai Celfyddydau Rhyngwladol Cymru gydweithio’n agosach â Swyddfa Ewropeaidd y Cynulliad er mwyn lledaenu mwy o wybodaeth am gyllid Ewropeaidd yn y celfyddydau.
- Dylai Celfyddydau Rhyngwladol Cymru ganolbwyntio llai yn ei weithgareddau hyrwyddo ar y cwmnïau celfyddydau perfformio cenedlaethol a rhoi’r un faint o sylw i grwpiau cymunedol a gwirfoddol sydd hefyd yn gallu chwarae rôl lysgenhadol gref
- Dylai Celfyddydau Rhyngwladol Cymru wneud mwy o ymdrech i feithrin cysylltiadau â sefydliadau diwylliannol yn Ewrop ac ysgogi cyfnewidiadau diwylliannol
- Mae angen cysylltiadau agosach ag Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru
- Dylai Celfyddydau Rhyngwladol Cymru gynnig cymorth gyda cheisiadau am gyllid Ewropeaidd
- Dylai Celfyddydau Rhyngwladol Cymru bwysleisio’r amrywiaeth o weithgareddau celfyddydol sy’n digwydd yng Nghymru a’i sefyllfa ddwyieithog unigryw
- Dylai Celfyddydau Rhyngwladol Cymru ddarparu adnoddau ar gyfer yr artisitiaid hynny sy’n dod o hyd i farchnadoedd dramor.

<u>Cwestiwn 11</u>

*Sut gall y celfyddydau gyfrannu at fynd i'r afael â dieithrwch cymdeithasol yng Nghymru a pha rwystrau sy'n atal unrhyw gynnydd ar hyn o bryd ?*

Roedd y sawl a ymatebodd yn unfryd bod gan ddiwylliant a'r celfyddydau rôl sylfaenol wrth fynd i'r afael â phroblem dieithrwch cymdeithasol ac y dylent gymryd rôl ganolog mewn cynlluniau adfywio cymunedol. Teimlai'r cyrff bod y celfyddydau'n ffordd o roi grym i bobl, ac y gall bod yn rhan o ddiwylliant a'r celfyddydau newid bywydau pobl. Dywedodd un unigolyn a ymatebodd "*the participatory arts are often the backbone of community life*".

Nodwyd llawer o rwystrau sy'n atal cynnydd, gan gynnwys:

- Prinder adnoddau dynol ac ariannol, a'r anawsterau sy'n gysylltiedig â chael gafael ar adnoddau ar lefel gymunedol

- Lefel darpariaeth y celfyddydau mewn ysgolion a cholegau
- Mwy o ddiffyg dealltwriaeth ynglyn â sut y gall diwylliant a'r celfyddydau hybu adfywio cymdeithasol
- Nid yw llawer o asiantaethau a chyrff yn ystyried bod diwylliant yn sector cynhyrchu yn ei rinwedd ei hun
- Tocynnau drud, a all rwystro llawer o bobl rhag mynychu digwyddiadau

Cafwyd llawer o syniadau gan ymatebwyr ynglyn â sut y gallai diwylliant a'r celfyddyau gyfrannu at agenda cynhwysiant cymdeithasol. Teimlai sawl un y dylai'r Cynulliad a Chyngor Celfyddydau Cymru sicrhau bod pobl yn cael cyfle i fod yn rhan o'r celfyddydau. Ymhlith yr awgrymiadau roedd:

- Agor drysau i'r grwpiau hynny sydd wedi'u heithrio'n draddodiadol
- Adfer lle'r celfyddydau yn y Cwricwlwm Cenedlaethol
- Buddsoddi mewn canolfannau hyfforddi a'u datblygu
- Buddsoddi mewn cyfleusterau ar gyfer y celfyddydau yn y gymuned
- Sicrhau bod gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol ar gael am brisiau y gellir eu fforddio
- Creu mwy o gyfleoedd i gymryd rhan

<u>Cwestiwn 12</u>

*Pa gymorth ddylai'r Cynulliad ei ddarparu i gynnal neu gynyddu hyfywedd ac incwm y diwydiannau creadigol yng Nghymru?*

Wrth ateb y cwestiwn hwn, cafwyd bod ymatebwyr yn ategu eu cefnogaeth i fwy o fuddsoddi yn y celfyddydau a chael gweinyddiaeth dros ddiwylliant. Cafwyd amryw o awgrymiadau eraill hefyd. Gallai'r Cynulliad wneud y canlynol:

- Darparu buddsoddi, eiriolaeth ac isadeiledd hyfforddi ym maes rheoli'r celfyddydau
- Cydnabod rôl diwylliant a'r celfyddydau yn y gymdeithas
- Cydnabod y gall diwylliant a'r celfyddydau fod o fudd sylweddol i'r economi
- Cydnabod bod y diwydiannau diwylliannol yn hwb sylweddol i greadigrwydd
- Hyrwyddo rhaglenni cymorth treth incwm a TAW ar gyfer artistiaid
- Cyflogi awduron ac artistiaid yn uniongyrchol
- Annog y sector preifat i lunio partneriaethau/cynlluniau noddi gyda'r diwydiannau diwylliannol a chelfyddydol
- Sicrhau y gall diwylliant a'r celfyddydau gael y manteision y gallai arian Amcan 1 eu cynnig

Gallai'r Pwyllgor:

- Lobïo pwyllgorau er mwyn cyflwyno achos ar gyfer diwydiannau sy'n ymwneud â diwylliant a'r celfyddydau

**Themâu'r adolygiad**

Gofynnwyd i gymuned y celfyddydau hefyd restru'r chwe thema a geir yn y cylch gorchwyl yn nhrefn eu blaenoriaeth. Yr oedd mwyafrif y cyrff yn ei chael yn amhosibl rhestru'r themâu yn ôl blaenoriaeth, gan ddadlau eu bod oll yn hanfodol bwysig. Yr oedd y rheiny a restrodd y themâu ar y cyfan yn credu y dylid rhoi "gwella ansawdd bywyd unigolion a chymunedau" ar ben y rhestr i'w dilyn yn agos gan "hybu cydlyniad cymdeithasol a dinasyddiaeth weithredol drwy ehangu mynediad i'r celfyddydau". Roedd "cefnogi addysg a hybu talent artistig ledled Cymru" yn flaenoriaeth bwysig i lawer. Yn arwyddocaol ddigon efallai, fe roddodd y cwmnïau celfyddydau perfformio cenedlaethol a ymatebodd i'r cwestiwn hwn "datblygu rhagoriaeth" ar frig y rhestr.

Roedd yr ymatebwyr yn unfryd bod y cylch gorchwyl yn uniongyrchol berthnasol i'w gwaith hwy ac amlinellodd llawer ohonynt rai o'r ffyrdd y mae eu gwaith arbennig hwy'n cyfrannu at themâu'r arolwg.

**CRYNHOI SYLWADAU A WNAED AR LAFAR**

Mae'r canlynol yn rhoi blas o'r prif drafodaethau a'r dadleuon yn ystod tri ar ddeg o gyfarfodydd y Pwyllgor lle trafodwyd diwylliant a'r celfyddydau yng Nghymru. Ceir manylion pellach gan gynnwys cofnodion llawn y cyfarfodydd hyn ar wefan y Pwyllgor.

**19 Ionawr**

- Cyhoeddodd Cadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru y byddai elfen Theatr a Phobl Ifanc y Strategaeth Ddrama'n cael ei hatal.
- Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cynulliad y byddai astudiaeth o ddulliau rheoli Cyngor y Celfyddydau yn cael ei rhoi ar waith ar unwaith.
- Hysbyswyd y Pwyllgor gan gynrychiolwyr Cyngor y Celfyddydau bod y strategaeth "cyllido llai er gwell " yn deillio'n rhannol o brinder arian, ond hefyd o'r angen i gynnal safon uchel a chanolbwyntio ar yr adnoddau sydd ar gael. Nodwyd hefyd eu bod yn bwrw ymlaen â'u polisi o fod yn agored ac yn glir, ond eu bod yn cydnabod bod lle i wella. Cydnabuwyd pwysigrwydd eglurder wrth wneud penderfyniadau ac roeddent yn fodlon bod y systemau cywir yn cael eu mabwysiadu bellach.
- Nodwyd gan Gyngor y Celfyddydau y gellid ystyried dirprwyo rhai penderfyniadau penodol o safbwynt cyllido i gyrff megis Sgrin a'r Academi yn y dyfodol. Gwnaed cais hefyd am arian ychwanegol gan Fwrdd Elusennau'r Loteri Cenedlaethol.

**27 Ionawr, Theatr y Lyric, Caerfyrddin**

- Dywedodd cynrychiolwyr Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth wrth y Pwyllgor bod tan-gyllido parhaus yn golygu na allai'r Ganolfan fforddio croesawu Cerddorfeydd mawrion y Deyrnas Unedig mwyach.
- Dywedodd cynrychiolwyr Urdd Gobaith Cymru wrth y Pwyllgor, am y manteision economaidd a diwylliannol a ddaw i'r cymunedau y bydd Eisteddfod yr Urdd yn ymweld â hwy. Yr oedd gan yr Urdd hefyd obeithion mawr ar gyfer eu presenoldeb yng Nghanolfan y Mileniwm.

- Pwysleisiodd Cyfarwyddwr Artistig Theatr Mwldan rôl bwysig y diwydiannau creadigol o safbwynt mynd i'r afael â dieithrwch cymdeithasol.
- Mynegodd cynrychiolwyr Cymdeithas Ddawns Werin Cymru eu rhwystredigaeth oherwydd y diffyg cymorth ariannol ac ymarferol a gafodd y corff gan Gyngor y Celfyddydau a Bwrdd Elusennau'r Loteri Cenedlaethol.
- Pwysleisiodd cynrychiolwyr Gofal Celf bod ansawdd darpariaeth yn aml iawn yn bwysicach na maint y ddarpariaeth ac y gall gweithgarwch unigol gyda'i grwp cleientiaid fod llawn mor fanteisiol a pherthnasol i unigolion â pherfformiadau mawr.
- Gofynnodd David Peterson i'r Pwyllgor gydnabod gwerth eithriadol y celfyddydau i gymunedau.
- Gofynnodd Roger Williams i Gyngor y Celfyddydau wneud mwy o ymrwymiad i waith ysgrifennu o Gymru.

**2 Chwefror**

- Yr oedd cynrychiolwyr GALW (Lobi Gyffredinol y Celfyddydau dros Gymru) am i Gymru gael ei Horiel Genedlaethol ei hun yn ganolbwynt i gelfyddyd frodorol fodern. Yr oeddent hefyd yn dymuno gweld proffil y diwydiant crefftau yn cael ei godi, fel y gellid meithrin y doniau sydd ar gael ac fel y gallai'r cyfryngau a darlledwyr fuddsoddi mwy yng nghelfyddydau Cymru.
- Galwodd Grwp Cyflwyno'r Celfyddydau am fwy o ymdrech i fod yn agored a chlir yng ngweithdrefnau Cyngor y Celfyddydau ac i'r cyngor hwnnw benodi staff â mwy o arbenigedd proffesiynol.
- Galwodd cynrychiolwyr Cymdeithas y Celfyddydau Perfformio yng Nghymru am £2-3miliwn ychwanegol y flwyddyn i'w roi i artistiaid a chwmnïau celfyddydol, i'w dargedu at gynhyrchu a pherfformiadau. Galwyd hefyd am ddatblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer cyhoeddi gwaith ysgrifennu newydd o Gymru.

**16 Chwefror**

- Dywedodd cynrychiolwyr cwmni Opera Cenedlaethol Cymru wrth y Pwyllgor fod y cwmni'n dymuno llwyfannu mwy o berfformiadau yn y Gogledd, ond bod ei bresenoldeb yno ar hyn o bryd yn dibynnu ar yr arian a dderbynnid. Yr oedd gan y cwmni obeithion mawr ar gyfer symud i Ganolfan y Mileniwm; byddai hynny'n cynnig cyfleoedd gwell o safbwynt marchnata a rhwydweithio ag asiantaethau eraill. Eglurodd y cynrychiolwyr fod y cwmni wedi ymaelodi â Rhaglen Sefydlogi Cyngor Celfyddydau Lloegr yn ddiweddar a fydd o gymorth i'w strategaeth ariannol a chelfyddydol bresennol.
- Dywedodd cynrychiolwyr yr Eisteddfod Genedlaethol fod y mudiad yn un sy'n datblygu ac sy'n gweithio gyda phobl ifanc a chymunedau ac yn ymateb i'w hanghenion. Eglurwyd bod eu harian craidd yn dod gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg a'u bod yn ceisio cyllid oddi wrth Gyngor y Celfyddydau. Pwysleisiodd y cynrychiolwyr effaith aruthrol yr Eisteddfod ar fywyd economaidd a diwylliannol y trefi y mae'n ymweld â hwy.

- Galwodd yr Academi Gymreig ar y Cynulliad i roi mwy o sylw i'r proffesiwn ysgrifennu yng Nghymru, ac annog rhoi mwy o adnoddau i'r perwyl hwnnw. Un o'r cynigion craidd oedd cael ei Bardd Llawryfog ei hunan i Gymru.

**2 Mawrth**

- Dywedodd Cyfarwyddwr Canolfan Gelfyddydau Wyeside bod ansicrwydd ariannol yn golygu efallai y byddai'n rhaid i'r Ganolfan newid yn llwyr - yn ymarferol ac yn gelfyddydol - er mwyn parhau fel busnes gweithredol.
- Gwnaed cais gan Peter Lord o'r Ganolfan Uwch Efrydiau Celtaidd i Amgueddfa Genedlaethol Cymru ddangos mwy o gelfyddyd Gymreig ac adlewyrchu arddulliau cyfoes celfyddyd yng Nghymru. Teimlai y dylai Adran Gelfyddyd yr Amgueddfa fod ar wahân i weddill yr Amgueddfa; dylai'r "Oriel Genedlaethol" fod â strwythur rheoli ar wahân a bod yn amlwg ledled Cymru.
- Rhoddodd cynrychiolwyr Theatr Felinfach amlinelliad o bolisi'r theatr i hybu diwylliant brodorol Cymru gan bwysleisio manteision datblygu celfyddyd gymunedol megis Eisteddfodau a ffeiriau crefftau. Teimlent mai ychydig iawn o ddealltwriaeth oedd gan Gyngor y Celfyddydau o botensial diwylliannol cymunedau.
- Dywedodd cynrychiolwyr cwmni Dawns Powys wrth y Pwyllgor am y prinder cyfleoedd hyfforddi sydd ar gael i fyfyrwyr dawns yng Nghymru - yn arbennig drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cyfeiriodd cynrychiolwyr Theatr Powys at y problemau sy'n rhan annatod o strwythur Cyngor y Celfyddydau. Teimlent y byddai "cyllido llai er gwell" yn gysyniad camarweiniol a fyddai, yn y pen draw, yn golygu bod cwmnïau'n llai tebygol o allu cyrraedd ardaloedd ynysig neu ardaloedd sy'n cael eu heithrio.
- Eglurodd cynrychiolwyr Opera'r Canolbarth bod colli arian y loteri yn ddiweddar yn golygu y byddai gweithgareddau'r cwmni'n cael eu cwtogi'n sylweddol eleni ac y byddai tranc Gwyl Opera Canolbarth Cymru'n cael effaith andwyol ar yr economi leol.
- Yr oedd aelodau Cymdeithas y Celfyddydau Cymunedol yn teimlo y dylai ymarferwyr ac artistiaid fod yn rhan hanfodol o bolisïau a darpariaeth y celfyddydau yng Nghymru, ond bod llawer o ymarferwyr yn teimlo'u bod yn cael eu heithrio o'r broses ar hyn o bryd. Amlinellwyd hefyd yr anawsterau y mae cyllido cylchol wedi'u hachosi i lawer o gyrff y celfyddydau.

**8 Mawrth**

- Dywedodd Cyfarwyddwr Canolfan y Celfyddydau Gweledol wrth y Pwyllgor am y rôl ganolog y gallai celfyddydau gweledol ei chwarae i ddatblygu Cymru newydd. Rhybuddiodd y Pwyllgor bod y Ganolfan yn brin o incwm a hynny'n bennaf am fod llai o bobl nag a ragwelwyd yn ymweld â'r Ganolfan.
- Dywedodd cynrychiolwyr Cwmni Dawns Diversions wrth y Pwyllgor am uchelgais y cwmni i ddringo ysgol tabl cynghrair y cwmnïau dawns Ewropeaidd. Canolfan y Mileniwm fydd cartref y Cwmni; bydd hyn gryn

dipyn yn well na'r cyfleusterau sydd ganddynt ar hyn o bryd ac yn hwb sylweddol i gyfleoedd marchnata. Gofynnodd y cynrychiolwyr i'r Pwyllgor ystyried yr angen am Strategaeth Ddawns i Gymru.

- Yr oedd cynrychiolwyr Undeb yr Awduron am weld diddymu Cyngor y Celfyddydau a chael asiantaeth annibynnol newydd. Yr oeddent yn pryderu am ddyfodol llenyddiaeth Gymraeg oni roddid mwy o gefnogaeth ond teimlid bod llenyddiaeth Gymreig drwy gyfrwng y Saesneg mewn cyflwr cymharol dda, er bod arni hithau hefyd angen mwy o gymorth a chefnogaeth.
- Eglurodd Prif Weithredwr Sgrin fod y diwydiant ffilmiau yng Nghymru'n datblygu, ond ei fod yn dal i fod yn gymharol newydd a bod angen ffilm arloesol i ddenu cynulleidfa fawr yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Dywedodd yr hoffai'r corff fod yn gorff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad. Apeliodd cynrychiolwyr Sgrin ar i'r Cynulliad hybu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd economaidd y diwydiannau creadigol, yn arbennig y rheiny sy'n ymwneud â mewnfuddsoddi a chyfleoedd gwaith newydd.

**22 Mawrth**

- Dywedodd cynrychiolwyr Celfyddydau Gwirfoddol Cymru bod y sector gwirfoddol yn aml iawn yn cael ei anwybyddu ym myd y celfyddydau a bod arno angen mwy o adnoddau. Pwysleisiwyd y manteision cymdeithasol ac economaidd y gallai'r celfyddydau eu cyfrannu i gymdeithas.
- Teimlai Cymdeithas Jazz Cymru y dylai addysg fod yn gonglfaen i bolisïau'r Cynulliad, y dylai cerddoriaeth mewn ysgolion gael blaenoriaeth briodol ac adnoddau ychwanegol wedi'u targedu at agweddau addysgol ar y celfyddydau.
- Dywedodd cynrychiolwyr Cymdeithas Ddrama Cymru wrth y Pwyllgor am effaith gymdeithasol bwerus actio amatur a'r rhan fawr y gallai ei chwarae ym mywydau pobl.
- Bu Cerddoriaeth Gymunedol Cymru'n annog y Pwyllgor i beidio ag ymdrin â'r celfyddydau fel pwnc ar ei ben ei hun. Roedd am i'r Pwyllgor greu strategaethau y byddai meddwl cydlynol, partneriaethau a deialog yn elfennau allweddol ohonynt. Rhoddwyd enghreifftiau o'r ffordd y mae'r celfyddydau wedi cyfrannu at ddieithrwch cymdeithasol.
- Credai cynrychiolwyr Ffederasiwn Cerddoriaeth Amatur Cymru bod annog perfformiadau o waith newydd yn flaenoriaeth sylfaenol ar gyfer datblygiad a thwf cerddoriaeth. Aethant ati i atgoffa'r Pwyllgor o'r anawsterau a wynebir gan lawer o gyrff lleol wrth wneud cais am arian loteri ac yr oeddent yn dymuno gweld grwpiau ambarél ar waith i hwyluso hyn.

**30 Mawrth, Theatr Gogledd Cymru, Llandudno**

- Dywedodd Cyfarwyddwr Artistig Theatr Clwyd wrth y Pwyllgor bod angen i gwmnïau theatr fynd ati i ddod o hyd i gynulleidfaoedd newydd. Argymhellodd y dylid rhoi dwy flynedd i gwmnïau artistig newydd ymsefydlu cyn bod yn gymwys am gymorth grant.

- Teimlai cynrychiolwyr Theatr Gwynedd bod ar theatr yn y Gymraeg angen sylfeini a strwythur gwell ac mai prin yw'r cyfleoedd ar gyfer datblygu gyrfa yn y theatr Gymraeg.
- Mynegodd cynrychiolwyr Theatr Bara Caws bryder ynghylch yr oedi wrth sefydlu "Y Pwerdy" a theimlent bod y broses gyfan mewn perygl o golli momentwm oni chaiff hyn ei ddatrys yn fuan.
- Pwysodd Prif Weithredwr Teledwyr Annibynnol Cymru (TAC) ar y Pwyllgor i gydnabod pwysigrwydd y diwydiannau creadigol ac i beidio ag anghofio bod llawer o greadigrwydd ynghlwm wrth weithgareddau megis dylunio gwefannau.
- Dywedodd cynrychiolwyr Gwyliau Cymru wrth y Pwyllgor am y sefyllfa ariannol fregus a wynebir gan lawer o wyliau a fydd yn gorfod cau os daw arian y loteri i ben. Yr oeddent yn gobeithio meithrin cysylltiadau agosach a chydweithio â Bwrdd Croeso Cymru.
- Croesawodd Cyfarwyddwr Oriel Mostyn y cynnig i sefydlu Oriel Genedlaethol Cymru a theimlai y dylai Amgueddfa Genedlaethol Cymru arwain y gwaith o ddatblygu prosiect o'r fath.
- Dywedodd aelodau Cymdeithas Jazz Gogledd Cymru wrth y Pwyllgor am y sefyllfa ariannu anwastad a oedd yn bodoli rhwng y corff hwnnw a'r corff cyfatebol yn y De.
- Teimlai cynrychiolydd y Gymdeithas Cerdd Dant nad oedd y corff hwnnw'n cael digon o arian nac yn cael ei werthfawrogi'n ddigonol o gymharu â gweddill y sîn gerddoriaeth yng Nghymru.
- Roedd cangen y Gogledd o fudiad Cyfeillion Opera Cenedlaethol Cymru am weld y cwmni opera'n sicrhau arian ychwanegol fel y gallai ymweld â'r Gogledd am un wythnos ychwanegol bob blwyddyn.

**5 Ebrill**

- Hysbysodd cynrychiolwyr Celfyddydau a Busnes Cymru'r Pwyllgor bod gan y celfyddydau a byd busnes lawer iawn i'w gynnig i'w gilydd ond na ddylai busnes geisio ymyrryd ag uniondeb artistig corff neu brosiect celfyddydol penodol. Pwysleisiwyd hefyd botensial economaidd mawr y celfyddydau.
- Roedd cynrychiolwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru o blaid sicrhau bod gan bob awdurdod lleol ddogfen bolisi ar gyfer y celfyddydau a swyddog datblygu'r celfyddydau.
- Ategodd Prifathro Coleg Cerdd a Drama Cymru bwysigrwydd rhoi cyfle i bobl fwynhau'r celfyddydau a dywedodd wrth y Pwyllgor am gynlluniau'r Coleg i roi'r cyfle hwnnw i gymaint o bobl ag y bo modd, a denu myfyrwyr o ardaloedd eraill, drwy ddarparu pecyn yn seiliedig ar ragoriaeth.

**10 Mai**

- Dyweodd Rheolwr BBC Cymru wrth y Pwyllgor mai polisi'r corff hwnnw yw cynhyrchu rhaglenni deallus am y celfyddydau sydd yn eang eu hapêl. Amlinellodd Cyfarwyddwr Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC mai'r weledigaeth strategol oedd cynhyrchu cerddorfa fyd enwog. Dywedodd wrth y Pwyllgor fod y Gerddorfa'n recriwtio ar sail dawn yn unig a bod rhyw

23% o offerynwyr y gerddorfa ar hyn o bryd a 26% o'i gweinyddwyr wedi'u geni yng Nghymru.
- Siaradodd cynrychiolwyr HTV Cymru am lwyddiant eu cyfres ddrama "Nuts and Bolts". Wedi'i seilio ym Merthyr Tudful, mae'r gyfres wedi helpu i roi hwb i hyder ac economi'r ardal.
- Dywedodd cynrychiolwyr S4C wrth y Pwyllgor am lwyddiant eu sianel ddigidol, sydd wedi cynyddu potensial y cwmni mewn sawl maes. Amlinellwyd athroniaeth y cwmni sef darparu sianel brif-ffrwd i'r Cymry, a fyddai'n cynnal y cydbwysedd rhwng adloniant poblogaidd a rhaglenni mwy "diwylliannol".

**18 Mai, Institiwt y Glowyr, Y Coed Duon**

- Teimlai cynrychiolwyr Dawns Gymunedol Cymru y dylai'r Cynulliad greu strategaeth tymor hir ar gyfer y celfyddydau cymunedol ac y dylai hyn gynnwys strategaeth ddawns. Teimlent bod angen i'r Cynulliad fynd i'r afael â'r prinder hyfforddiant dawnsio proffesiynol yng Nghymru yn ddi-oed.
- Yr oedd cynrychiolwyr Theatr y Sherman yn dymuno gweld y Loteri yng Nghymru'n cael ei ailddiffinio a'i ddefnyddio i sefydlogi cwmnïau cenedlaethol.
- Teimlai Cyfarwyddwr Artistig Theatr Gwent nad oedd Cyngor y Celfyddydau ar hyn o bryd, yn gallu ymateb i anghenion cwmnïau celfyddydol ac artistiaid. Yr oedd yn hynod feirniadol ynghylch y ffordd yr ymdriniwyd â'r Strategaeth Ddrama. Roedd Theatr Gwent wedi gwrthwynebu'r strategaeth o'r cychwyn.
- Aeth Rheolwr Institiwt y Glowyr, y Coed Duon ati i atgoffa'r Pwyllgor o bwysigrwydd lleoliadau megis yr Institiwt i gymunedau. Maent yn rhoi lle i gwmnïau celfyddydol lleol a chwmnïau ieuenctid berfformio ac ymarfer. Maent hefyd yn rhoi gwaith i bobl ac yn helpu i gynnal yr economi leol.
- Dywedodd cynrychiolydd Celfyddydau Anabledd Cymru wrth y Pwyllgor am yr holl rwystrau sy'n dal i atal pobl anabl rhag cael cyfle i fwynhau'r celfyddydau. Mae angen mwy o hyfforddiant a chymorth er mwyn i'r celfyddydau fod ar gael yn rhwyddach i bobl anabl.
- Pwysleisiodd cynrychiolydd Menter Gymunedol Cymru'r rôl bwysig y gall technoleg newydd ei chwarae o ran mynd i'r afael â dieithrwch cymdeithasol. Roedd angen mwy o fuddsoddi yn y maes er mwyn caniatáu i bob tref a phentref yng Nghymru allu defnyddio'r Rhyngrwyd.
- Teimlai Cyfarwyddwr Artistig Sgript Cymru bod arian loteri i brosiectau celfyddydol wedi mynd i drafferthion a bod arian y Loteri wedi canolbwyntio ar brosiectau cyfalaf yn hytrach na datblygu artistiaid.

**24 Mai**

- Yr oedd cynrychiolwyr Amgueddfa Genedlaethol Cymru am gael eglurhad o'r cysyniad o gael Oriel Genedlaethol. Dywedodd y cynrychiolwyr fod pobl yn meddwl nad oedd yr Amgueddfa Genedlaethol yn dangos celfyddyd o Gymru, ac nad oedd hynny'n wir. Dywedodd y cynrychiolwyr mai'r gwir yw bod o leiaf draean o'r gelfyddyd a ddangosir yn waith artistiaid o Gymru.

- Dywedodd cynrychiolwyr Canolfan y Mileniwm wrth y Pwyllgor y byddai'r Ganolfan yn cynnig cyfleoedd da ar gyfer croesffrwythloni artistig; bydd dod â llenyddiaeth, cerddoriaeth a chelfyddyd perfformio ynghyd yn annog ffyrdd newydd o weithio ac yn golygu bod llai o ynysu artistig yn digwydd.
- Rhybuddiodd cynrychiolwyr Cyd-bwyllgor Addysg Cymru y gallai'r celfyddydau gael eu gwthio allan o gwricwlwm gorlawn. Teimlent y dylai Awdurdodau Addysg Lleol sicrhau bod lle yn yr amserlen ar gyfer gweithgarwch creadigol ac artistig.
- Dywedodd Cadeirydd a Chyfarwyddwr CADMAD wrth y Pwyllgor fod y celfyddydau amlddiwylliannol yn aml iawn yn cael eu gwthio i'r ymylon ond y dylai amrywiaeth ddiwylliannol fod yn ganolog i unrhyw bolisi ar gyfer y celfyddydau a diwylliant.
- Yr oedd Mr Michael Bogdanov o blaid system ffederal ar gyfer theatrau yng Nghymru, a fyddai'n adlewyrchu'r gwahaniaethau rhanbarthol ac ieithyddol sy'n unigryw i Gymru.

**14 Mehefin**

- Dywedodd Cadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru wrth y Pwyllgor fod yna ddau fater pwysig y byddai'n rhaid i'r corff hwnnw fynd i'r afael â hwy.
- ➢ Atebolrwydd ac eglurder
- ➢ Ei weledigaeth ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys partneriaethau
- Dywedodd wrth y Pwyllgor y byddai'r Cyngor yn adolygu ei God Ymarfer ac yn edrych ar fesurau megis cyflwyno trefn gwyno symlach a sesiynau gwybodaeth ar gyfer y rheiny sy'n gwneud cais aflwyddiannus am grant.

<u>Cyrff ac unigolion a ymddangosodd gerbron y Pwyllgor (ac a gyflwynodd dystiolaeth ysgrifenedig)</u>

| |
|---|
| 1. Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru |
| 2. BBC Cymru |
| 3. Bogdanov, Michael |
| 4. CADMAD - Datblygiad Celfyddyd Aml Ddiwylliannol Caerdydd a'r Dalgylch |
| 5. Canolfan Gelfyddydau Wyeside |
| 6. Canolfan Mileniwn Cymru |
| 7. Canolfan y Celfyddydau Gweledol |
| 8. Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth |
| 9. Celfyddydau & Busnes Cymru |
| 10. Celfyddydau Anabledd Cymru |
| 11. Celfyddydau Cymunedol Rhondda Cynon Taf |
| 12. Celfyddydau Gwirfoddol Cymru |
| 13. Cerddoriaeth Gymunedol Cymru |
| 14. Clwyd Theatr Cymru |
| 15. Coleg Cerdd a Drama Cymru |
| 16. Cyd-bwyllgor Addysg Cymru |
| 17. Cyngor Celfyddydau Cymru |

| | |
|---|---|
| 18. | Cyngor Celfyddydau Cymru - Pwyllgorau Ardal (x3) |
| 19. | Cymdeithas Celfyddydau Perfformio yng Nghymru |
| 20. | Cymdeithas Cerdd Dant |
| 21. | Cymdeithas Ddawns Werin Cymru |
| 22. | Cymdeithas Ddrama Cymru |
| 23. | Cymdeithas Jazz Cymru |
| 24. | Cymdeithas Jazz Gogledd Cymru |
| 25. | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| 26. | Cymdeithas y Celfyddydau Cymunedol |
| 27. | Dawns Gymunedol Cymru |
| 28. | Dawns Powys |
| 29. | Diversions |
| 30. | Eisteddfod Genedlaethol Cymru |
| 31. | Ffederasiwn Cerddoriaeth Amatur Cymru |
| 32. | GALW - Lobi Gyffredinol y Celfyddydau dros Gymru |
| 33. | Gofal Celf |
| 34. | Grwp Cyflwyno'r Celfyddydau |
| 35. | Gwyliau Cymru |
| 36. | HTV Cymru |
| 37. | Institiwt y Glowyr, Y Coed Duon |
| 38. | Lord, Peter |
| 39. | Menter Ddiwylliannol Cymru |
| 40. | Menter Gymunedol Cymru |
| 41. | Opera Canolbarth Cymru |
| 42. | Opera Cenedlaethol Cymru |
| 43. | Oriel Mostyn |
| 44. | S4C |
| 45. | Sgrin |
| 46. | Sgript Cymru |
| 47. | Teledwyr Annibynnol Cymru (TAC) |
| 48. | Theatr Bara Caws |
| 49. | Theatr Felinfach |
| 50. | Theatr Gwent |
| 51. | Theatr Gwynedd |
| 52. | Theatr Mwldan |
| 53. | Theatr Powys |
| 54. | Theatr y Sherman |
| 55. | Undeb yr Awduron |
| 56. | Urdd Gobaith Cymru |
| 57. | Yr Academi Gymreig |

Cyfarfu'r cyrff a ganlyn hefyd â'r Cadeirydd a/neu'r Ymgynghorydd Arbenigol:

| | |
|---|---|
| 1. | Bwrdd Croeso Cymru |
| 2. | Cyngor Amgueddfeydd ac Orielau Cymru |

| |
|---|
| 3. Cyngor Llyfrau Cymru |
| 4. Cymdeithas Frenhinol y Penseiri yng Nghymru |
| 5. Earthfall Dance |
| 6. Ffotogallery |
| 7. Tasglu'r Celfyddydau a Phobl Ifanc |

<u>Derbyniwyd cyfraniadau ysgrifenedig i'r adolygiad oddi wrth:</u>

| |
|---|
| 1. Academi (Ysgol Gelf Genedlaethol) |
| 2. Alder, Phillip |
| 3. Animateurs |
| 4. Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd |
| 5. Bala, Iwan |
| 6. Bwrdd yr Iaith Gymraeg |
| 7. C J Workers Cultural Enterprises |
| 8. Canolfan Gelfyddydau Gorllewin Cymru |
| 9. Canolfan Gelfyddydau'r Chapter |
| 10. Cardiff Arts Marketing |
| 11. Cardiff Bay Arts Trust |
| 12. Celfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru |
| 13. Centre for Performance Research |
| 14. Channel Four |
| 15. Clark, Rachel |
| 16. Coleg Prifysgol Cymru Caerdydd |
| 17. Corlan Creadigol Harlech Cyf. |
| 18. Cox, Richard |
| 19. Cwmni Theatr Arad Goch |
| 20. Cwmni Theatr Pyramid |
| 21. Cwmni'r Frân Wen |
| 22. Cyngor Bwrdeistref Conwy |
| 23. Cyngor Cefn Gwlad Cymru |
| 24. Cyngor Dinas Abertawe |
| 25. Cyngor Sir Ddinbych |
| 26. Cyngor Sir Gwynedd |
| 27. Cymdeithas 'Equity' Actorion Prydain |
| 28. Cywaith Cymru |
| 29. Dance UK |
| 30. Dawns Dyfed |
| 31. Eagar, David |
| 32. Earthfall |
| 33. Equity - Cymdeithas 'Equity' Actorion Prydain |
| 34. Evans, Rhiannon - Rhiannon Cyf (Aur) |
| 35. Fishguard Goodwick and Lower Town Civic Society |
| 36. Ffilm yng Nghymru |
| 37. Fforwm Celf Abertawe |
| 38. Fforwm Crefft Cymru |
| 39. Fforwm Llenyddiaeth Cymru |

| |
|---|
| 40. Galleries of Wales |
| 41. Greenhalgh, Jill |
| 42. HONNO |
| 43. Huw-Morgan, Richard |
| 44. Independent Theatre Council (ITC) |
| 45. International Parliament of Writers |
| 46. International Theatre Institute |
| 47. James, Rhodri |
| 48. Jazz Services |
| 49. Jeffries, Sid |
| 50. Last Invasion Centre |
| 51. Lloyd Jones, Mary |
| 52. Lobi Celfyddydau Glynn Vivian |
| 53. Marketing the Arts in Swansea and Carmarthenshire |
| 54. Miles, Gareth |
| 55. Morgan, Jonathan |
| 56. Morgan, Rhys |
| 57. New Welsh Review |
| 58. O'Neill, John, Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd |
| 59. Orielau Cymru |
| 60. Parthian Books |
| 61. Pioneers Ltd (The) |
| 62. Prifysgol Aberystwyth (Adran Theatr, Ffilm a Theledu) |
| 63. Prifysgol Cymru, Abertawe |
| 64. Prifysgol Morgannwg |
| 65. Publishing Services Network Ltd |
| 66. Pwyllgor Addysg cyn 16 oed, Ysgolion ac Addysg Gynnar y Cynulliad Cenedlaethol |
| 67. Rubicon Dance |
| 68. Shade, Dr Ruth |
| 69. Short, Eirian |
| 70. Teare, Jeff |
| 71. Tinker, David |
| 72. Torch Theatre |
| 73. TRAC |
| 74. Theatr Arad Goch |
| 75. Theatr Cerdd Cymru |
| 76. Theatr Hijinx |
| 77. Theatr Specatcle |
| 78. Uchel Gomisiwn Canada |
| 79. Valley Arts Marketing |
| 80. Vaughan-Jones, Yvette |
| 81. Williams, Gwenno |
| 82. Willitts, Carolyn |
| 83. Women's Jazz Archive |
| 84. Y Pwerdy |
| 85. Y Tabernacl - Amgueddfa Celfyddyd Fodern Cymru |

86. Yeomans, Geoff

**ATODIAD C**

**Trafod Diwylliannol / Sgyrsiau Beirniadol**

<u>Cyflwyniad</u>

Bu'r Pwyllgor yn meddwl yn ddwys am yr ymadrodd "*culture is society's conversation with itself overheard by others*".

Roedd yn dda clywed sylwadau cadarn, angerddol a chytbwys. Roedd y Pwyllgor yn edmygu'r rheiny a oedd yn anghytuno â'i gilydd gyda pharch a goddefgarwch. Roedd yn croesawu syniadau herfeiddiol am estheteg, delfrydau a gwerthoedd artistig. Roedd am annog trafod agored a chlywed barn pobl. Roedd am glywed y rhesymegol yn ogystal â'r emosiynol. Roedd hefyd am glywed am werthfawrogi a chreu gwerthoedd cytûn yn ogystal â chwaeth. Dechrau proses oedd yr adolygiad hwn, proses yr oedd y Pwyllgor am iddi barhau.

Un o brif ddibenion y Pwyllgor wrth drafod ag aelodau'r cyhoedd ac ymarferwyr ym myd y celfyddydau oedd codi safonau trafod beirniadol ar y Celfyddydau a Diwylliant yng Nghymru.

Mae angen fforymau beirniadol ar gyfer trafod aeddfed, gwerthuso a herio, er mwyn cael Diwylliant iach, byw a deinamig. Mae gan Gymru draddodiad da o drafod diwylliannol beirniadol o'r fath, er ei fod wedi dechrau pallu'n ddiweddar. Teimlai Cadeirydd y Pwyllgor, Cynog Dafis AC, ei bod yn bwysig ailgychwyn y traddodiad hwn, er mwyn ymestyn y trafod diwylliannol a rhoi ar waith fecanwaith ar gyfer pennu patrwm gwerthoedd ein diwylliant cytûn.

Mae trafod ein hunaniaeth, y celfyddydau a'u cyfraniad i gymdeithas yn dasg anodd ond rhaid ymgymryd â'r dasg honno gan obeithio y bydd y ddialecteg yn ysgogi trafod cyhoeddus mwy deallus, dealltwriaeth fwy craff o ddosbarthiad y ffurfiau celfyddyd a mwy o ran yn llif y newidiadau diwylliannol ledled y byd.

Mae dau academydd enwog wedi ysgrifennu yn nhraddodiadau cyfatebol y meddylfryd Diwylliannol Cymreig. Mae'r Athro Dai Smith, Dirprwy Is Ganghellor Prifysgol Morgannwg, yn ein hatgoffa o etifeddiaeth Raymond Williams a'i syniadau craff am ddiwylliant a newid diwylliannol. Mae Dr Dafydd Glyn Jones, yr ysgolhaig nodedig o Brifysgol Cymru Bangor, yn disgrifio pegynnau dadl yr iaith a chyfraniad y ddadl honno i ddiffinio'n cyd-ddiwylliant. Dyma roi hwb i'r ddialecteg.

Mae technoleg newydd yn caniatáu i'r sgwrs hon barhau mewn ffordd uniongyrchol a thrawiadol. Mae'r traethodau hyn, (ynghyd â chyfraniadau hynod ddiddorol llawer o'r rheiny a ymatebodd i'r arolwg sydd ar gael ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol), yn rhan annatod ac angenrheidiol o'n trafod diwylliannol cenedlaethol, a'n hymgais i ddod o hyd i ddiwylliant cytûn.

**Ceri Sherlock**

**DIWYLLIANT CYTÛN - traethawd gan Dai Smith**

Yn y 1850au yn Ngogledd cenedl newydd yr Eidal - cenedl wleidyddol unedig ond cymdeithasol ranedig - roedd gweithiau hynod ddeinamig Guiseppe Verdi'n taranu o'r Ty Opera ac allan i'r strydoedd. Bron wrth iddynt gael eu perfformio, byddent yn cael eu trawsgrifio'n llu o gopïau a'u dosbarthu ledled Ewrop. Ac ym Merthyr Tudful, canolbwynt diwydiannol y Gymru fodern ddadleoledig, disgwyliai'r maestro o Ffrainc ym mharlwr castell Crawshay i gledrau'r rheilffyrdd a wnaethpwyd ar gyfer y byd yn ffwrneisi Cyfarthfa a Dowlais ddod â'r gerddoriaeth ato. Ymhen wythnosau byddai'n cael ei sgorio ar gyfer offerynnau pres er mwyn i'r Band, consesiwn y meistr haearn i Ddiwylliant a ddeuai'n nes ymlaen yn nodweddiadol o dorfoldeb dosbarth gweithiol, anfon melodïau newydd cyffrous o'r lawntiau deifiedig i awyr llawn swlffwr y nos yn nhref fwyaf poblog Cymru hyd hynny.

Felly, o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg rhydd Gymru i ni un o'r darluniau mwyaf graffig o gymhlethdod Diwylliant mewn Cymdeithas; cymysgedd o gelfyddyd a masnach a diwydiant a chwaeth boblogaidd a newid chwyldroadol. Bron union ganrif yn ddiweddarach y Cymro, Raymond Williams (1921-88), yn ei gampwaith *Culture and Society* ym 1958, fyddai'n ceisio cydlynu'r syniadau a'r ystyron hyn unwaith eto. Byddai'n dod i'r casgliad bod i'r gair 'Diwylliant' un o'r ystyron mwyaf cymhleth posibl - celfyddyd aruchel, ffordd o fyw, gwerthoedd esthetig, hunaniaeth gymdeithasol a chyfnewid ledled y byd. Mae'n enwog am ddweud bod 'Diwylliant yn gyffredin'. Daeth gwaith Williams yn fyd-enwog, a hynny efallai i'r fath raddau fel nad ydyn ni yma yng Nghymru wedi deall pa mor hanfodol bwysig yw'r meddyliwr dwys hwn i'n cyflwr fel cenedl. Yn fab i weithiwr rheilffordd a'i wraig o ffin Clawdd Offa ger y Fenni, treuliodd ei fywyd yn hyrwyddo dulliau gwleidyddol o greu diwylliant cytûn - nid diwylliant unffurf ac unwedd ond yn hytrach un amrywiol a chydgysylltiedig. Y bwriad bryd hynny, a hyd heddiw, oedd gwrthod gwahanu gweithgarwch (arferol) diwylliant oddi wrth y ffordd yr oedd pobl yn cael eu trawsnewid (yn gymdeithasol) yn ddosbarthiadau; ac yna herio natur (honedig) anghyraeddadwy rhywfaint o'r diwylliant (aruchel) a lefel (honedig) is ymdrechion creadigol gwaith gwyddonol neu gasgliadol.

Ar y cyfan, bu pwysau prynwriaeth fyd-eang, a'r dinistrio a fu ers y 1980au ar sefydliadau casgliadol a ffurfiwyd o arferion dosbarth gweithiol, yn gwthio arwyddocâd ehangach ei waith i'r ymylon. Ac eto, fel gyda phrofiadau pobl Cymru o'r grymoedd diwylliannol hyn ers y 1850au, man cychwyn y gwaith yw'r lleol. O edrych o'n cwmpas y cawn y darlun diwylliannol gorau o'r byd sydd ohoni. Er gwaetha trem anwybodus y rheiny sy'n ddeallusol fyr eu golwg, nid yw'r ymddatod cymdeithasol ar ddiwedd y ganrif ddiwethaf yng Nghymru yn arwydd o ddiwedd gorwelion na'r olwg wreiddiedig ar y gorwelion hynny. Felly, dim ond trwy ein gorffennol y gwelwn ein dyfodol; ac ni ddaw'r gorffennol fyth i ben i'r cymdeithasau hynny sy'n dewis byw fel nhw eu hunain.

Ni ellir gwthio diwylliant cytûn ar Gymru. Ond fe ellir mynd ati i olrhain ei nodweddion, meithrin ei gwerthoedd cytûn, hybu ei huchelgais herfeiddiol, defnyddio'i darganfyddiadau a thrafod ei sialensau. Gan nad cofeb neu wrthrych disymud mo Diwylliant, yn rhywbeth i'w gadw mewn cwpwrdd

sanctaidd a'i dynnu allan o dro i dro, dylem wneud mwy na dim ond ei ddathlu - er nad yw ambell barti mewn pabell neu hyd yn oed ar y stryd yn ddrwg o beth - gan mai'r diben yw iddo ymwreiddio a lledaenu yn ein cymdeithas. Diwylliant, felly, fydd yr hyn y dewiswn ei wneud, a'r hyn y byddwn yn rhydd i'w wneud, yn ein bywydau emosiynol ac affeithiol, pan fydd modd, er mwyn creu diwylliannau, i ddibenion gwaith ymwneud â'r angen am ddiwylliant.

Bydd y diwylliant cytûn hwn yn cadarnhau hunaniaethau hoff y Cymry, boed yn ieithyddol neu o ran ethnigrwydd neu dirlun, neu drwy roi i'n diwydiant twristiaeth weledigaeth y tu hwnt i ddelweddau cwmnïau hysbysebu, tra'n gwrthod derbyn hunaniaethau ar wahân na allant gymysgu na newid. Yn wir bydd newid yn rhan o hanfod y trawsnewidiad diwylliannol hwn gan y bydd diwylliant heb newid, pa mor wreiddiedig bynnag y bo, yn edwino'n rhywbeth sy'n caethiwo'i ddinasyddion yn lle'u rhyddhau. Ymddengys bod y Gymru gyfoes wedi deall y syniad hwn yn wyneb y bygythiad i'r iaith Gymraeg ac eto mae'n dal i ymochel rhag mynwes mwy bywiol sylfeini cymdeithasol ansicr ei phobl sydd ar y cyfan yn drefol a diwydiannol ac uniaith eu natur, drwy werthfawrogi'n agored y diwylliant a grewyd ganddynt.

A hynny ar adeg pan fo disgynyddion offerynwyr pres Verdi'n siglo Cymru gyda rhybudd eu cerddoriaeth - seiniau nad ydynt yn dathlu, er gwaetha'r heip a'r masnacheiddio, ond sy'n hytrach yn anfodlon ac yn ymholgar. Mae'r cerddorion hyn yn dangos y gallant (ail)ymddangos, drwy ddiwylliant (pop) cryf, gyda (herfeiddiwch) diwylliant gweddilliol cynharach. Ein lle ni felly yw mynd ati ar fyrder i hybu proffil y rheiny y bu i'w llwyddiannau diwylliannol yn y gorffennol, a hynny weithiau yn groes i bob disgwyl, fynegi neu gynrychioli diwylliant y mwyafrif yng Nghymru'r 20fed ganrif.

Mae diwylliant yn hyn o beth yn bont i'r rheiny y torrwyd eu cysylltiadau cymdeithasol ac economaidd â gwerthoedd gorau eu cymunedau - gyda phwyslais ar y lleol a'r rhyngwladol. Dylem fanteisio ar bob cyfrwng - yn brint, darlledu, addysg, nawdd, y we a gosodiadau cyhoeddus, yn blaciau a phlinthiau - i ddweud wrth Gymru benbaladr y cafodd eich lle, eich pobl, eich breuddwydion eu disgrifio, eu paentio, eu cerflunio, eu canu a'u trafod. Am etifeddiaeth i'w gadael yn pydru yng nghysgod ein mân ddiddordebau cynhennus. Mae'r lleol, ble bynnag y bo, hefyd yn genedlaethol a thrwy gelfyddyd y gellir archwilio'r hyn sy'n fyd-eang ac yn ddynol ac felly'r hyn sydd orau ym mhob un ohonom. Dyna'r Gymru y dylem fod yn ei dathlu gerbron y byd.

Ni ddylai'r pwyslais hwnnw ar falchder datganoledig a gwasgaredig olygu na all y genedl ddod ynghyd fel bodau diwylliannol, ac nid oes angen iddo olygu hynny. Ym myd chwaraeon, o'r clybiau i'r Maes Cenedlaethol, rydym wedi llwyddo i wneud hynny i bob pwrpas - ac yma eto ceir diwylliant hysbysu, er nad yw o anghenraid yn gwbl gynhwysol. Mewn byd diwylliannol hybrid nid oes raid i unrhyw un agwedd bendant ar ddiwylliant fod yn gryfach nag eraill. Dylem fod yn barotach i rannu ac anghytuno, cyn belled â'n bod yn cymryd rhan. Mae hyn hefyd wrth wraidd yr angen am Oriel Genedlaethol ar gyfer y celfyddydau gweledol. Ni allwn ddysgu gweld, a gweld eto'n wahanol os bydd angen, os bydd diffyg darpariaeth sefydliadol yn ein dallu.

Efallai nad yw'n deg gosod y gofynion trwm, y cynlluniau mawreddog a'r prosiectau idealistig hyn ar ysgwyddau'r Cynulliad hwn ym more'i oes. Y gwir yw na fydd y Cynulliad fel arteffact gwleidyddol yn tyfu'n gorff aeddfed a chymdeithasol angenrheidiol oni all gysylltu'n ddiwylliannol â'r bobl. Gwelwyd yn y penderfyniad i godi adeilad pensaerniol newydd gam cyntaf allweddol yn y broses ddysgu hon. Mae'n golygu y bydd y Cynulliad ei hun yn ganolbwynt. Nawr, er mwyn creu consensws diwylliannol gwirioneddol sy'n fwy na dim ond cytundeb gwleidyddol, mae angen meithrin cymdeithas ddinesig lle bydd angen anghytuno ac anghydweld er mwyn goddef y naill a'r llall mewn Cymru amrywiol, ac er mwyn i'n harwyddocâd diwylliannol fod yn werth chweil, yn gwbl ddynol, ac yn gytûn yng ngwir ystyr y gair.

**Traethawd gan Dr Dafydd Glyn Jones**

Daw i'm meddwl yn awr osodiad cyntaf y ddarlith gyntaf a glywais yn fyfyriwr ym Mangor. Dr Enid Roberts a'i gwnaeth, wrth agor cwrs ar hanes llenyddiaeth y ddeunawfed ganrif. Codaf ef o'm nodiadau, fel y cymerais ef i lawr 41 o flynyddoedd yn ôl: “Yn y pen draw, cyflwr cymdeithas sy'n pennu ansawdd llenyddiaeth, a diwylliant yn gyffredinol; angenrheidiau bywyd i ddechrau, a'r hyn sydd dros ben sy'n noddi celfyddyd.” Dyma wirionedd

mawr, a diau bod y Cynulliad a'i bwyllgorau wedi ei ystyried cyn comisiynu'r adroddiad hwn. Ychwanegaf ato wirionedd mawr arall, a T. S. Eliot a'i dywedodd: "Diwylliant yw'r un peth na allwn amcanu'n fwriadol tuag ato." Anodd osgoi'r ddau gyfyngiad hyn wrth grynhoi hanes unrhyw ddiwylliant.

Gyda'r "hyn oedd dros ben", yr hyn a wnaeth blaenoriaid y gymdeithas yng Nghymru am fil a rhagor o flynyddoedd oedd prynu eu moliant eu hunain. Galluogai hynny i lenyddiaeth Gymraeg fod yn broffesiwn. Ond yn ogystal â mawl tywysogion ac uchelwyr, a ganent at eu byw, canodd y beirdd lawer o bethau eraill hefyd – serch, dychan, cwyn, comedi, gwleidyddiaeth, profiad crefyddol, helyntion bywyd – gan roi inni draddodiad llenyddol a saif gyfysgwydd ag unrhyw un yn y canrifoedd hyd at y Dadeni. Am nad oedd byth gymaint â chymaint "dros ben" yng Nghymru, ac am mai llenyddiaeth yw'r gelfyddyd rataf i'w chynnal, gwyddom fwy amdani hi nag am unrhyw gelfyddyd arall yn yr un canrifoedd. Nid y beirdd wrth eu swydd oedd biau'r cyfan ohoni, o bell ffordd; "amaturiaid", mae'n debyg, y galwem y gwyr llythrennog a roddodd ffurf ysgrifenedig ar chwedlau'r cyfnod canol, a'r un modd awduron dienw'r rhyddiaith amrywiol yn ymwneud â chrefydd, hanes, daearyddiaeth, cyfraith, meddygaeth a gwyddoniaeth yr oes. Eto i gyd yr oedd presenoldeb yr elfen broffesiynol, y "gwyr wrth gerdd", yn rhoi sefydlogrwydd a safon i'r cyfan. Darllener y gyfrol *Drych yr Oesoedd Canol* (Caerdydd, 1986), wedi ei golygu gan Nesta Lloyd a Morfudd Owen, a cheir syniad o hyd a lled y diwylliant a fynegwyd yn Gymraeg rhwng chwech ac wyth canrif yn ôl. Pethau arferol yr oes yw ei gynnwys, ond y Gymraeg yw ei gyfrwng. Ysgrifenna Robert Owen Jones, yn *Hir Oes i'r Iaith: Agweddau ar Hanes y Gymraeg a'r Gymdeithas* (Llandysul, 1997), wrth drafod yr un cyfnod: "o safbwynt yr iaith, dyma gyfnod ymestyn ei gorwelion a'i defnyddioldeb, tymor cadarnhau ei safle a'i statws, ac adeg ei gosod yn iaith cymdeithas hyderus nad oedd arni angen unrhyw iaith arall ar gyfer byw bywyd llawn ac ystyrlon."

Daeth tro ar fyd. Ar ôl cael gwerth eu harian o foliant y beirdd am ddeg canrif, penderfynodd y bonedd Cymreig yn yr unfed ganrif ar bymtheg mai gwell ganddynt rywbeth arall wedi'r cyfan, sef y cyfle i fod yn Saeson. Gwnaed hyn yn bosibl iddynt gan Ddeddf 1536, y "Ddeddf Uno" fel y gelwir hi; dan yr un ddeddf fe'i gwnaed hi'n amhosibl cael swydd, proffesiwn neu ddyrchafiad o dan y Goron heb fedru'r Saesneg. Golygodd hyn, yn y man, ddiwedd ar yr elfen broffesiynol yn y diwylliant Cymraeg, am nad oedd ei noddwyr yno mwyach. Golygodd fwy, sef newid hanfodol yn statws y diwylliant hwnnw. Fe drodd yn "ddiwylliant dibynnol". Dyma ddiffiniad clasurol T. S. Eliot o *satellite culture*, chwedl yntau: " [Y] diwylliant digamsyniol *ddibynnol* yw un sy'n cadw ei iaith, ond sydd wedi ei gysylltu mor glos â diwylliant arall ac yn dibynnu arno mor llwyr, fel bod y bobl oll, nid rhai dosbarthiadau ohonynt yn unig, yn gorfod bod yn ddwyieithog. Gwahaniaetha oddi wrth ddiwylliant y genedl fechan annibynnol yn hyn o beth, mai yn yr olaf dim ond rhai dosbarthiadau, fel arfer, sy'n gorfod medru iaith arall; ... a bod y rhai sydd ag angen gwybod iaith estron yn debyg o fod ag angen dwy neu dair; ... gwir ddiwylliant dibynnol yw hwnnw sydd, am resymau daearyddol ac arall, mewn perthynas barhaol â diwylliant cryfach."

Dyna ddisgrifiad cywir o'r diwylliant Cymraeg ers pedair canrif. Ond am dair o'r canrifoedd hyn gwrthbwyswyd y ffaith ganolog hon, a gohiriwyd y sylweddoliad ynghylch gwir sefyllfa'r diwylliant, gan un ffactor mawr, sef y cyswllt agos â Christnogaeth Brotestannaidd. Heddiw y mae'r cyswllt hwnnw bron â pheidio â chyfri, ac am reswm cwbl ddigonol, sef nad oes gan y rhan fwyaf ohonom brofiad nac argyhoeddiad o wirionedd Cristnogaeth. Yn y cyfamser, dan bwysau ideoleg rymus a hyrwyddid gan y wladwriaeth Brydeinig, fe berswadiwyd mwyafrif mawr ohonom fod ein hiaith draddodiadol yn ddrwg inni. Yr ydym wedi treulio'n credyd i gyd. Nid oes bellach osgoi'r gwirionedd, mai rhywbeth ychwanegol, dewisol, rhywbeth nad oes raid wrtho, yw'r diwylliant Cymraeg. Yr hyn sy'n rhyfeddol, efallai, yw fod cynifer yn dal i'w ddewis.

Oddi ar y 1960'au buom ni Gymry Cymraeg yn cynnal arbrawf, a ni'n hunain yn rhan ohono. Ceisiai'r ateb i dri chwestiwn ynghylch y diwylliant Cymraeg: (1) A allai fodoli fel diwylliant cwbl seciwlar? (2) A allai yn awr gynnwys a chynnal yn llwyddiannus elfen broffesiynol, gan fod tipyn bach o arian "dros ben" unwaith eto ar gael? (3) A allai dderbyn elfennau o'r diwylliant torfol, oll-bresennol Eingl-Americanaidd a'u cymathu ar ei delerau ei hun? Cymysg yw'r arwyddion, a heb fod cystal oddi ar 1980. Efallai bod arwyddocâd yn y ffaith mai llwyddiant diwylliannol mawr y Cymry Cymraeg yn ystod y chwarter canrif diwethaf fu ffenomen y papurau bro, ffrwyth ymdrech gwbl wirfoddol.

Yn y sefyllfa hon, beth a all llywodraeth ei wneud? Dau angen mawr y diwylliant Cymraeg heddiw yw: (1) prifysgol, yn yr ystyr o goleg Cymraeg ffederal a fyddai'n gorgyffwrdd ac yn cydweithio â cholegau daearyddol Prifysgol Cymru; a (2) gwasg ddyddiol, sef cadwyn o bapurau bychain seiliedig ar gynulleidfaoedd y papurau bro. O sicrhau'r ddeubeth hyn, fe all y diwylliant Cymraeg oroesi; hebddynt, ni wna. Fe all y Cynulliad, ac fe ddylai, hyd yn oed â'r pwerau sydd ganddo, ddarparu ar gyfer y cyntaf drwy neilltuo'r arian angenrheidiol. Am yr ail, ni ddaw ond trwy fenter breifat, ac nid oes a wnelo llywodraeth ddim ag ef.

Yn anuniongyrchol, gallai ymyrraeth llywodraeth Gymreig beri gwahaniaeth mawr. Prif broblem y diwylliant Cymraeg heddiw yw ansefydlogrwydd cynhenid y dosbarth proffesiynol a gododd o blith y werin Gymraeg drwy fanteision addysgol y cyfnod wedi'r Ail Ryfel Byd. Oddi ar 1980 bu'n dangos arwyddion amlwg o golli blas ar y chwarae, fel petai heb hyder yn ei allu ei hun i gynnal democratiaeth fodern flaengar yng Nghymru. Fel yr uchelwyr yn oes y Tuduriaid, ac fel pob dosbarth o Gymry byth oddi ar hynny a gododd y mymryn lleiaf yn y byd, dyma'r dosbarth hwn eto'n paratoi i adael y llong. Ei ffordd o wneud hynny yw anfon ei blant i Loegr yn ddeunaw oed. Tasg hanesyddol llywodraeth Gymreig fyddai defnyddio gwobrau ac ysgogiadau ariannol i sefydlogi'r dosbarth hwn, arfer yr holl foddion sydd at alw llywodraeth i beri bod y Cymry galluocaf yn aros yng Nghymru. Heb hynny ni bydd dim.